# Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru

## CHWECHED ADRODDIAD - 2025

**Adroddiad i**

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Llywodraeth Cymru**

Mai 2025

LIC 52309
ISBN 978-1-80633-050-8

# Termau a byrfoddau

## Sefydliadau a gyflwynodd sylwadau ac a ddarparodd dystiolaeth i CACAC

| | |
|---|---|
| ASCL Cymru | Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru |
| Community Cymru | |
| NAHT Cymru | Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon yng Nghymru |
| NASUWT Cymru | Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau yng Nghymru |
| NEU Cymru | Undeb Cenedlaethol Addysg yng Nghymru |
| UCAC | Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru |
| CLILC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

## Termau a byrfoddau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

| | |
|---|---|
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| Cydlynydd ADY | Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| Cod ADY | Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2021) |
| Deddf ADYTA (Cymru) | Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018) |
| ASHE | Arolwg Blynyddol Oriau ac Enillion |
| BoE | Banc Lloegr |
| CPI | Mynegai Prisiau Defnyddwyr |
| CPIH | Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys Costau Tai Perchen-feddianwyr |
| EPI | Sefydliad Polisi Addysg |
| CGA | Cyngor y Gweithlu Addysg |
| CALI | Cyfwerth ag Amser Llawn |
| HESA | Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch |
| HESES | Ystadegau Cynnar Myfyrwyr Addysg Uwch |
| IFS | Sefydliad Astudiaethau Cyllid |
| ISE | Sefydliad Cyflogwyr Myfyrwyr |
| TG | Technoleg Gwybodaeth |
| AGA | Addysg Gychwynnol Athrawon |
| CACAC | Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru |
| CAH | Canlyniadau Addysg Hydredol |
| LFS | Arolwg o'r Llafurlu |

| | |
|---|---|
| YCGA | Ystod Cyflog y Grŵp Arweinyddiaeth |
| ITM | Ieithoedd Tramor Modern |
| PYC | Prif Ystod Cyflog |
| NDR | Ardreth Annomestig |
| NJC | Cyd-gyngor Cenedlaethol |
| ANG | Athrawon Newydd Gymhwyso |
| OBR | Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol |
| OECD | Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd |
| ONS | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| OUP | Partneriaeth y Brifysgol Agored |
| TAR | Tystysgrif Addysg i Raddedigion |
| CYBLD | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| PPF | Fforwm Partneriaeth Cyflog ac Amodau Athrawon |
| UCD | Unedau Cyfeirio Disgyblion |
| SAC | Statws Athro Cymwysedig |
| RPI | Mynegai Prisiau Manwerthu |
| RSG | Grant Cynnal Refeniw |
| AAA | Anghenion Addysgol Arbennig |
| SNCT | Pwyllgor Negodi’r Alban ar gyfer Athrawon |
| STEM | Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg |
| DCAAY | Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol |
| DCAAY(C) | Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) |
| STRB | Corff Adolygu Athrawon Ysgol |
| CBGY | Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion |
| SWCG | Grŵp Cydlynu Llwyth Gwaith Strategol |
| TOIL | Amser i Ffwrdd yn Gyfnewid |
| CAD | Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu |
| TPS | Cynllun Pensiwn Athrawon |
| TPSM | Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon |
| UCEA | Cymdeithas Cyflogwyr Prifysgolion a Cholegau |
| YCU | Ystod Cyflog Uwch |
| USD | Doleri’r UD |
| TAA | Tystysgrif Addysg Alwedigaethol |

# Cynnwys


## Termau a byrfoddau ........ i

## Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ........ vi

Ein rôl ........ vi

## Crynodeb Gweithredol ........ vii

Cyflwyniad ........ vii

Ein cylch gwaith ar gyfer mis Medi 2025 ........ viii

Ein casgliadau a'n hargymhellion ........ ix

Addasiadau i ystodau cyflog a lwfansau ar gyfer athrawon ac arweinwyr yng Nghymru ........ ix

## Pennod 1 – Cyflwyniad ........ 1

Sylwadau agoriadol ........ 1

Y system gyflog i athrawon ac arweinwyr yng Nghymru ........ 1

Adroddiadau blaenorol ........ 2

Y chweched cylch gwaith (2025) ........ 2

Ymagwedd CACAC at adroddiad 2025 ........ 3

Proses eleni a gwersi ar gyfer y dyfodol ........ 5

Strwythur yr adroddiad hwn ........ 5

## Pennod 2 – Y Cyd-destun Economaidd ........ 7

Y Cyd-destun Economaidd/Cyllid y Sector Cyhoeddus ........ 7

Gwariant awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion ........ 10

Cyflogau'r sector cyhoeddus ........ 13

## Pennod 3 – Y Cyd-destun Addysgol ........ 15

Y Cyd-destun Addysgol – Cefndir Ystadegol ........ 15

- Nifer yr ysgolion ........ 15

Y boblogaeth ddisgyblion: Cyd-destun ac amcanestyniadau ........ 15

Ystadegau athrawon ac arweinwyr ........ 17

- Newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn addysgu ........ 20
- AGA ........ 21
- Recriwtio i AGA ........ 22
- Recriwtio i AGA yn erbyn y dyraniadau ........ 23
- Y Gymraeg ........ 25

Swyddi gwag ........ 26

- Swyddi gwag athrawon ........ 26

Swyddi gwag arweinwyr ysgolion ........ 28

Cyfraddau cadw ... 29

**Pennod 4 – Materion sy'n Berthnasol i Gyflogau a Lwfansau ... 33**

Graddfeydd addysgu ... 33

Graddfeydd arweinyddiaeth ... 33

Arsylwadau ynglŷn â chyflog a rhywedd ... 34

Cymhariaeth rhwng cyflogau yng Nghymru a Lloegr ... 35

Cymhariaeth rhwng graddfeydd cyflog ... 36

Cyflogau cychwynnol athrawon o'u cymharu â phroffesiynau eraill i raddedigion ... 36

Cyflogau ar gyfer athrawon profiadol o'u cymharu â phroffesiynau eraill i raddedigion ... 40

Cyflogau ar gyfer penaethiaid o gymharu â gwledydd yr OECD ... 45

Trefniadau cyfrifoldeb addysgu a dysgu (CAD) ... 47

Mynychder CADau ... 48

Cydnabyddiaeth ariannol a thelerau ac amodau ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynwyr ADY) ... 50

**Pennod 5 – Ymatebion Ymgynghori ... 53**

Ystodau cyflog a lwfansau ar gyfer athrawon ac arweinwyr ... 53

Safbwyntiau Llywodraeth Cymru ... 53

Safbwyntiau ymgyngoreion ... 55

Cynnydd mewn cyflogau a lwfansau ... 55

Effaith cyflog ar recriwtio a chadw ... 58

Egwyddorion ar gyfer dyfarniadau cyflog ... 59

Anghydraddoldeb cyflog yn y proffesiwn addysgu ... 60

Gweithredu Adolygiad Strategol CACAC ... 62

Y broses ymgynghori ar gyfer Cylch Gwaith CACAC 2025 ... 62

**Pennod 6 – Casgliadau ac Argymhellion ... 63**

Cefndir ... 63

Addasiadau i'r ystodau cyflog a lwfansau ar gyfer athrawon ac arweinwyr yng Nghymru ... 64

**Atodiad A – Llythyr Cylch Gwaith Ysgrifennydd y Cabinet 2025 ... 67**

**Atodiad B – Cyflwyniad i CACAC ... 70**

**Atodiad C – Llinell amser ar gyfer gweithredu (o Adolygiad Strategol 2024 CACAC 2024) ... 71**

**Atodiad Ch – Pwyntiau graddfa gyflog argymelledig ar gyfer 2025-2026 ... 78**

# Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru

## Ein rôl

Sefydlwyd Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (CACAC) ym mis Mawrth 2019 fel corff annibynnol â'r cyfrifoldeb i wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ynglŷn â chyflog ac amodau athrawon ac arweinwyr ysgolion yng Nghymru.

Mae CACAC yn adrodd i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Trosglwyddodd y cyfrifoldeb o bennu cyflog ac amodau athrawon ac arweinwyr yng Nghymru i Weinidogion Cymru o 30 Medi 2018 o dan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018.

Caiff yr ysgrifenyddiaeth annibynnol ar gyfer CACAC ei darparu gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA), ac mae Alma Economics wedi cynorthwyo i lunio'r adroddiad hwn.

Dyma aelodau CACAC:

- Sharron Lusher MBE DL – Cadeirydd
- Simon Brown – Aelod
- Dr Caroline Burt – Aelod
- Aled Evans – Aelod
- Gareth Morgans – Aelod
- Annmarie Thomas – Aelod
- Saleha Wadee – Aelod
- Yr Athro Stephen Wilks – Aelod

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

Mae'n bleser gan Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (CACAC) gyflwyno ei chweched adroddiad ar gyflog ac amodau athrawon ac arweinwyr yng Nghymru.

Mae CACAC wedi ymrwymo i argymell diwygiadau i gyflog a thelerau ac amodau athrawon ac arweinwyr yng Nghymru a fydd yn helpu i godi statws y proffesiwn, a chefnogi recriwtio a chadw athrawon ac arweinwyr o safon yn ei holl ysgolion yn y ffordd orau.

Mae rhaglen arwyddocaol o ddiwygiadau addysgol yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd sydd â'r nod o sicrhau safonau uchel a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb yn ceisio datblygu nod ei rhagflaenydd o wella'r system ysgolion.

Hoffai CACAC amlygu nifer o faterion sydd wedi effeithio ar gynhyrchu ein hadroddiad eleni.

Yn gyntaf, yr oedi a fu cyn derbyn y llythyr cylch gwaith, a ddisgwyliwyd ym mis Tachwedd 2024, ond na chyhoeddwyd tan ddiwedd mis Ionawr 2025. Yn ogystal, roedd y raddfa amser rhwng ei dderbyn a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ein hadroddiad yn anfanteisiol i'r broses. Mae hyn wedi cyfyngu ar y cyfnod ymgynghori, gan roi pwysau gormodol ar ymgyngoreion i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i ymateb i'r llythyr cylch gwaith ac ar CACAC i ystyried y dystiolaeth a datblygu ei adroddiad i Ysgrifennydd y Cabinet.

Mae CACAC yn ailadrodd ei alwad a fynegwyd yn adroddiad y llynedd i'r llythyr cylch gwaith gael ei dderbyn o leiaf chwe mis cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r adroddiad. Ochr yn ochr â hyn, dylai cyfarfodydd y Fforwm Partneriaeth Cyflog ac Amodau Athrawon (PPF) gael eu trefnu ymlaen llaw er mwyn sicrhau y gellir cyhoeddi'r llythyr cylch gwaith yn brydlon.

Yn ail, cymorth ychwanegol Alma Economics a fu'n allweddol i lunio'r adroddiad hwn, gan sicrhau bod yr adroddiad yn cael ei ddatblygu'n ddidrafferth ac yn unol â graddfeydd amser cytunedig. Mae cymorth ysgrifenyddiaeth o'r fath, fel y darperir i'r Corff Adolygu Athrawon Ysgol (STRB) yn Lloegr, yn hanfodol ar gyfer y dyfodol.

Mae'r materion ar gyfer argymhellion yng nghylch gwaith eleni wedi cael eu rhannu'n ddau gam. Mae'r mater ar gyfer argymhellion yng ngham un yn ymwneud ag ystodau cyflog a lwfansau ar gyfer athrawon dosbarth, athrawon heb gymhwyso, ac arweinwyr ysgolion, a dyna'r pwyslais ar gyfer yr adroddiad hwn. Bydd cam dau cylch gwaith eleni, sef materion ar gyfer argymhellion yn ymwneud ag Amodau Gwasanaeth Arweinwyr, yn cael ei drin ar wahân, ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno.

Mae CACAC yn gwerthfawrogi cyfraniadau ymgyngoreion drwy gydol y broses hon a'u hymwneud ag ymgynghoriadau â CACAC eleni ac mewn blynyddoedd blaenorol.

## Ein cylch gwaith ar gyfer mis Medi 2025

Gofynnodd llythyr cylch gwaith Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i CACAC baratoi a chyflwyno adroddiad gydag argymhellion erbyn 21 Mai 2025.

Cyfeiriwyd y mater canlynol at CACAC ar gyfer argymhelliad:

- Pa addasiadau y dylid eu gwneud i'r ystodau cyflog a lwfans ar gyfer athrawon dosbarth, athrawon heb gymhwyso ac arweinwyr ysgolion, i sicrhau bod y proffesiwn addysgu yng Nghymru yn cael ei hyrwyddo a'i wobrwyo er mwyn annog recriwtio a chadw ymarferwyr o ansawdd uchel.

Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet fater arall at CACAC ar gyfer argymhelliad hefyd, ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno:

- Pa addasiadau y dylid eu gwneud i Amodau Gwasanaeth Arweinwyr, yn enwedig ystyried a ddylai oriau gwaith gwarantedig (neu gyfyngiadau arnynt) yn ogystal â hawl warchodedig i wyliau a phenwythnosau ar gyfer arweinwyr gael eu cynnwys yn DCAAY(C).

Gofynnodd y llythyr cylch gwaith i CACAC roi sylw penodol i'r ystyriaethau canlynol:

- yr angen i sicrhau trefniadau cyflog cyson a rhesymol sy'n annog proffesiynoldeb athrawon yn ogystal â helpu i recriwtio a chadw nifer ddigonol o athrawon ac arweinwyr o ansawdd digonol;
- data recriwtio a chadw;
- amodau'r farchnad lafur ac amodau economaidd ehangach, gan gynnwys cyd-destun ariannol y sector cyhoeddus;
- amlygu cost unrhyw newidiadau arfaethedig i gyflog ac amodau;
- yr angen am gydlyniad ar draws y system cyflogau athrawon yng Nghymru, gan ddarparu trefniadau syml a safonedig y gellir eu cymhwyso i bob athro ac arweinydd ysgol yng Nghymru.

Yn ogystal, nododd y llythyr "dylai CACAC hefyd ystyried rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol cyrff perthnasol, yn enwedig deddfwriaeth cydraddoldeb yn ymwneud ag oed, anabledd, rhyw, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, neu feichiogrwydd a mamolaeth".

## Ein casgliadau a'n hargymhellion

Wrth ddod i'n casgliadau, ac wedi hynny wrth gyrraedd ein hargymhellion, mae CACAC wedi ystyried y wybodaeth a'r data ym Mhenodau 2, 3 a 4, ac ymatebion gan Lywodraeth Cymru ac ymgyngoreion eraill ym Mhennod 5. Mae Pennod 6 yn cyflwyno ein casgliadau a'n hargymhellion.

Mae CACAC yn cydnabod bod cyflog yn un rhan, ond rhan bwysig, o becyn gwobrwyon ehangach sy'n annog recriwtio a chadw ymarferwyr o ansawdd uchel yn y proffesiwn addysgu. Cynhyrchodd adolygiad strategol CACAC o gyflog ac amodau athrawon ac arweinwyr ym mis Ebrill 2024 gyfres o 26 o argymhellion y bwriadwyd iddynt gyd-fynd â diwygiadau addysgol ehangach, yn ogystal â'r cyd-destun economaidd a chymdeithasol.

O'r 26 o argymhellion a amlinellwyd yn ein hadolygiad strategol, mae pump wedi cael eu gweithredu'n llawn, mae un wedi cael ei weithredu'n rhannol, ac mae un yn cael ei drafod gan Lywodraeth Cymru, sy'n gadael 19 o argymhellion na wnaed cynnydd arnynt.

Mae CACAC yn annog Llywodraeth Cymru i gytuno ar linell amser a chynllun gweithredu ar gyfer yr argymhellion sy'n weddill o'r adolygiad strategol, ochr yn ochr ag unrhyw addasiad i gyflogau a lwfansau ar gyfer 2025/26. Heb ymagwedd o'r fath, byddai CACAC yn pryderu na ellir gwneud cynnydd ystyrlon i ddenu, recriwtio a chadw athrawon ac arweinwyr o ansawdd uchel yng Nghymru.

## Addasiadau i ystodau cyflog a lwfansau ar gyfer athrawon ac arweinwyr yng Nghymru

**ARGYMHELLIAD 1**

Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru fod yr holl gyflogau a lwfansau'n cael eu cynyddu 4.8% o fis Medi 2025.

Llywiwyd yr argymhelliad hwn gan ystod eang o dystiolaeth a data, sy'n ymestyn y tu hwnt i gyflogau, a amlinellir yn yr adroddiad hwn drwyddo draw. Mae CACAC wedi ystyried y ffactorau hyn i ddatblygu argymhelliad sydd wedi'i seilio ar ystyried atynioldeb cyffredinol gyrfa ym maes addysgu, a phwysigrwydd gwneud y proffesiwn yn un â statws uchel.

Ystyriwyd ffactorau ehangach yn ymwneud â'r economi a'r farchnad lafur hefyd, yn enwedig chwyddiant a thwf cyflogau. Yn seiliedig ar ragolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR), "Rhagwelir y bydd chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn codi o 2.5 y cant yn 2024 i 3.2 y cant yn 2025, ond yna'n gostwng yn gyflym i darged o oddeutu 2.0 y cant o ganol 2026 ymlaen. Disgwylir i chwyddiant CPI misol gyrraedd brig o oddeutu 3.8 y cant ym mis Gorffennaf 2025." Mae'r data diweddaraf sydd ar gael am enillion (mis Tachwedd 2024 i fis Ionawr 2025) wedi dangos bod enillion cyfartalog blynyddol wedi tyfu 5.9% o gymharu â'r un cyfnod y llynedd (6.1% yn y sector preifat a 5.3% yn y sector cyhoeddus).

# Crynodeb Gweithredol

Mae cyflog gwirioneddol athrawon ac arweinwyr wedi bod yn dirywio ers 2010; codwyd hyn gan lawer o ymgyngoreion. Lleihaodd y gostyngiad gwirioneddol mewn cyflogau yn dilyn dyfarniad cyflog 5.5% yn 2024, ond mae cyflogau athrawon ac arweinwyr yn parhau i fod yn is na lefelau mis Ebrill 2010 mewn termau real.

Ochr yn ochr â chyflog, amlygodd ymgyngoreion bryderon cynyddol ynglŷn â statws y proffesiwn addysgu, ac amodau gwasanaeth. Cyfeiriodd llawer o ymgyngoreion at y llwyth gwaith cynyddol, a waethygir gan faint o newidiadau sy'n cael eu gwneud yn sgil yr agenda ddiwygio ar draws polisi addysg yng Nghymru.

Roedd materion ychwanegol yn cynnwys heriau yn ymwneud ag ymddygiad ac anghenion dysgwyr, rôl gynyddol amlweddog athrawon ac arweinwyr a'r hyblygrwydd cyfyngedig a gynigir gan addysgu o gymharu â phroffesiynau eraill.

Yn perthyn yn agos i'r heriau hyn, dangosodd y data a thystiolaeth ymgyngoreion fod recriwtio a chadw yn faterion allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw.

O ran recriwtio i'r sector, er bod mwy o geisiadau na lleoedd sydd ar gael o hyd ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) ar y lefel gynradd, ceir diffyg parhaus sy'n gwaethygu ar y lefel uwchradd. Mae heriau recriwtio'n parhau yn y gweithlu addysgu, yn enwedig ar y lefel uwchradd. Roedd yr heriau'n fwy mewn rhai pynciau, ac ardaloedd daearyddol.

Yn gyfochrog â hyn, mae cyfraddau cadw athrawon wedi bod yn gostwng. Mae'r gyfradd gadael ddiweddaraf ar ei lefel uchaf ers 10 mlynedd, ac mae nifer yr athrawon sy'n gadael y proffesiwn i weithio y tu allan i faes addysgu ar ei huchaf ers pum mlynedd. Mae'r gyfradd gadael uchaf o fewn y pum mlynedd cyntaf ar ôl cymhwyso; ar ben arall y sbectrwm, mae nifer yr athrawon sy'n gadael y proffesiwn trwy ymddeoliad cynnar ar ei huchaf ers pum mlynedd, hefyd.

Y cyflog cychwynnol ar gyfer athrawon yng Nghymru oedd £32,433 yn 2024, sy'n uwch na'r cyflog cychwynnol canolrifol o £32,000 ar gyfer graddedigion ar draws y Deyrnas Unedig a adroddwyd gan y Sefydliad Cyflogwyr Myfyrwyr (ISE), ond yn is na chanolrif £34,000 High Fliers. Mae'r bwlch rhwng cyflogau cychwynnol athrawon o gymharu â'r ISE a High Fliers wedi lleihau cryn dipyn ers 2016. Mae'r duedd hon yn gadarnhaol, a chredwn y dylai barhau.

Er bod cyfanswm cyflogau canolrifol athrawon (gan gynnwys Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu (CADau)) yn debyg i broffesiynau eraill yng Nghymru ac athrawon mewn awdurdodaethau eraill, mae gan athrawon raddfa gyflog gymharol gywasgedig, sy'n achosi i gyflogau gyrraedd 'lefel wastad'. Ar y cam hwn, yr unig lwybr sydd ar gael i gynyddu cyflog a pharhau i addysgu yw ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol trwy CADau.

Yn yr un modd, er bod cyflogau cyfartalog ar gyfer arweinwyr uwchradd yn cymharu'n dda yn rhyngwladol, mae angen i hyn hefyd gael ei ystyried yng nghyd-destun yr heriau ehangach sy'n wynebu ysgolion. Nid yw cyflogau'n cymharu cystal ar gyfer penaethiaid cynradd: mae Cymru a Lloegr wedi'u graddio'n 11eg o 30 gwlad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).

I grynhoi, mae CACAC o'r farn bod dadl gref dros setliad cyflog uwch na chwyddiant i wneud gyrfa addysgu'n gystadleuol a chydnabod yr heriau amlweddog sy'n wynebu athrawon ac arweinwyr. Fel y nodwyd ar ddechrau'r crynodeb hwn, dylai'r argymhelliad hwn ar gyfer dyfarniad cyflog gael ei ystyried yng nghyd-destun argymhellion cyfannol CACAC yn ein hadolygiad strategol. Er bod cyflog yn ffactor allweddol, rydym yn pryderu fwyfwy na fydd dyfarniadau cyflog blynyddol, heb ystyried ffactorau allweddol eraill, yn cael yr effaith a ddymunir o fynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw sy'n cynyddu.

Bwriadwn i'r sylwadau hyn gael eu hystyried fel cyfraniad cadarnhaol, yng nghyd-destun nodau ac uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru, a Chenhadaeth ein Cenedl. Mae'r agenda diwygio addysg yn gyffrous ac yn sylweddol ac mae angen iddi bellach gael ei hategu gan weithgarwch cyfochrog i drawsnewid amodau ar gyfer y proffesiwn addysgu yng Nghymru.

# Pennod 1 – Cyflwyniad

## Sylwadau agoriadol

1.1 Mae Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (CACAC) yn falch o gyflwyno ei chweched adroddiad ar gyflog ac amodau athrawon ac arweinwyr yng Nghymru.

1.2 Mae rhaglen arwyddocaol o ddiwygiadau addysgol yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru sydd â’r nod o sicrhau safonau uchel a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb yn ceisio datblygu nod ei rhagflaenydd o wella’r system ysgolion. Mae’r genhadaeth genedlaethol yn mynegi blaenoriaethau’r llywodraeth a’r system addysg i sicrhau llwyddiant, safonau uchel a lles pob dysgwr.

1.3 Dechreuwyd rhoi Cwricwlwm i Gymru ar waith yn 2022. Mae cymwysterau newydd yn cael eu cyflwyno i gefnogi nodau ac uchelgeisiau’r cwricwlwm newydd. Bydd cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru yn cael eu cyflwyno ym mis Medi 2025, a bydd cymwysterau Tystysgrif Addysg Alwedigaethol (TAA), Sylfaen a Chyfres Sgiliau yn cael eu cyflwyno ym mis Medi 2027. Yn ogystal, mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn parhau i gael ei gweithredu.

1.4 Mae CACAC wedi ymrwymo i argymell diwygiadau y dylid eu gwneud i gyflog a thelerau ac amodau athrawon ac arweinwyr yng Nghymru, i helpu i godi statws y proffesiwn, a chefnogi recriwtio a chadw athrawon ac arweinwyr o ansawdd uchel yn ei holl ysgolion yn y ffordd orau.

## Y system gyflog i athrawon ac arweinwyr yng Nghymru

1.5 Gwnaed darpariaeth yn Neddf Cymru 2017 i’r pŵer i bennu cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon ac arweinwyr yng Nghymru gael ei drosglwyddo o Lywodraeth San Steffan i Weinidogion Cymru o 30 Medi 2018.

1.6 O dan y ddarpariaeth hon, sefydlwyd CACAC i argymell diwygiadau i gyflog ac amodau gwasanaeth athrawon ac arweinwyr ysgolion yng Nghymru. Ers iddo gael ei sefydlu, mae CACAC wedi cynhyrchu pum adroddiad blynyddol gan wneud argymhellion i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a’i rhagflaenwyr.

1.7 Amlinellir cyflog ac amodau athrawon yng Nghymru yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (DCAAY(C)) a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol, a gyhoeddir bob blwyddyn. Mae’n rhaid i gyflogwyr athrawon mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru ystyried y ddogfen statudol hon, sy’n amlinellu’r hyn y mae’n rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol ei wneud i gydymffurfio â’r gyfraith.

# Pennod 1 - Cyflwyniad

## Adroddiadau blaenorol

1.8 Yn y llythyr cylch gwaith gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg ym mis Rhagfyr 2021, gofynnwyd i CACAC gynnal adolygiad strategol o strwythur cyflog ac amodau athrawon ac arweinwyr yng Nghymru. Cyhoeddwyd yr adolygiad strategol ar 9 Ebrill 2024.

1.9 Cyhoeddwyd adroddiad CACAC ar athrawon cyflenwi yng Nghymru ar 18 Ebrill 2024. Canolbwyntiodd yr adroddiad hwn ar rolau a chyfrifoldebau athrawon cyflenwi yng Nghymru a gyflogir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol neu ysgolion.

1.10 Cyhoeddwyd pumed adroddiad blynyddol CACAC ar 10 Medi 2024. Argymhellodd CACAC gynnydd 4.3% yng nghyflogau a lwfansau pob athro, yn seiliedig ar dystiolaeth a oedd ar gael hyd at fis Mehefin 2024. Yn dilyn hyn, derbyniodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig argymhellion y Corff Adolygu Athrawon Ysgol (STRB) i gynyddu'r holl gyflogau a lwfansau ar gyfer athrawon yn Lloegr 5.5% o fis Medi 2024. Mewn datganiad ysgrifenedig, nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn cadw ei hannibyniaeth i wneud penderfyniadau ynghylch cyflog athrawon. Amlygodd ysgrifennydd y Cabinet hefyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau nad oes anfantais i gyflog ac amodau athrawon yng Nghymru a chynigiodd gynnydd cyfatebol o 5.5% ar gyfer athrawon yng Nghymru. Gweithredwyd y cynnig hwn yn dilyn ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru, a ddaeth i ben ar 7 Hydref 2024, ac ôl-ddyddiwyd y codiad cyflog ar gyfer athrawon ac arweinwyr yng Nghymru i 1 Medi 2024.

1.11 Derbyniwyd yr holl argymhellion eraill mewn egwyddor. Roedd y rhain yn cynnwys argymhellion ynglŷn â chyflog Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynwyr ADY), tasgau clercyddol, a monitro ac adrodd ar ddeddfwriaeth cydraddoldeb ar lefel ysgol ac awdurdod lleol.

## Y chweched cylch gwaith (2025)

1.12 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y chweched llythyr cylch gwaith i CACAC ar 27 Ionawr 2025, sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

1.13 Yn ei llythyr cylch gwaith, gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet i CACAC roi sylw penodol i'r ystyriaethau canlynol:

- Yr angen i sicrhau trefniadau cyflog cyson a rhesymol sy'n annog proffesiynoldeb athrawon yn ogystal â helpu i recriwtio a chadw nifer ddigonol o athrawon ac arweinwyr o ansawdd digonol.
- Data recriwtio a chadw.
- Amodau'r farchnad lafur ac amodau economaidd ehangach, gan gynnwys cyd-destun ariannol y sector cyhoeddus.
- Amlygu cost unrhyw newidiadau arfaethedig i gyflog ac amodau.

- Yr angen am gydlyniad ar draws y system cyflogau athrawon yng Nghymru, gan ddarparu trefniadau syml a safonedig y gellir eu cymhwyso i bob athro ac arweinydd ysgol yng Nghymru.

1.14 Gofynnodd y llythyr hefyd i CACAC ystyried rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol cyrff perthnasol, yn enwedig deddfwriaeth cydraddoldeb yn ymwneud ag oed, anabledd, rhyw, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, neu feichiogrwydd a mamolaeth.

1.15 Cyfeiriwyd y mater canlynol at CACAC ar gyfer argymhelliad erbyn 21 Mai 2025:

- Pa addasiadau y dylid eu gwneud i'r ystodau cyflog a lwfans ar gyfer athrawon dosbarth, athrawon heb gymhwyso ac arweinwyr ysgolion, i sicrhau bod y proffesiwn addysgu yng Nghymru yn cael ei hyrwyddo a'i wobrwyo er mwyn annog recriwtio a chadw ymarferwyr o ansawdd uchel?

1.16 Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet fater arall at CACAC ar gyfer argymhelliad, ar ôl i adroddiad 21 Mai 2025 gael ei gyflwyno:

- Pa addasiadau y dylid eu gwneud i Amodau Gwasanaeth Arweinwyr, yn enwedig ystyried a ddylai oriau gwaith gwarantedig (neu gyfyngiadau arnynt) yn ogystal â hawl warchodedig i wyliau a phenwythnosau ar gyfer arweinwyr gael eu cynnwys yn DCAAY(C)?

1.17 Awgrymodd Ysgrifennydd y Cabinet y gellid ychwanegu elfennau at y cylch gwaith ar sail dreiglol, wrth symud tuag at gynllun gwaith treigl aml-flwyddyn.

1.18 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y mater cyntaf ar gyfer argymhelliad ym mharagraff 1.16. Ystyrir yr ail fater ar gyfer argymhelliad ym mharagraff 1.17 ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno.

## Ymagwedd CACAC at adroddiad 2025

1.19 Ar ôl derbyn y llythyr cylch gwaith ar 27 Ionawr 2025, anfonodd CACAC y llythyr at yr holl ymgyngoreion. Wedi hynny, darparodd CACAC ganllawiau i sefydliadau a oedd yn gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig ar y mater ar gyfer argymhelliad a therfynau amser ar gyfer tystiolaeth ysgrifenedig, tystiolaeth ategol, a thystiolaeth lafar. Datganodd y canllawiau fod angen tystiolaeth ynglŷn â'r mater cyntaf ar gyfer argymhelliad yn unig.

1.20 Gwahoddodd CACAC gyflwyniadau ysgrifenedig gan y canlynol:

- Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru (ASCL Cymru)
- Awdurdodau Esgobaethol
- Community Cymru
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon yng Nghymru (NAHT Cymru)
- Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri/Undeb yr Athrawesau yng Nghymru (NASUWT Cymru)

- Undeb Cenedlaethol Addysg yng Nghymru (NEU Cymru)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Llywodraeth Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

1.21 Cafodd CACAC dystiolaeth ysgrifenedig gan:

- ASCL Cymru
- Community Cymru
- NAHT Cymru
- NASUWT Cymru
- NEU Cymru
- UCAC
- Llywodraeth Cymru
- CLILC

1.22 Cyflwynodd pedwar sefydliad dystiolaeth ategol i CACAC. Cymerodd yr holl sefydliadau ran mewn sesiynau sylwadau llafar, heblaw am yr Awdurdodau Esgobaethol.

1.23 Hoffai CACAC ddiolch i'r ymgyngoreion am eu hamser a'u cydweithrediad yn ystod proses eleni ac mae'n cydnabod yr anawsterau a wynebwyd o ganlyniad i'r amserlen dynn.

1.24 Hoffai CACAC ddiolch hefyd i'r unigolion a'r sefydliadau hynny a roddodd o'u hamser i gyfrannu at ein datblygiad proffesiynol yn ystod y cyfnod. Mae'r rhai hynny a gyfrannodd wedi'u cynnwys yn Atodiad B.

1.25 Yn rhan o'i chweched adroddiad, archwiliodd CACAC lawer o ffynonellau eraill o dystiolaeth a oedd yn berthnasol i'r gweithlu addysgu yng Nghymru, a chyfeirir at y rhain yn yr adroddiad hwn.

1.26 Mae CACAC wedi defnyddio data o ffynonellau niferus i lywio ei ganfyddiadau ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae hyn yn cynnwys data gan Lywodraeth Cymru (y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion (CBGY)), Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA), y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Casglwyd a choladwyd y data gan CGA.

1.27 Hoffai CACAC dynnu sylw at gymorth yr ysgrifenyddiaeth annibynnol, a ddarperir gan CGA. Mae'r ysgrifenyddiaeth wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y broses wedi cael ei chynnal yn ddidrafferth ac mae'r aelodau'n diolch iddynt am eu gwaith. Mae CACAC hefyd yn ddiolchgar i Alma Economics am eu cyfraniad sylweddol at waith CACAC wrth lunio'r adroddiad hwn, Nerys Hurford o Nerys Hurford Ltd, a Trosol am ddarparu gwasanaethau cyfieithu i'r Gymraeg.

## Proses eleni a gwersi ar gyfer y dyfodol

1.28 Mae'n anffodus y bu oedi unwaith eto cyn derbyn y llythyr cylch gwaith, a ddisgwyliwyd ym mis Tachwedd 2024, ond na chyhoeddwyd tan ddiwedd mis Ionawr 2025. Mae'r oedi hwn wedi cyfyngu ar y cyfnod ymgynghori, gan roi pwysau gormodol ar ymgyngoreion i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i ymateb i'r llythyr cylch gwaith ac ar CACAC i ystyried y dystiolaeth a datblygu ei adroddiad i Ysgrifennydd y Cabinet.

1.29 Er gwaethaf yr heriau hyn, mae CACAC wedi cynhyrchu adroddiad ar sail tystiolaeth sy'n cyflwyno casgliadau ystyriol a chadarn. Roedd hyn yn bosibl oherwydd: i) symudodd ymgyngoreion yn gyflym i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar, ii) darparwyd cymorth ysgrifenyddiaeth ychwanegol eleni i gasglu a dadansoddi tystiolaeth, a llunio'r adroddiad, a iii) gweithiodd CACAC yn hyblyg i sicrhau bod yr adroddiad yn barod yn brydlon.

1.30 Er hynny, bydd risgiau i gynhyrchu adroddiad CACAC yn brydlon yn parhau oni bai yr eir i'r afael â'r heriau hyn yn y dyfodol. Mae CACAC yn amlygu unwaith eto y dylid cynllunio ar gyfer datblygu'r cylch gwaith ymlaen llaw er mwyn sicrhau digon o amser ar gyfer ymgynghori ac ystyried.

1.31 Mae CACAC yn ailadrodd ei alwad a fynegwyd yn adroddiad y llynedd i'r llythyr cylch gwaith gael ei dderbyn o leiaf chwe mis cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r adroddiad. Ochr yn ochr â hyn, dylai cyfarfodydd y Fforwm Partneriaeth Cyflog ac Amodau Athrawon (PPF) gael eu trefnu ymlaen llaw er mwyn sicrhau y gellir cyhoeddi'r llythyr cylch gwaith yn brydlon.

1.32 Mae cymorth ychwanegol Alma Economics wedi bod yn allweddol i lunio'r adroddiad hwn, gan sicrhau bod yr adroddiad yn cael ei ddatblygu'n ddidrafferth ac yn unol â graddfeydd amser cytunedig. Mae cymorth ysgrifenyddiaeth o'r fath, fel y darperir i'r STRB yn Lloegr, yn hanfodol ar gyfer y dyfodol.

## Strwythur yr adroddiad hwn

1.33 Mae'r adroddiad hwn yn darparu argymhellion CACAC yn gysylltiedig â'r materion a gyfeiriwyd ato gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, a sail y dystiolaeth a'r rhesymeg dros yr argymhellion. Mae ei strwythur fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn cyflwyno gwybodaeth am y cyd-destun economaidd.
- Mae Pennod 3 yn cyflwyno gwybodaeth am y cyd-destun addysgol.
- Mae Pennod 4 yn amlinellu gwybodaeth yn ymwneud â materion sy'n berthnasol i gyflogau a lwfansau.
- Mae Pennod 5 yn crynhoi'r cyflwyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru ac ymgyngoreion eraill.

- Mae Pennod 6 yn amlinellu trafodaethau CACAC ynglŷn â materion yn y cylch gwaith, a’i gasgliadau a’i argymhellion.

# Pennod 2 – Y Cyd-destun Economaidd

## Y Cyd-destun Economaidd/Cyllid y Sector Cyhoeddus

2.1 Yn ei Adroddiad Polisi Ariannol ym mis Chwefror 2025, datganodd Banc Lloegr (BoE) fod chwyddiant wedi gostwng o'i frig o oddeutu 11% yn 2022. Mae pwysau chwyddiannol domestig yn lleddfu, ond braidd yn uchel o hyd, ac mae rhai dangosyddion wedi lleihau'n arafach na'r disgwyl. Roedd chwyddiant CPI deuddeg mis yn 2.5% ym mis Rhagfyr, i fyny o 1.7% ym mis Medi. Mae BoE yn disgwyl i chwyddiant CPI godi dros dro eleni, i 3.7% yn nhrydydd chwarter 2025, oherwydd prisiau ynni uwch. Disgwylir i chwyddiant ostwng yn ôl i'r targed o oddeutu 2% wedi hynny. "Er y disgwylir i chwyddiant CPI ostwng yn ôl i'r targed o oddeutu 2% wedi hynny, bydd y Pwyllgor yn craffu ar unrhyw arwyddion canlyniadol o bwysau chwyddiannol mwy parhaus."

2.2 Adroddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ym mis Ionawr 2025 mai cyfradd chwyddiant flynyddol y Deyrnas Unedig, fel y'i mesurir gan gyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), oedd 3.0%, a'r CPI gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr (CPIH) oedd 3.9%. Adroddodd bwletin yr ONS ar gyfer mis Mawrth 2025 fod y CPI wedi codi 2.6% yn ystod y 12 mis hyd at fis Mawrth 2025, i lawr o 2.8% yn ystod y 12 mis hyd at fis Chwefror. Ers mis Ionawr 2021, bu cynnydd cyffredinol yng nghyfraddau'r CPI a'r CPIH, fel y dangosir yn Siart 1. Mae'r ffigurau ym mis Ionawr 2025 fwy na dwywaith cymaint â'r ffigurau cyfatebol ym mis Ionawr 2021.

**Siart 1**
**Cyfraddau CPI a CPIH y Deyrnas Unedig rhwng 2021 a 2025**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)


2.3 Ar 26 Mawrth 2025, cyhoeddodd Canghellor Trysorlys y Deyrnas Unedig ei Datganiad y Gwanwyn. Ymatebodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) drwy ddatgan "rhagwelir y bydd chwyddiant CPI yn codi o 2.5 y cant yn 2024 i 3.2 y cant yn 2025, ond yna gostwng yn gyflym i darged o oddeutu 2.0 y cant o ganol 2026 ymlaen. Disgwylir i chwyddiant CPI misol gyrraedd brig o oddeutu 3.8 y cant ym mis Gorffennaf 2025."

2.4 Mae Trysorlys EF yn cyhoeddi rhagolygon misol ar gyfer economi'r Deyrnas Unedig, sy'n dod o ragolygon annibynnol niferus. Cyhoeddwyd yr amcangyfrifon hyn ym mis Chwefror 2025. Yr amcangyfrifon cyfartalog oedd y byddai economi'r Deyrnas Unedig yn tyfu 0.1% yn 2025, a'r amcangyfrifon cyfartalog ar gyfer cyfradd CPI yn 2025 oedd 2.8%. Ar gyfer 2026, yr amcangyfrifon cyfartalog ar gyfer twf yn economi'r Deyrnas Unedig yw 1.4%. Yr amcangyfrifon cyfartalog ar gyfer chwyddiant CPI rhagfynedig ar gyfer 2026 yw 2.3%.

2.5 Mae'r Arolwg o'r Llafurlu (LFS) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025 yn crynhoi'r prif newidiadau diweddaraf a'r newidiadau blynyddol ar gyfer rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Dangosodd y cyfnod rhwng mis Hydref 2024 a mis Rhagfyr 2024 mai'r gyfradd gyflogaeth ar gyfer Cymru oedd 70.0% (newid negyddol o 1.0% ers y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023) o gymharu â chyfradd gyflogaeth o 74.9% yn y Deyrnas Unedig (newid cadarnhaol o 0.1% ers y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023). Yn ystod yr un cyfnod, y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru oedd 5.4% (2.2% yn uwch na'r cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023), o gymharu â chyfradd ddiweithdra o 4.4% yn y Deyrnas Unedig (0.5% yn uwch na'r cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023).


2.6 Ym mis Mawrth 2025, adroddodd yr ONS mai'r twf enillion rheolaidd cyfartalog blynyddol (ac eithrio taliadau bonws) oedd 5.9% a chyfanswm enillion (gan gynnwys taliadau bonws) oedd 5.8% o fis Tachwedd 2024 i fis Ionawr 2025. Ar gyfer y sector preifat, y gyfradd dwf oedd 6.1%. Ar gyfer y sector cyhoeddus, y gyfradd dwf enillion rheolaidd cyfartalog blynyddol oedd 5.3%. Mae hyn yn dilyn gweithredu'r codiadau diweddar i gyflog sector cyhoeddus. Mae'r data yn Siart 2 yn dangos bod y gyfradd cyflog blynyddol a rheolaidd yn amrywio rhwng blynyddoedd. Fodd bynnag, mae'r duedd gyffredinol wedi bod am i fyny yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

**Siart 2**
**Cyfanswm cyflog a chyflog rheolaidd rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Ionawr 2025 ym Mhrydain Fawr**




Ffynhonnell: [ONS, 2025]

**Siart 3**
**Enillion wythnosol gros canolrifol gweithwyr amser llawn yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig rhwng 2020 a 2024**




Ffynhonnell: ONS, 2025

2.7 Adroddodd yr [Arolwg blynyddol o oriau ac enillion: adroddiad 2024] gan Lywodraeth Cymru mai enillion wythnosol gros canolrifol gweithwyr amser llawn yng Nghymru ym mis Ebrill 2024 oedd £674.50, o gymharu ag enillion wythnosol gros canolrifol o £728.30 yn y Deyrnas Unedig. Roedd yr enillion wythnosol gros canolrifol yng Nghymru yn wythfed uchaf ymhlith y 12 o siroedd y Deyrnas Unedig a rhanbarthau Lloegr.

2.8 Mae Siart 3 yn dangos bod yr enillion wythnosol gros canolrifol yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig. Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Ebrill 2024, cynyddodd enillion wythnosol gros canolrifol bron £140. Mae enillion wythnosol gros yng Nghymru wedi bod yn gyson is yn ystod y pum mlynedd diwethaf, sef £47.86 yn llai na'r Deyrnas Unedig, ar gyfartaledd. Ym mis Ebrill 2022, roedd y bwlch mewn enillion wythnosol gros rhwng y Deyrnas Unedig a Chymru ar ei leiaf, gyda gweithwyr amser llawn yng Nghymru yn ennill tua £41.90 yn llai na gweithwyr yn y Deyrnas Unedig. Roedd y bwlch mwyaf mewn enillion wythnosol rhwng Cymru a'r Deyrnas Unedig ym mis Ebrill 2024, sef gwahaniaeth o £53.80.

Mae'r OBR yn rhagweld y bydd "twf enillion nominal yn arafu o 4.7 y cant yn 2024 i 4.3 y cant yn 2025.Roedd twf enllion nominal yn parhau i fod yn gryf yn ystod ail hanner 2024, ac roedd twf blynyddol yn 5.5 y cant yn y pedwerydd chwarter. Ysgogwyd y cryfder diweddar gan gyfuniad o amseru setliadau cyflog y sector cyhoeddus wedi'u hôl-ddyddio a thwf gwydn yn y sector preifat. Mae'r rhagolwg tymor byr yn gymharol gryf o hyd, ac mae'r rhagolwg ar gyfer chwarter olaf 2025 yn cyd-fynd yn gyffredinol ag arolygon disgwyliadau twf setliad cyflog o oddeutu 3 i 4 y cant. Ar draws 2025, mae twf cyflogau nominal cyfartalog 0.7 pwynt canran yn uwch na rhagolwg mis Hydref. Fodd bynnag, dylai'r llacio diweddar o ran amodau'r farchnad lafur, yr ergyd ddiweddar i naws busnes, maint elw cywasgedig cwmnïau, a'r cynnydd mewn NICs y cyflogwr bwyso ar y rhagolwg ar gyfer twf cyflogau yn y pen draw. O 2026 ymlaen, mae twf enllion nominal yn arafu ymhellach, rhwng 2 a 2.5 y cant ar gyfartaledd."

2.9 Mae'r OBR yn datgan, "yn ein rhagolwg canolog, mae enillion gwirioneddol yn tyfu 1.4 y cant yn 2025 cyn aros yn eu hunfan yn 2026 a 2027. Disgwyliwn y bydd cwmnïau mewn sefyllfa well i drosglwyddo costau uwch o NICs uwch y cyflogwr i weithwyr wrth i'r farchnad lafur barhau i lacio. Yna, bydd twf cyflogau gwirioneddol yn dechrau adfer tuag at dwf cynhyrchedd yn y tymor canolig."

## Gwariant awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion

2.10 Yn 2024-2025, adroddodd Llywodraeth Cymru fod y gwariant a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion yng Nghymru yn £3,591 miliwn, sef 7.4% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Roedd y gwariant a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion fesul disgybl yn £7,926, sef cynnydd o flwyddyn i flwyddyn o £599 (8.2%). Cyllidebwyd y byddai £2,895 miliwn yn cael ei ddirprwyo i ysgolion. Ar gyfartaledd, cyllidebwyd i 80.6% o'r arian hwn gael ei ddirprwyo'n uniongyrchol i ysgolion (1.3% yn llai am y flwyddyn), ond roedd y gyfradd hon yn wahanol ym mhob awdurdod lleol; y gyfradd isaf o gyllid dirprwyedig oedd 73.0% (Ceredigion) a'r gyfradd uchaf oedd 85.4% (Caerdydd).

2.11 Rhwng 2019 a 2024, mae gwariant ysgolion wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, fel y dangosir yn Nhabl 1.

2.12 Y cynnydd cyffredinol mewn gwariant yw £850 miliwn. Yn ystod y cyfnod hwn, mae nifer yr ysgolion wedi lleihau gan 20. At ei gilydd, mae gwariant

cyfartalog ysgolion wedi cynyddu £608,000 o 2019 i 2024 (pennir gwariant ysgolion yn bennaf gan nifer y disgyblion).

## Pennod 2 – Y Cyd-destun Economaidd

**Tabl 1**
**Gwariant ysgolion rhwng 2019 a 2024**

| Gwariant ysgolion | 2019-2020 | 2020-2021 | 2021-2022 | 2022-2023 | 2023-2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm gwariant ysgolion (£ miliwn) | 2,741 | 3,010 | 3,217 | 3,340 | 3,591 |
| Nifer yr ysgolion o'r cyfrifiad ysgolion | 1,480 | 1,473 | 1,470 | 1,463 | 1,460 |
| Gwariant cyfartalog ysgolion (£ miliwn) | 1.852 | 2.044 | 2.188 | 2.283 | 2.460 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru


Mae'r setliad llywodraeth leol terfynol ar gyfer 2025-26 yn datgan y bydd y cyllid refeniw craidd ar gyfer llywodraeth leol yn 2025-26 yn cynyddu 4.5% ar sail gyfatebol o gymharu â 2024-25. Ni fydd unrhyw awdurdod yn derbyn llai na chynnydd o 3.8%, sy'n golygu y bydd pob awdurdod yn gweld cynnydd mwy nag yn 2024-2025. Yn 2025-26, bydd awdurdodau lleol yn derbyn £6.14bn gan Grant Cynnal Refeniw (RSG) Llywodraeth Cymru ac ardrethi annomestig (NDR) i ddarparu gwasanaethau allweddol.

2.13 Yn ogystal, bydd ysgolion yn cael cyllid grant refeniw o ffynonellau Llywodraeth Cymru sydd wedi cael eu hailstrwythuro yn ystod y chwe mis diwethaf.

2.14 Dangosodd canlyniadau pennawd adroddiad Llywodraeth Cymru ar gronfeydd wrth gefn ysgolion mai lefel gyffredinol cronfeydd wrth gefn ysgolion Cymru ym mis Mawrth 2024 oedd £115 miliwn, sy'n cyfateb i £253 fesul disgybl. Mae hyn yn ostyngiad cyffredinol o £94 miliwn (45.2%) a gostyngiad o £203 fesul disgybl (44.5%) ers mis Mawrth 2023. Roedd ysgolion cynradd yn cyfrif am £70 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn, sef 60.9% o'r cyfanswm. Adroddodd 309 o ysgolion (21.2%) yng Nghymru ddiffyg ar gyfer y flwyddyn.

2.15 Mae Siart 4 yn amlygu'r amrywiadau mewn cronfeydd wrth gefn ysgolion rhwng 2019 a 2024. At ei gilydd, bu cynnydd o £84 miliwn o 2019 i 2024. Dylid nodi bod sawl ffactor yn effeithio ar sefyllfa cronfeydd wrth gefn ysgolion, a bod y cyfnod a ddangosir yn cynnwys y pandemig COVID-19.

**Siart 4**
**Cronfeydd wrth gefn ysgolion rhwng 2019 a 2024**





Ffynhonnell: Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

2.16 Mae'r dreth gyngor ar gyfer eiddo ym mand D yn 2025-26 wedi cynyddu £119 neu 7.1% ar gyfartaledd ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd cyfartalog ar gyfer yr heddlu yn £26 neu 7.5%. Mae'r codiadau hyn yn cyfuno i gynhyrchu cynnydd cyfartalog o £145 neu 7.2% ar gyfer eiddo ym mand D. Mae'r dreth gyngor yn cyfrif am 27% o'r gofyniad cyllidebol (faint o wariant mewn awdurdod lleol a ariennir gan y dreth gyngor a chymorth cyffredinol gan lywodraeth ganolog).

## Cyflogau'r sector cyhoeddus

2.17 Cyhoeddodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) yr adroddiad diweddaraf ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan, sef Tueddiadau diweddar mewn cyflogau'r sector cyhoeddus, ym mis Mawrth 2024. Nododd fod twf cyflogau rhai proffesiynau sector cyhoeddus â phroffil uchel (nyrsys, ac yn enwedig athrawon a meddygon ysbytai) wedi bod yn sylweddol waeth na gweithwyr sector cyhoeddus cyffredin, fel y dangosir yn Siart 5.

**Siart 5**
**Newidiadau i enillion cymedrig gwirioneddol fesul gweithiwr ers mis Ebrill 2010 ar gyfer galwedigaethau penodol yn y sector cyhoeddus**




Ffynhonnell: IFS (2024)

2.18 Mae adroddiad yr IFS yn tynnu sylw at y gostyngiadau mawr mewn cyflog gwirioneddol cyfartalog ar gyfer athrawon o 2010 i 2019 (gan ostwng 13%), ond mae'n nodi bod twf cyflogau wedi bod yn gryfach ers hynny (gyda chyflogau 5% yn uwch ym mis Medi 2023 nag ym mis Ebrill 2019). At ei gilydd, mae hyn yn golygu bod cyflogau cyfartalog athrawon ym mis Medi 2023 9% yn is nag yn 2010 o hyd.

2.19 Amlinellodd canllawiau cylch cyflog y gwasanaeth sifil ar gyfer 2024-2025 ddyfarniadau cyflog o hyd at 5%, ar gyfartaledd. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai athrawon, staff y GIG, a gweithwyr sector cyhoeddus mewn llawer o wasanaethau datganoledig yn cael codiad cyflog o rhwng 5% a 6% yn 2024-2025.

2.20 Cytunodd Llywodraeth Cymru hefyd ar godiad cyflog o hyd at 5%, ar gyfartaledd, ar gyfer staff sy'n gweithio mewn ystod o sefydliadau datganoledig ac yng ngwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru.

2.21 Ar gyfer 2024-2025, cynigiodd y Gymdeithas Cyflogwyr Prifysgolion a Cholegau (UCEA) ychwanegiad 5.7% i staff ar bwynt cyflog 5, a fyddai'n lleihau'n raddol i 2.5% i staff ar bwynt cyflog 38 ac uwch.

Ym mholisi cyflog sector cyhoeddus 2024-2025, mae Llywodraeth yr Alban yn datgan bod rhaid i'r metrig cyflogau gydbwyso hyblygrwydd â thegwch a fforddiadwyedd. Mae'r Polisi Cyflog hwn yn amlinellu fframwaith aml-flwyddyn o 2025-26 i 2027-28 ac yn amlinellu metrigau cyflog sy'n uwch na lefelau chwyddiant rhagfynedig. Er y rhagwelir y bydd chwyddiant yn llai na 7% ar gyfartaledd ar hyd y cyfnod tair blynedd, nodweddion allweddol y metrigau cyflog aml-flwyddyn yw cyflog 9% ar gyfer 2025-26, 2026-27, a 2027-28, a hyblygrwydd i gyflogwyr ffurfio cynigion tair blynedd o fewn y cyflog 9%. Mae'r Polisi Cyflog aml-flwyddyn hwn yn gosod disgwyliad clir y bydd cynigion cyflog yn cael eu cytuno ar gyfer tair blynedd, sef 2025-26, 2026-27, a 2027-28. Bydd unrhyw gyflogwr nad yw'n cytuno ar gynnig cyflog tair blynedd yn cael ei gyfyngu i ychwanegiad cyflog 3% ar y mwyaf ar gyfer 2025-26.

# Pennod 3 – Y Cyd-destun Addysgol

## Y Cyd-destun Addysgol – Cefndir Ystadegol

### Nifer yr ysgolion

3.1 Yn 2023-2024, dangosodd adroddiad Llywodraeth Cymru ar Ganlyniadau'r cyfrifiad ysgolion fod 1,460 o ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol, sef tair yn llai nag yn 2022-2023 a deg yn llai nag yn 2021- 2022.

3.2 Yn hanesyddol, mae lleoliadau ysgol naill ai'n ddarpariaeth cynradd neu uwchradd. Fodd bynnag, yn ystod y deng mlynedd diwethaf, bu nifer gynyddol o ysgolion canol (pob oed) sy'n darparu addysg i ddysgwyr 3 i 19 oed. Er bod nifer yr ysgolion uwchradd wedi gostwng 37 ers 2013-2014, sefydlwyd 25 o ysgolion canol newydd yn ystod yr un cyfnod.


3.3 Yn ystod yr un cyfnod (2013-2014 i 2023-2024), adroddodd y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) fod nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi gostwng o 424 i 380, bod nifer yr ysgolion cynradd dwy ffrwd wedi gostwng o 39 i 22, a bod nifer yr ysgolion uwchradd dwyieithog wedi gostwng o 28 i 22.

3.4 Yn 2024, roedd 56 o ffederasiynau (mwy nag un ysgol o dan un system reoli) yng Nghymru. Mae hyn 16 yn uwch nag yn 2015.

## Y boblogaeth ddisgyblion: Cyd-destun ac amcanestyniadau

3.5 Yn 2023-2024, cyfanswm nifer y disgyblion a oedd yn mynychu darpariaeth prif ffrwd cynradd ac uwchradd oedd 430,409, a'r nifer a oedd yn mynd i ysgolion arbennig oedd 6,025. Mae'r nifer mewn darpariaeth gynradd wedi gostwng 17,208 yn ystod y chwe blynedd diwethaf (2018-2019 i 2023-2024), sef gostyngiad 6.3%, tra bod y nifer mewn darpariaeth uwchradd wedi cynyddu 2,541 (+1.5%). Mae nifer y disgyblion mewn ysgolion arbennig wedi cynyddu 1,043, sef cynnydd 21%. Mae Siart 6 yn dangos y gwahaniaeth mewn niferoedd disgyblion yn ystod y chwe blynedd diwethaf.

**Siart 6**
**Nifer y disgyblion yng Nghymru – cymharu 2018-2019 a 2023-2024**




Ffynhonnell: [CYBLD, Llywodraeth Cymru]

3.6 Mae newidiadau i'r boblogaeth ddisgyblion wedi bod yn anghyson ledled Cymru. Yn ystod y deng mlynedd diwethaf, bu'r cynnydd mwyaf mewn niferoedd disgyblion yng Nghasnewydd (+12.3%) a Chaerdydd (+9.0%). Yr awdurdodau sy'n wynebu'r gostyngiad mwyaf mewn niferoedd disgyblion yw Powys (-12.1%) a Thorfaen (-7.7%).

3.7 Yn 2023-2024, addysgwyd Cymraeg fel iaith gyntaf i 99,185 o ddisgyblion, sy'n cynrychioli 21.7% o'r boblogaeth ddisgyblion, sef 1.1% yn uwch nag yn 2013-2014.

3.8 Yn ôl data Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion (CBGY), roedd disgyblion ethnig leiafrifol yn cynrychioli 10.4% o'r boblogaeth ddisgyblion yn 2024. Roedd 84.8% o ddisgyblion pum mlwydd oed a hŷn yn uniaethu fel Gwyn Prydeinig ym mis Ionawr 2024. Mae'r ffigur hwn wedi bod yn gostwng ychydig ar gyfer pob un o'r pum mlynedd diwethaf, ac mae disgyblion o'r rhan fwyaf o gefndiroedd ethnig eraill wedi cynyddu yn ystod yr un cyfnod.


3.9 Daeth Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (y Cod ADY) a'i reoliadau i rym ar 1 Medi 2021 i sicrhau bod plant a phobl ifanc 0 i 25 oed yn gallu cael cymorth ychwanegol i fodloni eu hanghenion mewn ffordd sy'n cael ei chynllunio a'i hamddiffyn yn briodol, gyda dysgwyr wrth wraidd y broses. Mae'r system ADY yn parhau i gael ei gweithredu, wrth i blant symud o'r system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) i'r system ADY tan fis Awst 2025. Roedd 52,152 o ddisgyblion ag ADY neu AAA mewn ysgolion a gynhelir (11.2% o'r holl ddisgyblion) ym mis Ionawr 2024, i lawr o 63,089 (13.4%) ym mis Ionawr 2023, Roedd gan 21,319 o ddisgyblion Gynllun Datblygu Unigol (CDU) o dan y system ADY newydd mewn ysgolion a gynhelir ym mis Ionawr 2024 (40.9% o ddisgyblion ag ADY neu AAA), i fyny o 10,499 (16.6%) ym mis Ionawr 2023.

3.10 Mae canran y boblogaeth ddisgyblion y mae ganddynt yr hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi cynyddu yn ystod y pum mlynedd diwethaf, a'r ffigur yn 2024 yw 19.3%, o gymharu â 18.3% yn 2019.

3.11 Mae data amcanestyniadau disgyblion diweddaraf Llywodraeth Cymru yn dangos y disgwylir i nifer y disgyblion mewn ysgolion cynradd a gynhelir yng Nghymru barhau i ostwng i'r graddau y bydd 20,800 (8.2%) yn llai erbyn 2032, ond bydd 4,600 yn fwy erbyn 2040.

3.12 Mae Siart 7 wedi'i seilio ar boblogaeth ysgolion Cymru ym mis Ionawr 2024, a'r tueddiadau a ddangosir gan amcanestyniadau canol blwyddyn 2024 ynglŷn â phoblogaeth gartref Cymru, a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

**Siart 7**
**Nifer amcangyfrifedig y disgyblion cynradd ac uwchradd yng Nghymru (miloedd – niferoedd gwirioneddol 2024 a ddilynir gan amcanestyniadau canol blwyddyn yn seiliedig ar amcangyfrifon 2024)**




Ffynhonnell: CYBLD, Llywodraeth Cymru

## Ystadegau athrawon ac arweinwyr

3.13 Mae CGA a Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data am y gweithlu ysgolion bob blwyddyn. Defnyddiwyd gwahanol ffynonellau data drwy gydol yr adroddiad hwn, yn seiliedig ar yr hyn sy'n fwyaf priodol o ran y data sydd ar gael/y gallu i'w gymharu a'r meysydd sydd wedi'u cynnwys ym mhob casgliad data. Rydym hefyd wedi mabwysiadu'r derminoleg a ddefnyddiwyd gan y ffynhonnell ddata, sy'n gwahaniaethu weithiau rhwng athrawon ysgol ac athrawon dosbarth.

3.14 Mae'r data a gyhoeddwyd gan CGA yn dod o'r Gofrestr Ymarferwyr Addysg ('y Gofrestr') ac mae'n cynnwys athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu cofrestredig sydd naill ai'n gweithio yng Nghymru neu'n bwriadu gweithio yng

Nghymru. Mae'r ystadegau'n cynnwys data am athrawon cyflenwi, gweithwyr peripatetig/ar eu liwt eu hunain ac eraill sy'n darparu addysg neu hyfforddiant mewn ysgolion neu leoliadau addysgol eraill.


3.15 Dangosodd Ystadegau'r Gweithlu Addysg CGA ar gyfer 2024 fod 35,865 o athrawon ysgol wedi'u cofrestru i weithio. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys 1,187 o athrawon a oedd wedi'u cofrestru ac yn gweithio mewn cyfnodau eraill, fel meithrinfeydd, ysgolion arbennig, neu unedau cyfeirio disgyblion. Roedd 4,581 wedi'u cofrestru a naill ai'n gweithio mewn rôl beripatetig, mewn rôl arall ym maes addysg, neu heb gyflogaeth gofnodedig. O'r rheiny:

- roedd 13,141 yn gweithio mewn ysgolion cynradd
- roedd 1,716 yn gweithio mewn ysgolion canol
- roedd 11,189 yn gweithio mewn ysgolion uwchradd
- roedd 953 yn gweithio mewn ysgolion arbennig
- roedd 4,051 yn athrawon cyflenwi

3.16 Mae casgliadau data Llywodraeth Cymru yn cynnwys CBGY Llywodraeth Cymru a'r CYBLD. Mae'r CBGY wedi'i seilio ar athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu a gyflogir mewn ysgolion a gynhelir ar adeg y cyfrifiad blynyddol. Mae data cyfrif pennau CBGY (heb gynnwys athrawon cyflenwi) yn dangos gostyngiad mewn athrawon cymwysedig (o 25,785 yn 2022-2023 i 25,060 yn 2023-2024).

3.17 Mae data CYBLD gan Lywodraeth Cymru yn cymharu niferoedd athrawon ysgol yn hydredol, y gellir ei weld yn **Error! Not a valid bookmark self-reference.**. Mae'r data'n dangos nad yw nifer yr athrawon meithrin, cynradd, ac uwchradd wedi newid llawer ers 2019-2020. Mewn cyferbyniad, o 2019-2020, mae nifer yr athrawon canol wedi tueddu i gynyddu tan 2023-2024. Roedd 560 yn fwy o athrawon yn y cyfnod hwn yn 2023-2024 nag yn 2019-2020, sy'n adlewyrchu'r cynnydd yn nifer yr ysgolion canol y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 3.2.


**Siart 8**
**Nifer yr athrawon ysgol yng Nghymru yn ôl cyfnod, 2019/20 i 2023/24**




Ffynhonnell: CYBLD, Llywodraeth Cymru

3.18 Yn ôl Cofrestr CGA yn 2024, mae 75.6% o athrawon ysgol yn fenywaidd. Fodd bynnag, mae cyfran is o fenywod mewn rolau arwain - mae 61.9% o benaethiaid, 70.0% o ddirprwy benaethiaid, a 65.8% o benaethiaid cynorthwyol yn fenywaidd. Mae 43.9% o'r holl athrawon ysgol cofrestredig yn iau na 40 oed, ac mae 29.2% rhwng 40 a 50 oed. Mae Siart 9 yn cyflwyno proffil oedran athrawon ysgol yn ôl cyfnod ac yn dangos tuedd eithaf cyson o flwyddyn i flwyddyn o ran dosbarthiad oed ar draws cyfnodau, yn enwedig yn y grwpiau canol oed (30-39), sy'n dominyddu'r gweithlu.

**Siart 9**
**Proffil oedran athrawon ysgol yng Nghymru (%) yn ôl cyfnod, 2024**




Ffynhonnell: CGA

3.19 O'r athrawon ysgol hynny ar Gofrestr CGA, datganodd 1.9% eu bod yn Ddu, Asiaidd, ac Ethnig Leiafrifol, a datganodd 92.5% eu bod yn Wyn. Dewisodd 1.3% arall beidio â datgelu eu hethnigrwydd, ac mae'r 4.4% sy'n weddill yn anhysbys. Yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a gynhaliwyd gan yr ONS, yng Nghymru, yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2022, roedd 4.1% o'r boblogaeth yn perthyn i leiafrifoedd ethnig ac roedd 95.9% yn Wyn.

3.20 Yn 2024, adroddodd Ystadegau Blynyddol y Gweithlu Addysg fod 33% o athrawon ysgol wedi dweud eu bod yn siarad Cymraeg, a bod 26.5% wedi dweud eu bod yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

3.21 Mae gweithwyr cymorth dysgu ysgol yn cyflawni rôl hanfodol wrth gefnogi addysgu, hefyd. Dangosodd adroddiad Ystadegau Blynyddol y Gweithlu Addysg fod nifer y gweithwyr cymorth dysgu ysgol cofrestredig wedi cynyddu 25.8% ers 2019, i 46,962 yn 2024.

3.22 Yn 2024, dangosodd Crynhoad Ystadegau Blynyddol CGA (sydd ar gael gan CGA ar gais) fod cyfanswm nifer o 3,379 o arweinwyr ysgolion wedi'u cofrestru gyda CGA, gan gynnwys penaethiaid dros dro, dirprwy benaethiaid, a phenaethiaid cynorthwyol. Yn 2014, roedd 1,597 o benaethiaid (gan gynnwys penaethiaid mwy nag un ysgol) o gymharu â 1,376 yn 2024 ym mhob sector ysgol.

3.23 O fewn y cyfanswm hwn, mae cyfran y penaethiaid sydd wedi'u cofrestru gyda CGA sy'n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu ychydig yn ystod y pum mlynedd diwethaf o 40.4% yn 2019 i 41.0% yn 2024. Mewn cyferbyniad, mae nifer y rhai sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg wedi gostwng ychydig o 34.8% yn 2019 i 34.6% yn 2024 (yn seiliedig ar ddata heb ei gyhoeddi gan CGA).

3.24 Adroddodd CGA fod cyfanswm nifer y dirprwy benaethiaid yn gymharol sefydlog yn ystod yr un cyfnod. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2020 a 2024, mae penaethiaid cynorthwyol wedi cynyddu 13.7% (yn seiliedig ar ddata heb ei gyhoeddi gan CGA).

3.25 Mae'r data CBGY diweddaraf (2023-2024) yn dangos bod 65 o benaethiaid gweithredol yng Nghymru.

3.26 Fel y nodwyd yn adolygiad strategol CACAC, mae nifer y disgyblion fesul ystafell ddosbarth (cynradd ac uwchradd) wedi aros yn sefydlog yn ystod y deng mlynedd diwethaf, ac yn uwch nag mewn gwledydd eraill.

## Newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn addysgu

3.27 Y llwybrau sydd ar gael i ddod yn athro yng Nghymru, sy'n rhoi dyfarniad Statws Athro Cymwysedig (SAC), yw:

- Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) israddedig amser llawn trwy gymhwyster BA (Anrh) gyda SAC
- Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) amser llawn
- TAR ran-amser trwy Bartneriaeth y Brifysgol Agored (OUP)
- TAR gyflogedig trwy'r OUP, gyda chyflogaeth mewn ysgol mewn rôl addysgu neu ddysgu heb gymhwyso

3.28 Yn ogystal â’r uchod, gall athrawon cymwysedig yn yr Alban a Gogledd Iwerddon wneud cais i CGA am gydnabyddiaeth fel athro ysgol yng Nghymru. Gall athrawon a gymhwysodd y tu allan i’r Deyrnas Unedig wneud cais am gydnabyddiaeth hefyd trwy’r llwybr hyfforddiant a gafwyd dramor. Mae SAC a gafwyd yn Lloegr yn cael ei gydnabod yn awtomatig yng Nghymru os cafodd ei gyflawni trwy AGA a’i asesu gan sefydliad achrededig neu lwybr seiliedig ar gyflogaeth.

## AGA

3.29 Defnyddir Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon (TPSM) Llywodraeth Cymru i ragfynegi niferoedd amcangyfrifedig yr athrawon sy’n ofynnol mewn ysgolion yng Nghymru. Yn rhan o’i swyddogaethau achredu AGA, mae CGA yn dosbarthu dyraniad y lleoedd sydd ar gael ar draws darparwyr AGA, yn ôl cyfnod, pwnc a lefel astudio.

3.30 Yn ôl y Canllawiau i Bartneriaethau AGA ynghylch Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol, a dadansoddiad gan CGA, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y dylai 30% o'r myfyrwyr sy'n cael eu recriwtio i'r holl raglenni AGA fod yn athrawon dan hyfforddiant sy'n hyfforddi i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a dylai 5% o'r myfyrwyr sy'n cael eu recriwtio fod o gefndir Du, Asiaidd, ac Ethnig Leiafrifol.

3.31 Er mwyn cynyddu nifer yr athrawon o leiafrifoedd ethnig fel bod gan ddysgwyr yng Nghymru weithlu addysgu mwy amrywiol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol, sydd ar gael i fyfyrwyr ethnig leiafrifol sy'n astudio rhaglen AGA ôl-raddedig achrededig sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC).

3.32 Mae ymgyrchoedd fel Addysgu Cymru wedi ceisio annog pobl i ymuno â maes addysgu. Lansiwyd Addysgu Cymru ym mis Ionawr 2019. Blaenoriaeth y cynllun oedd denu mwy o unigolion i ddod yn athrawon uwchradd, gan dargedu siaradwyr Cymraeg, cynorthwywyr addysgu, israddedigion a graddedigion STEM, pobl sy'n newid gyrfa, unigolion o leiafrifoedd ethnig, rhieni/gofalwyr sy'n aros gartref, a phobl sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain yn arbennig.

3.33 Dyraniad derbyn y sector cynradd ar gyfer 2025-2026 yw 593, a rennir yn 236 o leoedd israddedig a 357 o leoedd ôl-raddedig.

3.34 Ar gyfer y sector uwchradd, mae'r dyraniad wedi cynyddu o 1,003 yn 2020-2021 i ddyraniad derbyn o 1,037 yn 2025-2026.

## Recriwtio i AGA

3.35 Darperir y data Ystadegau Cynnar Myfyrwyr Addysg Uwch (HESES) ar gyfer y rheiny sy'n ymuno â rhaglenni AGA israddedig ac ôl-raddedig yn Nhabl 2. Mae recriwtio cyffredinol i gyrsiau AGA yng Nghymru wedi cynyddu 30.0% yn ystod y blynyddoedd 2018-19 i 2021-22. Gellir priodoli'r cynnydd sylweddol a welwyd yn 2020-2021 i effeithiau pandemig COVID-19 ar gyflogaeth i raddau helaeth, felly gostyngodd recriwtio'n sylweddol rhwng 2020 a 2021. Sylwer bod y data HESES diweddaraf sydd ar gael ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22. Ailstrwythurodd yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ddata ar gyfer 2022/23 yn sylweddol, a arweiniodd at oedi cyn i ddadansoddwyr Llywodraeth Cymru dderbyn y data, yn ogystal â gwaith ychwanegol sylweddol i ddiweddaru'r dadansoddiad. Fel y cyfryw, bu oedi cyn cyhoeddi'r data newydd (blwyddyn academaidd 22/23). Felly, nid oes unrhyw ddata ar gyfer blwyddyn academaidd 22/23 ymlaen ar gael eto.

**Tabl 2**
**Blynyddoedd cynnar ar gyrsiau AGA yng Nghymru, yn ôl y math o radd a lefel yr ysgol**

| Y math o radd | 2018-2019 | 2019-2020 | 2020-2021 | 2021-2022 |
|---|---|---|---|---|
| Ôl-raddedig Cynradd | 348 | 379 | 525 | 462 |
| Israddedig Cynradd | 208 | 193 | 276 | 289 |
| Ôl-raddedig Uwchradd | 435 | 433 | 685 | 574 |
| Israddedig Uwchradd | 28 | 8 | - | - |
| **Cyfanswm ar gyfer pob gradd** | **1,019** | **1,013** | **1,486** | **1,325** |

*Sylwer: Daeth rhaglenni israddedig uwchradd i ben ar ôl 2019-2020.
Ffynhonnell: HESES


## Recriwtio i AGA yn erbyn y dyraniadau

3.36 Mae data a gafwyd gan CGA gan y partneriaethau AGA yn dangos y rhagorwyd ar ddyraniadau cynradd 9.6% ar gyfer 2024-2025.

3.37 Bob blwyddyn ers 2018-2019, mae newydd-ddyfodiaid AGA uwchradd wedi bod yn brin o'r dyraniad. Mae data ar gyfer 2024-2025 yn dangos diffyg o 63.5% yn y cyfnod uwchradd, gyda 385 o fyfyrwyr AGA wedi'u recriwtio yn erbyn dyraniad o 1,056. Sylwer y cafwyd data 2023-2024 gan bartneriaethau AGA ar ran Llywodraeth Cymru, ac felly nid yw wedi'i ddilysu.

3.38 Mae Siart 10 yn dangos tuedd pum mlynedd o ganrannau dyraniadau AGA ôl-raddedig a gyrhaeddwyd yn ôl cyfnod. Mae hyn yn dangos y rhagorwyd ar y targedau cynradd yn ystod y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r diffyg mewn recriwtio ar gyfer y cyfnod uwchradd wedi bod yn cynyddu yn ystod yr un cyfnod.


**Siart 10**
**Canran y dyraniadau AGA ôl-raddedig a fodlonwyd, yn ôl cyfnod, Cymru 2020/21 – 2024/25**




Ffynhonnell: CGA

3.39 Mae Siart 11 yn dangos canran y dyraniad AGA ôl-raddedig a fodlonwyd yn ôl pwnc blaenoriaeth (AGA ysgolion uwchradd). Mae'r data'n dangos tuedd ostyngol o ran cyflawni'r dyraniadau ar gyfer mathemateg, cemeg, ac ieithoedd tramor modern (ITM) ers 2020-2021. Mewn cyferbyniad, bu tueddiadau cynyddol, fel ffiseg o 2023/24 a thechnoleg gwybodaeth (TG) yn 2024/25. Fodd bynnag, mae'r ddau'n sylweddol is nag yn 2020/21. Mae canlyniadau o ran y Gymraeg wedi amrywio yn ystod y pum mlynedd. Mewn pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, a mathemateg (STEM), y diffyg yn erbyn dyraniadau recriwtio oedd 75.1% yn 2024. Sylwer y cafwyd data 2023-2024 gan bartneriaethau AGA ar ran Llywodraeth Cymru, ac felly nid yw wedi'i ddilysu.

**Siart 11**
**Canran y dyraniadau AGA ôl-raddedig a fodlonwyd, yn ôl pynciau blaenoriaeth, Cymru 2020/21 – 2024/25**




Ffynhonnell: CGA

3.40 Ar gyfer 2023-2024, dangosodd Canlyniadau myfyrwyr addysg gychwynnol athrawon (AGA) fod 80.5% o fyfyrwyr AGA yng Nghymru wedi cyflawni SAC erbyn diwedd y flwyddyn academaidd. Roedd gweddill y garfan naill ai wedi gohirio, tynnu'n ôl, neu fethu cyflawni'r safon sy'n ofynnol. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2020-2021 yn unig, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Gynllun Grant Addysg Gychwynnol i Athrawon mewn ymateb i COVID-19: cefnogi Profiad Ysgol BA20/21 er mwyn ennill SAC. Yn ogystal, o'r rhai hynny y dyfarnwyd SAC iddynt yng Nghymru trwy AGA, cofrestrodd 84.5% gyda CGA fel athrawon ysgol, i weithio neu fod yn gymwys i weithio yng Nghymru yn y flwyddyn ganlynol (gweler Tabl 3).

**Tabl 3**
**Myfyrwyr y dyfarnwyd SAC iddynt trwy AGA (2019-2020 i 2023-2024)**

| Myfyrwyr y dyfarnwyd SAC iddynt | 2019-2020 | 2020-2021 | 2021-2022 | 2022-2023 | 2023-2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y myfyrwyr ar ddechrau'r cwrs | 1,168 | 1,534 | 1,368 | 1,280 | 1,249 |
| Nifer y myfyrwyr y dyfarnwyd SAC iddynt | 975 | 1,231 | 1,131 | 1,054 | 1,005 |
| Wedi cofrestru gyda CGA ar ôl cael y dyfarniad | 790 | 1,053 | 958 | 891 | n/a |
| **% wedi cofrestru gyda CGA ar ôl cael y dyfarniad** | **81.0** | **85.5** | **84.7** | **84.5** | **n/a** |

Ffynhonnell: CGA

3.41 Fel y dangosir yn Nhabl 4, gostyngodd nifer yr athrawon newydd gymhwyso (ANG) yn 2023-2024 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae nifer yr ANG yn 2023-2024 yn parhau i fod yn uwch na'r rhai a hyfforddodd ac a gofrestrodd yn 2019-2020.

**Tabl 4**

**Nifer yr ANG a hyfforddwyd ac a gofrestrwyd gyda CGA 2018-2019 i 2022-2023**


| ANG hyfforddedig | 2019-2020 | 2020-2021 | 2021-2022 | 2022-2023 | 2023-2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr ANG | 1,160 | 1,186 | 1,475 | 1,366 | 1,258 |
| **Hyfforddwyd yng Nghymru** | **873** | **883** | **1,121** | **1,093** | **1,055** |
| AGA | 776 | 831 | 1,121 | 1,093 | 1,055 |
| Llwybrau ar sail cyflogaeth | 97 | 52 | 0 | 0 | 0 |
| **Hyfforddwyd yn Lloegr** | **287** | **303** | **354** | **273** | **203** |

Ffynhonnell: CGA

## Y Gymraeg

3.42 Mae Siart 12 yn dangos, yn flynyddol, bod tua thraean o'r holl athrawon yn gallu siarad Cymraeg. Yn 2024, cynyddodd cyfran yr athrawon ysgol sy'n siarad Cymraeg yn y cyfnod cynradd (a meithrin) (37.2%) ac yn y cyfnod canol ac uwchradd (34%). O'r traean cyffredinol o athrawon ysgol sy'n siarad Cymraeg, mae 26.5% yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Siart 12**
**Datganiad athrawon ysgol ynglŷn â'u gallu i siarad Cymraeg, 2020-2024**




Ffynhonnell: CGA

3.43 Mae canran yr ANG (a hyfforddwyd yng Nghymru) sy'n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu o 23.4% yn 2016 i 31.8% yn 2024. O'r ANG a hyfforddwyd yn Lloegr, datganodd 14.3% eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu eithaf rhugl, sef gostyngiad o 1.8% yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

## Swyddi gwag

### Swyddi gwag athrawon

3.44 Yn 2022, dangosodd y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion fod 2,273 o swyddi gwag yn gyffredinol, a ostyngodd i 2,204 (991 yn y sector cynradd a 1,033 yn y sector uwchradd) yn 2023.

3.45 Mae Tabl 5 yn dangos data ar gyfer ceisiadau am swyddi gwag athrawon yn ystod pum mlynedd o 2019, wedi'u rhannu yn ôl addysg gynradd ac uwchradd. Yn y sector cynradd, roedd 12.9 o geisiadau fesul swydd yn 2023, o gymharu â 15.9 yn 2019. Yn y sector uwchradd, roedd 4.6 o geisiadau fesul swydd yn 2023, o gymharu â 6.2 yn 2019. Ar ôl cynnydd yn 2020, mae'r cyfraddau ymgeisio ar gyfer y ddau gategori wedi gostwng i gyfradd is na chyn y pandemig.

**Tabl 5**
**Nifer y swyddi addysgu ac arwain a hysbysebwyd a cheisiadau fesul swydd mewn ysgolion a gynhelir, yn ôl cyfnod**


| Swyddi a cheisiadau yn ôl cyfnod | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd: nifer y swyddi a hysbysebwyd | 743 | 458 | 830 | 1,044 | 991 |
| Cynradd: ceisiadau fesul swydd | 15.9 | 19.0 | 15.5 | 13.3 | 12.9 |
| Uwchradd: nifer y swyddi a hysbysebwyd | 828 | 754 | 971 | 1,229 | 1,033 |
| Uwchradd: ceisiadau fesul swydd | 6.2 | 7.2 | 6.8 | 5.1 | 4.6 |
| Nifer yr holl swyddi[1] a hysbysebwyd | 1,571 | 1,212 | 1,801 | 2,273 | 2,024 |
| Ceisiadau am yr holl swyddi[1] | 10.8 | 11.7 | 10.8 | 8.9 | 8.7 |

[1] yn cynnwys cynradd, meithrin, canol, uwchradd, ac arbennig.
Ffynhonnell: CYBLD, Llywodraeth Cymru

3.46 Yn y sectorau cynradd ac uwchradd, mae penodiadau'n tueddu i fod islaw nifer y swyddi a hysbysebir. Yn 2023, llenwyd 94.9% o'r swyddi gwag a hysbysebwyd mewn ysgolion cynradd, o gymharu ag 86.3% mewn ysgolion uwchradd.

3.47 Mae Siart 13 yn cyflwyno'r ceisiadau fesul swydd wag ar gyfer croestoriad o brif feysydd pwnc mewn addysg uwchradd o 2020-2021 i 2022-2023. Mae hyn yn dangos tuedd ostyngol ym mhob pwnc, ond yn enwedig mewn pynciau craidd fel Cymraeg, Saesneg, ac ITM. Er ei fod yn is nag yn 2020/21 o hyd, dylunio a thechnoleg yw'r unig bwnc i ddechrau dangos tuedd gynyddol yn 2022/23. Er gwaethaf cynnydd mewn pynciau STEM fel gwyddoniaeth yn 2020/2021, gostyngodd nifer y ceisiadau fesul swydd wag yn 2022/23.

**Siart 13**
**Nifer y ceisiadau fesul swydd wag mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, yn ôl maes pwnc**




Ffynhonnell: CYBLD, Llywodraeth Cymru


3.48 Gan fod y data'n dangos cyfanswm yr hysbysebion a'r ceisiadau, fe allai guddio amrywiadau sylweddol ar draws awdurdodau lleol, wrth i ganolfannau â phoblogaeth fwy fel Caerdydd ac Abertawe ddenu amrywiaeth ehangach o ymgeiswyr nag ardaloedd mwy gwledig neu Gymraeg eu hiaith fel Sir Benfro a Gwynedd.

3.49 Un peth sy'n dangos pa mor anodd yw recriwtio athrawon yw mynychder addysgu y tu allan i'r maes y mae'r athro wedi cymhwyso ynddo. Mae Siart 14 yn cyflwyno data ar gyfer 2020 i 2024 ynglŷn ag athrawon sydd wedi'u cofrestru gyda CGA a'r pynciau a addysgir. Yng Nghymru, nid yw SAC yn benodol i ystod oedran na phwnc.

3.50 Er bod y siart hon yn dangos, rhwng 2020 a 2024, bod dros 40% o athrawon ysgol mewn gwyddoniaeth, ffiseg, cemeg, a bioleg wedi cael eu hyfforddi y tu allan i'w maes pwnc, nid yw'n dangos i ba raddau yr oedd athrawon yn cyflwyno mewn meysydd a oedd yn gysylltiedig â'r maes yr oeddent wedi cymhwyso ynddo. O ran yr athrawon ysgol hynny a hyfforddwyd i addysgu pynciau gwyddoniaeth, mae trosglwyddoldeb yn amlwg wrth addysgu pynciau gwahanol yn y grwpiau eang hyn.

3.51 O ran pynciau sylfaen, fel celf, hanes, daearyddiaeth, ITM a cherddoriaeth, mae cyfran yr athrawon yr adroddwyd eu bod wedi hyfforddi mewn pwnc arall yn is o lawer yn nodweddiadol; yn 2024, roedd hyn yn amrywio o 10% (ITM) i 25.2% (daearyddiaeth). Yr unig eithriad i hyn yw TG, sef 55.5%.

**Siart 14**
**Nifer yr athrawon ysgol uwchradd wedi'u cofrestru gyda CGA yn ôl canran y rhai na chawsant eu hyfforddi yn y pwnc a addysgir – pynciau craidd ac addysg grefyddol**




Ffynhonnell: CGA, Ystadegau Blynyddol y Gweithlu Addysg ar gyfer Cymru 2020-2024

## Swyddi gwag arweinwyr ysgolion

3.52 Fe allai setiau data ar gyfer swyddi gwag arweinyddiaeth fod yn anghyson, oherwydd fe allai diffiniadau amrywio ar draws ardaloedd awdurdodau lleol.

Mae cyfanswm niferoedd isel yn dangos bod cafeatau o ran dilysrwydd a dibynadwyedd yn gysylltiedig â data o'r fath.

3.53 Gostyngodd nifer y ceisiadau am swyddi arwain o 2,037 (9.8% o'r holl geisiadau) yn 2021-2022 i 1,725 (9.0% o'r holl geisiadau) yn 2022-2023. Cyn 2020, bu'r nifer isaf o geisiadau fesul swydd arwain yn ystod y deng mlynedd diwethaf yn 2016, gyda 5.6 o geisiadau fesul swydd ar gyfartaledd. Ers 2016, cynyddodd ceisiadau fesul swydd o flwyddyn i flwyddyn i 34 yn 2019, sef y nifer uchaf ers 2012.

## Cyfraddau cadw

3.54 Nid yw'r data yn y tablau a'r siartiau canlynol yn cynnwys athrawon a adawodd ar yr oedran ymddeol arferol, sef 60 oed yn ôl y Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS) presennol.

3.55 Mae Tabl 6 yn dangos tuedd pum mlynedd ar gyfer athrawon sy'n gadael y proffesiwn yn ôl sector. Yn 2023, mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod 3.8% yn gadael yn gyffredinol, sef y ganran uchaf o athrawon sy'n gadael o fewn y cyfnod pum mlynedd diwethaf, fel y dangosir yn Nhabl 6, a'r uchaf yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.

**Tabl 6**
**Athrawon sy'n gadael y proffesiwn yn ôl sector (cyfrif pennau), Cymru 2013-2023**


| Athrawon sy'n gadael y proffesiwn | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Pob ysgol[1] | 612 | 414 | 603 | 756 | 1,004 |
| Cynradd | 351 | 251 | 362 | 407 | 589 |
| Canol | 14 | 16 | 16 | 22 | 58 |
| Uwchradd | 247 | 147 | 225 | 327 | 357 |
| Cyfanswm nifer yr athrawon (cyfrif pennau) | 25,884 | 26,195 | 26,865 | 27,135 | 26,465 |
| Canran yr athrawon sy'n gadael | 2.4 | 1.6 | 2.2 | 2.8 | 3.8 |

[1] yn cynnwys (cynradd, meithrin, canol, uwchradd, ac arbennig)
Ffynhonnell: CYBLD, Llywodraeth Cymru

3.56 Dangosir tuedd pum mlynedd o 2019 i 2023 ar gyfer athrawon cynradd ac uwchradd sy'n gadael y proffesiwn yn ôl nifer blynyddoedd profiad yn Siartiau 15 ac 16. Mae'r data'n dangos, ym mwyafrif y blynyddoedd ar gyfer athrawon uwchradd, bod y gyfran fwyaf wedi gadael o fewn y pum mlynedd cyntaf, heblaw yn 2020, pan roedd mwy wedi gadael ar ôl 16-20 mlynedd. Dangosir yr un duedd ar gyfer athrawon cynradd, heblaw ar gyfer y flwyddyn 2021 pan oedd mwy o athrawon wedi gadael ar ôl 16-20 mlynedd o brofiad.


3.57 Mae'r data diweddaraf yn 2023 yn dangos, o'r 1,004 o athrawon a adawodd y proffesiwn, fod y gyfran fwyaf (28.5%) wedi gadael o fewn eu pum mlynedd cyntaf o addysgu.

**Siart 15**
**Athrawon cynradd a adawodd y proffesiwn dros bum mlynedd (2019-2023), yn ôl nifer y blynyddoedd profiad**




Ffynhonnell: CYBLD, Llywodraeth Cymru

**Siart 16**
**Athrawon uwchradd a adawodd y proffesiwn dros bum mlynedd (2019-2023), yn ôl nifer y blynyddoedd profiad**





Ffynhonnell: CYBLD, Llywodraeth Cymru

3.58 Mae Siart 17 yn dangos tuedd pum mlynedd yn nifer yr athrawon uwchradd sy'n gadael y proffesiwn yn ôl pwnc, gan ganolbwyntio'n benodol ar bynciau STEM yn ogystal â Saesneg a Chymraeg. Nodir tuedd gynyddol yn y pynciau hyn, gan gydnabod y gellid priodoli'r gostyngiadau yn 2020 i'r pandemig COVID-19, i raddau helaeth.

**Siart 17**

**Nifer yr athrawon uwchradd a adawodd y proffesiwn yn ôl meysydd pwnc STEM, Saesneg, a Chymraeg yn 2019-2023**





Ffynhonnell: CYBLD, Llywodraeth Cymru

3.59 Mae data CGA ar gyfraddau cadw, sy'n olrhain athrawon dros amser, yn dangos bod 1,326 wedi cyflawni SAC a chofrestru gyda CGA yn 2014 (ar ôl cwblhau cwrs AGA yng Nghymru yn llwyddiannus yn 2013). Erbyn mis Mawrth 2023, roedd 64.5% o'r rheiny'n parhau i fod ar y Gofrestr (roedd 61.1% yn parhau i wasanaethu). Mae Cyfrifiad y Gweithlu Ysgolion yn Lloegr yn rhoi gwybodaeth debyg. O'r ANG yn Lloegr yn 2014, roedd 57.8% yn parhau i wasanaethu yn 2023, sef 0.7% yn is nag yng Nghymru o gymharu â'r rhai a oedd wedi'u cofrestru'n athrawon gyda CGA yn 2023 ar ôl cyflawni SAC yn 2014.


3.60 Mae'r data CYBLD yn Siartiau 18 a 19 yn dangos tuedd pum mlynedd sy'n cynyddu'n gyffredinol o ran y rhai a adawodd addysgu trwy ymddeol yn gynnar, a'r rhai a adawodd i weithio y tu allan i'r proffesiwn.

**Siart 18**
**Nifer yr athrawon a adawodd y proffesiwn trwy ymddeol yn gynnar, cyfnod pum mlynedd o 2019 i 2023**




[1] Mae'r niferoedd cyffredinol yn cynnwys pob cyfnod, e.e. ysgolion meithrin, cynradd, canol, uwchradd, ac arbennig.
Ffynhonnell: CYBLD, Llywodraeth Cymru

**Siart 19**
**Nifer yr athrawon a adawodd y proffesiwn trwy gael cyflogaeth y tu allan i'r proffesiwn, tuedd pum mlynedd o 2019 i 2023**




[1] Mae'r niferoedd cyffredinol yn cynnwys pob cyfnod, e.e. ysgolion meithrin, cynradd, canol, uwchradd, ac arbennig.
Ffynhonnell: CYBLD, Llywodraeth Cymru

# Pennod 4 – Materion sy’n Berthnasol i Gyflogau a Lwfansau

Mae Pennod 4 yn darparu gwybodaeth gyd-destunol am y materion sy’n berthnasol i gyflogau a lwfansau a geisiwyd yn llythyr cylch gwaith Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, dyddiedig 27 Ionawr 2025.

## Graddfeydd addysgu

4.1 Mae’n rhaid i athrawon dosbarth ar y brif ystod cyflog (PYC) gael cyflog ar raddfa pum pwynt, sy’n dechrau ar £32,433 (Medi 2024) ac sy’n codi dros bum pwynt arall i £44,802.

4.2 Casglwyd y wybodaeth ddiweddaraf am gyflogau gwirioneddol gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2023. Bryd hynny, y cyflog cyfartalog ym mlwyddyn academaidd 2023-2024 ar gyfer athro dosbarth ar y PYC oedd £37,078 (yn seiliedig ar ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o Gyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion).

4.3 Mae’n rhaid i athrawon dosbarth ar yr ystod cyflog uwch (YCU) gael cyflog ar raddfa tri phwynt, yn dechrau ar £46,024 (Medi 2024) ac yn codi i £49,944. Ym mis Tachwedd 20, y cyflog gwirioneddol cyfartalog ym mlwyddyn academaidd 2023-2024 ar gyfer athro dosbarth ar yr YCU oedd £46,844 (yn seiliedig ar ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o Gyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion).

## Graddfeydd arweinyddiaeth

4.4 Mae’n rhaid i benaethiaid, dirprwy benaethiaid, a phenaethiaid cynorthwyol gael cyflog sy’n seiliedig ar Ystod Cyflog y Grŵp Arweinyddiaeth (YCGA), fel y pennir gan y corff perthnasol.

4.5 Yng Nghymru, mae dogfen cyflog ac amodau athrawon ysgol (Cymru) 2024 yn datgan bod yr ystod cyflog ar gyfer penaethiaid yn cael ei phennu gan fformiwla sy’n eu gosod yn un o wyth grŵp penaethiaid, gan ystyried nifer y disgyblion, eu cyfnod dysgu allweddol, ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan y corff perthnasol yr hyblygrwydd i bennu cyflog o fewn ystod y grŵp, gyda disgresiwn i bennu 25% yn fwy nag uchafswm ystod y grŵp penaethiaid, a mwy mewn amgylchiadau eithriadol.

4.6 Mae cyfrifiad blynyddol y gweithlu ysgolion yn dangos bod yr ystod cyflog ar gyfer penaethiaid yn y grŵp arweinyddiaeth yn 2024-2025 yn dechrau ar £57,304 (L6) ac yn codi i £140,685. Y cyflog gwirioneddol cyfartalog ar gyfer yr holl arweinwyr yn 2023-2024 oedd £69,548, y cyfartaledd ar gyfer penaethiaid oedd £77,689 a’r cyfartaledd ar gyfer eraill ar y raddfa arweinyddiaeth oedd £64,416.

## Arsylwadau ynglŷn â chyflog a rhywedd

4.7 Mae Tabl 7 yn dangos y cyflog canolrifol ar gyfer athrawon benywaidd a gwrywaidd yn ôl graddfa gyflog o 2019-2020 i 2023-2024. Er bod y bwlch cyflog rhywedd yn gymharol fach mewn rolau addysgu gyrfa gynnar, mae’n dod yn fwy amlwg ar lefelau uwch arweinyddiaeth. Gellir gweld hyn ymhlith penaethiaid ac ymarferwyr arweiniol, gan fod dynion yn ennill mwy na menywod yn gyson.

**Tabl 7**
**Cyflog canolrifol athrawon yng Nghymru yn ôl graddfa gyflog, yn ôl rhywedd ac yn gyffredinol, bob blwyddyn yn ystod y pedair blynedd diwethaf**

| Athro | Blwyddyn | Benywaidd | Gwrywaidd | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|---|
| Athro heb gymhwyso | 2019-2020 | 23,794 | 24,680 | 886 |
| Athro heb gymhwyso | 2020-2021 | 24,832 | 25,604 | 772 |
| Athro heb gymhwyso | 2021-2022 | 24,693 | 25,692 | 999 |
| Athro heb gymhwyso | 2022-2023 | 25,642 | 26,881 | 1,239 |
| Athro heb gymhwyso | 2023-2024 | 28,406 | 28,791 | 385 |
| PYC | 2019-2020 | 30,512 | 30,159 | 353 |
| PYC | 2020-2021 | 31,699 | 31,535 | 164 |
| PYC | 2021-2022 | 32,356 | 32,006 | 350 |
| PYC | 2022-2023 | 33,866 | 33,653 | 213 |
| PYC | 2023-2024 | 37,118 | 36,958 | 160 |
| YCU | 2019-2020 | 40,026 | 40,032 | 6 |
| YCU | 2020-2021 | 41,114 | 41,155 | 41 |
| YCU | 2021-2022 | 41,874 | 41,871 | 3 |
| YCU | 2022-2023 | 43,331 | 43,375 | 44 |
| YCU | 2023-2024 | 46,851 | 46,821 | 30 |
| Ymarferydd arweiniol | 2019-2020 | 48,279 | 54,067 | 5,788 |
| Ymarferydd arweiniol | 2020-2021 | 52,264 | 52,796 | 532 |
| Ymarferydd arweiniol | 2021-2022 | 53,151 | 56,023 | 2,872 |

| Athro | Blwyddyn | Benywaidd | Gwrywaidd | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|---|
| Ymarferydd arweiniol | 2022-2023 | 55,829 | 55,084 | 745 |
| Ymarferydd arweiniol | 2023-2024 | 58,818 | 61,226 | 2,408 |
| Arweinyddiaeth arall | 2019-2020 | 52,827 | 56,361 | 3,534 |
| Arweinyddiaeth arall | 2020-2021 | 54,723 | 58,028 | 3,305 |
| Arweinyddiaeth arall | 2021-2022 | 56,320 | 59,669 | 3,349 |
| Arweinyddiaeth arall | 2022-2023 | 58,227 | 61,472 | 3,245 |
| Arweinyddiaeth arall | 2023-2024 | 63,382 | 66,633 | 3,251 |
| Pennaeth | 2019-2020 | 63,889 | 69,087 | 5,198 |
| Pennaeth | 2020-2021 | 65,926 | 71,456 | 5,530 |
| Pennaeth | 2021-2022 | 67,639 | 73,584 | 5,945 |
| Pennaeth | 2022-2023 | 70,234 | 76,795 | 6,561 |
| Pennaeth | 2023-2024 | 75,255 | 81,535 | 6,280 |

Ffynhonnell: CBGY, Llywodraeth Cymru

## Cymhariaeth rhwng cyflogau yng Nghymru a Lloegr

4.8 Mae Tabl 8 yn dangos y cynnydd canrannol mewn cyflogau ar gyfer pob graddfa gyflog yng Nghymru a Lloegr o 2019 ymlaen. Bu cynnydd canrannol uwch mewn cyflogau yng Nghymru o gymharu â Lloegr ers 2019, wrth i fwyafrif y graddfeydd cyflog gynyddu 23.3%. Roedd y cynnydd mwyaf ar gyfer lleiafswm y PYC yng Nghymru, gan gynyddu 30.2% ers 2019. O gymharu, mae pob graddfa gyflog yn Lloegr wedi cynyddu llai nag yng Nghymru, sef cyfartaledd o 2% yn llai.

**Tabl 8**
**Cynnydd mewn cyflogau yng Nghymru a Lloegr yn ystod pum mlynedd**

| Grŵp Cyflog | 2019 Cymru | 2024 Cymru | % cynnydd yng Nghymru | 2019 Lloegr | 2024 Lloegr | % cynnydd yn Lloegr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lleiafswm Arweinyddiaeth | £41,065 | £50,653 | 23.3 | £41,065 | £49,781 | 21.2 |
| Uchafswm Arweinyddiaeth | £114,060 | £140,685 | 23.3 | £114,060 | £138,265 | 21.2 |

| Grŵp Cyflog | 2019 Cymru | 2024 Cymru | % cynnydd yng Nghymru | 2019 Lloegr | 2024 Lloegr | % cynnydd yn Lloegr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lleiafswm Ymarferydd Arweiniol | £41,267 | £50,902 | 23.3 | £41,267 | £50,025 | 21.2 |
| Uchafswm Ymarferydd Arweiniol | £62,735 | £77,832 | 23.3 | £62,735 | £76,050 | 21.2 |
| Lleiafswm YCU | £37,654 | £46,446 | 23.3 | £37,654 | £45,646 | 21.2 |
| Uchafswm YCU | £40,490 | £49,944 | 23.3 | £40,490 | £49,084 | 21.2 |
| Lleiafswm PYC | £24,906 | £32,433 | 30.2 | £24,373 | £31,650 | 29.9 |
| Uchafswm PYC | £35,971 | £44,802 | 24.6 | £35,971 | £43,607 | 21.2 |
| Lleiafswm Heb Gymhwyso | £17,682 | £21,812 | 23.4 | £17,682 | £21,731 | 22.9 |
| Uchafswm Heb Gymhwyso | £27,965 | £34,495 | 23.4 | £27,965 | £33,902 | 21.2 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

## Cymhariaeth rhwng graddfeydd cyflog

4.9 Mae'r adrannau canlynol yn darparu gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer graddfeydd cyflog, ar draws proffesiynau i raddedigion yn y Deyrnas Unedig a'r proffesiwn addysgu ar draws gwledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) lle yr adroddwyd gwybodaeth. Gwahaniaethir rhwng ffigurau Cymru a'r Deyrnas Unedig a chymaryddion yr OECD.

4.10 Mae ffynonellau gwybodaeth a data amrywiol ar gael i gymharu cyflogau athrawon ac arweinwyr yng Nghymru â phroffesiynau eraill. Mae cafeatau'n berthnasol i bob ffynhonnell, a gallant ddarparu tueddiadau dangosol ar y gorau yn hytrach na data cadarnhaol.

### Cyflogau cychwynnol athrawon o'u cymharu â phroffesiynau eraill i raddedigion

4.11 Mae athrawon cymwysedig yn y sector a gynhelir yng Nghymru yn cael eu talu yn ôl graddfeydd cyflog statudol, gyda chyflog cychwynnol o £32,433 ym mis Medi 2024. Mae'r cyflog cychwynnol presennol hwn 2.5% yn uwch nag yn Lloegr, sef £31,650, ond yn is nag yn yr Alban, sef £33,594.


4.12 Dangosodd Arolwg Recriwtio Myfyrwyr (2024) y Sefydliad Cyflogwyr Myfyrwyr (ISE) fod twf recriwtio graddedigion ar gyfer 2023-2024 yn 4% ac y rhagfynegir y bydd yn tyfu 1% yn 2024-2025. Yn ôl adroddiad High Fliers (2024), disgwylir i nifer y swyddi a gynigir i raddedigion gynyddu 1.5% o

2023 ymlaen. Mae dau o bob pump o gyflogwyr yn gobeithio recriwtio mwy; fodd bynnag, mae traean yn disgwyl recriwtio llai o raddedigion newydd nag y gwnaethant yn 2023.

4.13 Adroddodd Arolwg Recriwtio Myfyrwyr (2024) yr ISE gyflog cychwynnol canolrifol o £32,000 ar gyfer graddedigion yn y Deyrnas Unedig, a'r cyflog cychwynnol canolrifol ar gyfer graddedigion yng Nghymru oedd £30,050. Dylid nodi bod y canolrif yn cael ei gyfrifo yn seiliedig ar nifer fach o sefydliadau yng Nghymru yn unig ac y gallai'r cwmnïau a ystyrir ar gyfer yr arolwg fod yn wahanol o flwyddyn i flwyddyn.

4.14 Mae ymchwil High Fliers yn ystyried y farchnad raddedigion yn 2024 yn y 100 o gyflogwyr mwyaf adnabyddus a llwyddiannus yn y Deyrnas Unedig, yn ystod mis Ionawr 2024. Mae'r adroddiad High Fliers yn datgan, yn 2024, bod cyflogau cychwynnol canolrifol graddedigion yn £34,000 ar gyfer y Deyrnas Unedig, o gymharu â £33,500 yn 2023.

**Siart 20**
**Cymharu cyflogau cychwynnol graddedigion 2024**




Ffynhonnell: ISE

4.15 Mae Siart 20 yn cymharu'r cyflog cychwynnol ar gyfer athrawon yng Nghymru â chyflogau cychwynnol graddedigion eraill. Sylwer bod y siart yn defnyddio ystadegau 2024 i gymharu a'i bod yn dangos bod y cyflog cychwynnol ar gyfer athrawon yng Nghymru yn 2024 yn uwch na'r cyflog cychwynnol canolrifol ar gyfer graddedigion ar draws holl grwpiau proffesiynol yr ISE yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. O gymharu, roedd cyflog cychwynnol athrawon yng Nghymru yn llai na chyflogau cychwynnol yr holl grwpiau proffesiynol a adroddwyd gan High Fliers, gan nodi bod yr ystadegau hyn ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan.


4.16 Mae'r arolwg Canlyniadau Graddedigion, a gynhelir gan HESA, yn cynnwys gwybodaeth am gyflogau 15 mis ar ôl iddynt gwblhau eu hastudiaethau. Ni

fydd y data hwn yn adlewyrchu cyflog cychwynnol graddedigion o reidrwydd, oherwydd fe allai fod wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, bydd y data'n dangos manylion y cyflog ar ddechrau gyrfa graddedigion.

4.17 Darparodd yr arolwg diweddaraf ymatebion gan bron 352,000 o raddedigion a gwblhaodd raglenni astudio cymwys rhwng 1 Awst 2021 a 31 Gorffennaf 2022, ac mae Siart 21 yn rhoi band cyflog graddedigion yn y Deyrnas Unedig a astudiodd bwnc cysylltiedig ag addysg fel eu gradd.

4.18 Mae Siart 21 yn dangos bod mwyafrif y graddedigion addysg yn ennill rhwng £27,000 a £29,999 wrth ymgymryd â chyflogaeth 15 mis ar ôl cwblhau eu hastudiaethau. Enillodd athrawon yng Nghymru (sydd wedi'u cynnwys yn y bar coch) fwy na hyn ar ôl graddio oherwydd y cyflog cychwynnol ar gyfer athrawon yng Nghymru ym mis Medi 2024 oedd £32,433. Dylid nodi nad yw'r siart hon yn dangos p'un a yw eu cyflogaeth (lle y cafwyd gwybodaeth am gyflog) o fewn addysg neu mewn rôl penodol i raddedigion, felly dylid bod yn ofalus wrth ystyried y tabl hwn hefyd.

**Siart 21**
**Graddedigion sy'n byw yn y Deyrnas Unedig sydd mewn cyflogaeth gyflogedig amser llawn yn y Deyrnas Unedig yn ôl band cyflog (ar ôl 15 mis o gyflogaeth)**





Ffynhonnell: HESA, 2024

4.19 Mae Siart 22 yn dangos crynodeb o gynnydd mewn cyflogau cychwynnol ers 2016-17 o ffynonellau amrywiol:

- Mae'r ISE yn adrodd am gynnydd 16.4% o 2016-2017 i 2023-2024.
- Mae High Fliers yn adrodd am gynnydd 13.3% ers 2016 ar gyfer cyflogau cychwynnol canolrifol graddedigion.

- Mae cyflogau cychwynnol athrawon ng Nghymru wedi cynyddu 44.4% o 2016 i ddyfarniad cyflog 2024.
- Mae cyflogau cychwynnol ar gyfer athrawon yn Lloegr wedi cynyddu 40.9% yn ystod yr un cyfnod.

**Siart 22**
**Cymharu cyflogau a chyflogau cyfartalog dros y blynyddoedd**




Ffynhonnell: ISE, High Fliers

4.20 Yn draddodiadol, mae adroddiadau Education at a Glance yr OECD wedi cyflwyno data ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan, gan gynnwys Cymru, Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, yn sgil datganoli polisi addysg ym 1998 (Llywodraeth Cymru yn benodol), bu mwy o ddiddordeb mewn dadgyfuno’r data i adlewyrchu systemau addysg gwahanol y Deyrnas Unedig. Mae’n bwysig nodi bod graddau a chysondeb y data wedi’i ddadgyfuno wedi amrywio dros y blynyddoedd. Yn achos y data ar gyfer y rhannau hyn sy’n cynnwys data Education at a Glance 2024 yr OECD, mae Cymru a Lloegr wedi’u cyfuno. Mae hyn yn berthnasol i holl ddata’r OECD a ddefnyddir yn yr adroddiad.

4.21 Yn astudiaeth Education at a Glance 2024 yr OECD, dosberthir ysgolion ar draws pedwar cyfnod: cyn-gynradd, cynradd, uwchradd isaf ac uwchradd uchaf. Yn y Deyrnas Unedig, mae’r cyfnodau uwchradd fel arfer yn cael eu hintegreiddio’n un cyfnod uwchradd. Mae’r holl gymaryddion cyflogau yn yr astudiaeth hon gan yr OECD yn defnyddio symiau sy’n gyfwerth â Doleri’r Unol Daleithiau (USD).

4.22 Wrth gymharu sefyllfa berthynol cyflogau cychwynnol athrawon dosbarth, mae astudiaeth 2024 yr OECD yn dangos bod cyflogau cychwynnol athrawon ar gyfer pob cyfnod yng Nghymru a Lloegr (sydd wedi’u cyfuno yn adroddiad yr OECD, er bod y cyflog cychwynnol yng Nghymru yn uwch nag yn Lloegr) islaw cyfartaleddau’r OECD. Dangosir hyn yn Nhabl 9.

**Tabl 9**
**Cyflogau cychwynnol statudol athrawon, yn seiliedig ar y cymwysterau mwyaf cyffredin ($)**

| Cyfartaledd rhanbarth o gymharu â'r OECD | Cyn-gynradd | Cynradd | Uwchradd isaf | Uwchradd uchaf |
|---|---|---|---|---|
| Cymru a Lloegr | 39,677 | 39,677 | 39,677 | 39,677 |
| Cyfartaledd yr OECD | 40,167 | 42,060 | 43,484 | 44,831 |
| Gwahaniaeth | -490 | -2,383 | -3,807 | -5,154 |

Ffynhonnell: OECD, Education at a Glance 2024

## Cyflogau ar gyfer athrawon profiadol o'u cymharu â phroffesiynau eraill i raddedigion


4.23 Mae'r paragraffau canlynol yn cymharu cyflogau ar gyfer athrawon mwy profiadol yn ôl gwahanol ffynonellau data. Nid oes ffynhonnell unigol i gymharu datblygiad cyflogau yn gywir rhwng gwahanol broffesiynau yn seiliedig ar flynyddoedd gwasanaeth. Yn yr un modd, nid oes llawer o wybodaeth a data ar gael yng Nghymru i gymharu cyflogau yn benodol. Fodd bynnag, gellir defnyddio ambell ffynhonnell ddirprwyol i ddarparu tueddiadau dangosol.

4.24 Gellir defnyddio data Arolwg Blynyddol Oriau ac Enillion (ASHE) 2024 yr ONS i gymharu gwybodaeth am gyflogau fesul galwedigaeth yn y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru.

4.25 Y cyflog cymedrig ar gyfer gweithwyr addysgu proffesiynol addysg gynradd yw £42,763.

4.26 Mae Siart 23 yn amlygu galwedigaethau ledled y Deyrnas Unedig. Mae gan broffesiynau addysg yn y categori 'galwedigaethau proffesiynol' gyflog amser llawn canolrifol blynyddol o £45,384 ar gyfer gweithwyr addysgu proffesiynol addysg uwchradd. Y cyflog canolrifol ar gyfer gweithwyr addysgu proffesiynol addysg gynradd yw £42,763.


**Siart 23**
**Cyflog gros blynyddol amser llawn canolrifol blynyddol yn ôl Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol yn y Deyrnas Unedig**




Ffynhonnell: ASHE 2024

4.27 Mae archwilio data ASHE ymhellach ar gyfer y galwedigaethau proffesiynol yng Nghymru yn benodol yn datgelu cyflog wythnosol gros cymedrig y rolau hyn, fel y dangosir yn

**Siart 24 Cyflog wythnosol gros cymedrig (£) yng Nghymru ar gyfer y categori proffesiynol**



Ffynhonnell: ASHE 2024

4.28 Cyflog wythnosol gros cymedrig (£) yng Nghymru ar gyfer y categori proffesiynol

4.29 Mae'r cyflogau wythnosol cymedrig, fel y'u dangosir yn **Error! Reference source not found.**, ar gyfer athrawon ysgol cynradd ac uwchradd yng Nghymru yn dod o fewn hanner uchaf yr holl broffesiynau a adroddwyd.

4.30 Yn ôl Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion 2023-2024, y cyflog cyfwerth ag amser llawn cyfartalog yng Nghymru yw £48,222 ar gyfer athrawon cynradd a £47,476 ar gyfer athrawon uwchradd, sef £5,459 yn uwch na'r cyflog cyfartalog ar gyfer athrawon cynradd a £2,092 yn uwch nag ar gyfer athrawon uwchradd yn y Deyrnas Unedig fel yr adroddwyd gan ASHE 2024.

4.31 Mae data CGA yn dangos, o gyfanswm nifer yr athrawon ysgol presennol, y nifer ganolrifol o flynyddoedd ers cyflawni SAC yw 16. Er nad yw hyn yn pennu pa mor hir y mae athrawon ysgol wedi bod yn gweithio ym maes addysg, o reidrwydd (gan nad yw'n cyfrif am unrhyw seibiannau mewn gwasanaeth), mae'n rhoi syniad bras o brofiad y gweithlu presennol a gellir ei ddefnyddio wrth ystyried data cyflogau cyfartalog athrawon ysgol yn yr adran hon.


4.32 Mae astudiaeth 2024 yr OECD yn adrodd am gyflogau gwirioneddol cyfartalog ar gyfer athrawon cynradd ac uwchradd uchaf yng Nghymru a Lloegr gyda'i gilydd o $52,332 a $58,213, yn ôl eu trefn. Gellir cymharu'r rhain â chyfartaleddau $54,052 a $59,978 yr OECD.

4.33 Mae'r astudiaeth Canlyniadau Addysg Hydredol (CAH): Canlyniadau Graddedigion ac Ôl-raddedigion yn dwyn ynghyd data uwch o'r Adran Cyflogaeth, gwybodaeth am gyflogaeth, budd-daliadau ac enillion o'r Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Fe'i defnyddir i edrych ar gyflogaeth ac enillion graddedigion addysg uwch un flynedd, tair blynedd, pum mlynedd a deng mlynedd ar ôl graddio. Mae sawl cafeat yn berthnasol i'r astudiaeth:

- Mae'r data'n cael ei fapio i gyrsiau astudio yn y brifysgol ac nid yn uniongyrchol i broffesiynau.
- Nid yw'r wybodaeth am gyflogau wedi'i chyfyngu i raddedigion sy'n gweithio mewn 'proffesiynau i raddedigion' ac mae'n cynnwys gwaith rhan-amser; gallai'r pwyntiau hyn ddatchwyddo'r ffigurau cyflog gwirioneddol a gasglwyd.

4.34 Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024 yn dadansoddi'r cyflogau ym mlwyddyn dreth 2021-2022 ar gyfer graddedigion yn y Deyrnas Unedig a ddechreuodd weithio un flynedd, tair blynedd, pum mlynedd a deng mlynedd cyn hynny. Dewiswyd pynciau prifysgol sy'n cyd-fynd agosaf â phroffesiynau, ac fe'u dangosir yn Siart 25.

**Siart 25**
**Datblygiad cyflog ar gyfer pynciau a astudiwyd yn 2021-2022**




Ffynhonnell: CAH: Canlyniadau Graddedigion ac Ôl-raddedigion

4.35 Trwy gymharu'r gwahaniaeth rhwng y cymedr ar gyfer y pynciau a ddangosir yn Siart 25 a'r cyflog gwirioneddol ar gyfer y proffesiwn addysg ac addysgu, awgrymir bod y gyfradd datblygiad cyflog ar gyfer gweithwyr proffesiynol o'r fath a chanddynt rhwng un a phum mlynedd o brofiad yn unol â graddedigion eraill a gyflogwyd mewn proffesiynau eraill yn 2021-2022. Wedi hynny, mae datblygiad cyflog y gweithwyr proffesiynol addysg ac addysgu yn gwastatáu rhwng pump a deng mlynedd, yn wahanol i broffesiynau eraill. Fodd bynnag, wrth gymharu, mae'n bwysig cofio'r cafeatau a amlinellwyd ym mharagraff 4.32 ynglŷn â chywirdeb data CAH a'r ffaith y casglwyd y data yn 2021.

4.36 Mae data o adroddiad Education at a Glance yr OECD (2024) yn cymharu cyflogau cychwynnol, cyflogau ar ôl 15 mlynedd o wasanaeth, a chyflogau ar frig y raddfa ar gyfer athrawon, yn y 40 o awdurdodaethau a gynhwyswyd yn yr arolwg. Mae'r holl gyflogau wedi'u seilio ar raddfeydd cyflog statudol, felly nid ydynt yn cynnwys unrhyw daliadau ychwanegol fel cyfrifoldebau addysgu a dysgu (CADau).

4.37 Mae Tablau 10 ac 11 yn dangos y wybodaeth hon ar gyfer Cymru a Lloegr gyda'i gilydd, yr Alban, a chyfartaledd yr OECD ar draws y cyfnodau cynradd ac uwchradd uchaf.

**Tabl 10**
**Datblygiad cyflog ar gyfer athrawon cynradd ($) – heb gynnwys CAD a lwfansau eraill**

| Rhanbarth | cychwynnol | ar ôl 15 mlynedd | ar frig y raddfa |
|---|---|---|---|
| Cymru a Lloegr | 39,677 | 61,511 | 61,511 |
| Yr Alban | 51,868 | 65,102 | 65,102 |
| Cymedr yr OECD | 42,060 | 56,753 | 68,924 |
| % gwahaniaeth Cymru a Lloegr o gymharu â chymedr yr OECD | -6.0 | +7.7 | -12.1 |

Ffynhonnell: OECD, Education at a Glance 2024

**Tabl 11**
**Datblygiad cyflog ar gyfer athrawon uwchradd uchaf ($) – heb gynnwys CAD a lwfansau eraill**

| Rhanbarth | cychwynnol | ar ôl 15 mlynedd | ar frig y raddfa |
|---|---|---|---|
| Cymru a Lloegr | 39,677 | 61,511 | 61,511 |
| Yr Alban | 51,868 | 65,102 | 65,102 |
| Cymedr yr OECD | 44,831 | 60,803 | 73,930 |
| % gwahaniaeth Cymru a Lloegr o gymharu â chymedr yr OECD | -13.0 | +1.2 | -20.2 |

Ffynhonnell: OECD, Education at a Glance 2024

4.38 Mae Tablau 10 ac 11 yn dangos y gwahaniaeth canrannol mewn datblygiad cyflogau athrawon yng Nghymru a Lloegr o gymharu â chyfartaledd yr OECD. Fel y mae'r tablau'n dangos, mae athrawon yng Nghymru yn cyrraedd brig eu graddfa ar ôl 15 mlynedd o wasanaeth neu cyn hynny, tra bod cyflogau cyfartalog yr OECD yn cynyddu y tu hwnt i 15 mlynedd. Fodd bynnag, casglwyd data i lywio astudiaeth 2024 yr OECD yn 2023 ac nid yw'n cynnwys lwfansau. Felly, heb waith ymchwil pellach, mae'n anodd gwneud cymariaethau ystyrlon.

## Cyflogau ar gyfer penaethiaid o gymharu â gwledydd yr OECD

4.39 Mae cyflogau penaethiaid yn amrywio cryn dipyn ar draws gwledydd yr OECD. Fe allai cyfrifoldebau penaethiaid ysgolion amrywio rhwng gwledydd ac o fewn gwledydd hefyd, yn dibynnu ar yr ysgolion maen nhw'n eu harwain. Fe allai penaethiaid ysgolion gyflawni cyfrifoldebau addysgol, a allai gynnwys addysgu, yn ogystal â chyfrifoldeb am weithrediad cyffredinol y sefydliad mewn meysydd fel yr amserlen, gweithredu'r cwricwlwm, penderfyniadau ynglŷn â beth a addysgir, a'r deunyddiau a'r dulliau a

ddefnyddir. Mae'n bosibl y bydd ganddynt gyfrifoldebau gweinyddol, rheoli staff, ac ariannol eraill hefyd.

4.40 Mae Tabl 12 yn cymharu lleiafswm cyflogau statudol penaethiaid yng Nghymru (a Lloegr) â chyfartaleddau'r OECD ar gyfer pob cyfnod ysgol. Mae cyflogau cychwynnol pob cyfnod yng Nghymru (Lloegr) yn gadarnhaol o gymharu â chyfartaledd yr OECD.


**Tabl 12**
**Lleiafswm cyflogau statudol penaethiaid ysgolion, yn seiliedig ar gymwysterau gofynnol ($)**

| Cyfartaledd rhanbarth o gymharu â'r OECD | Cyn-gynradd | Cynradd | Uwchradd isaf | Uwchradd uchaf |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Cymru a Lloegr | 69,807 | 69,807 | 69,807 | 69,807 |
| Cyfartaledd yr OECD | Dim data OECD | 57,673 | 63,398 | 64,291 |
| Gwahaniaeth | Dim data OECD | +12,134 | +6,409 | +5,516 |

Ffynhonnell: OECD, Education at a Glance 2024

4.41 Mae gan Gymru, ynghyd â Lloegr, y cyflog gwirioneddol cyfartalog ail uchaf ar gyfer penaethiaid ysgolion uwchradd uchaf, sef $134,293, o gymharu â chyflog gwirioneddol cyfartalog yr OECD, sef $92,714, sydd 44.8% yn uwch na chyfartaledd yr OECD. Yn ogystal, mae gan Gymru yr ystod ail fwyaf o gyflogau statudol ar gyfer penaethiaid ysgolion uwchradd uchaf, sef 236% yn fwy na chyfartaledd yr OECD.


**Siart 26**
**Cyflogau gwirioneddol cyfartalog penaethiaid ysgolion uwchradd uchaf o gymharu â'r lleiafswm a'r uchafswm cyflogau statudol (2023)**




Ffynhonnell: Education at a Glance 2024

4.42 O ddata’r OECD sydd ar gael ar gyfer penaethiaid ysgolion cynradd yn yr adroddiad Education at a Glance 2024, mae’r cyflog gwirioneddol cyfartalog yn yr 11eg safle o ddata adrodd y 30 o wledydd, sef 15.6% yn uwch na chyfartaledd yr OECD.

**Siart 27**
**Cyflogau gwirioneddol cyfartalog penaethiaid ysgolion cynradd (2023)**




Ffynhonnell: Education at a Glance 2024

## Trefniadau cyfrifoldeb addysgu a dysgu (CAD)

4.43 Mae Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2024 yn datgan y gellir gwneud taliad CAD “ am ymgymryd â chyfrifoldeb ychwanegol parhaus, er mwyn sicrhau bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn parhau i gael eu cyflenwi a bod yr athro yn gyfrifol am hyn.” Ni cheir dyfarnu CAD i athrawon heb gymhwyso.

4.44 Ceir tri math o CAD, a phennir y defnydd a wneir ohonynt yn unol â pholisi cyflog yr ysgol. Dyma’r gwerthoedd ar gyfer 2024-2025:

i. CAD1, rhwng £9,955 a £16,844

ii. CAD2, rhwng £3,451 ac £8,426

iii. CAD3, rhwng £686 a £3,403 – mae hwn yn daliad cyfnod penodol “ar gyfer prosiectau gwella ysgol â therfyn amser clir, neu gyfrifoldebau allanol untro.”

## Mynychder CADau

4.45 Mae Tabl 13 yn dangos bod 8,580 o athrawon yng Nghymru wedi derbyn un taliad CAD neu fwy yn 2023 (y data diweddaraf sydd ar gael).

**Tabl 13**
**Taliadau CAD yn ôl y math o CAD, rhywedd a chyfnod (i’r pump agosaf), 2023**

| Grwpiau CAD yn ôl | Rhywedd (Gwrywaidd/ Benywaidd) | Ysgolion Meithrin a Chynradd | Ysgolion Canol | Ysgolion Uwchradd | Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion | Arall | Cyfanswm | Cyfanswm % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CAD 1 | Gwrywaidd | * | 40 | 335 | 5 | 30 | 415 | 33.5% |
| | Benywaidd | 5 | 80 | 670 | 10 | 75 | 835 | 66.5% |
| | Cyfanswm | 10 | 120 | 1,005 | 15 | 105 | 1,255 | 100% |
| CAD 2 | Gwrywaidd | 245 | 145 | 1,205 | 35 | 105 | 1,725 | 26.4% |
| | Benywaidd | 1,540 | 375 | 2,415 | 135 | 375 | 4,820 | 73.6% |
| | Cyfanswm | 1,780 | 525 | 3,620 | 170 | 480 | 6,545 | 100% |
| CAD 3 | Gwrywaidd | 80 | 35 | 200 | 10 | 25 | 350 | 27.1% |
| | Benywaidd | 360 | 70 | 410 | 30 | 60 | 930 | 72.9% |
| | Cyfanswm | 435 | 105 | 605 | 40 | 85 | 1,275 | 100% |
| **Cyfanswm** | | **2,195** | **685** | **4,870** | **225** | **650** | **8,580** | 100% |

Sylwer: Nid yw’r ffigurau’n gwneud cyfanswm bob tro, o ganlyniad i dalgrynnu
Mae’r ffigurau wedi’u talgrynnu i’r pump agosaf. Pan fydd y cyfrif pennau’n llai na phump ond yn fwy na sero, cynrychiolir y ffigurau gan "*".
Ffynhonnell: CBGY, Llywodraeth Cymru

4.46 Fel y dangosir yn Nhabl 14, at ei gilydd, mae 30.8% o athrawon yn derbyn dyfarniad CAD – mae hyn yn amrywio o fwy na 44.2% yn y sector ysgolion uwchradd i 18.1% mewn ysgolion meithrin a chynradd (yn seiliedig ar ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o Gyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion).

**Tabl 14**
**Canran yr athrawon a dderbyniodd lwfansau CAD yn ôl sector, 2023 (wedi’i thalgrynnu i’r pump agosaf)**

| Sector | Athrawon a dderbyniodd daliad CAD | Cyfrif pennau'r holl athrawon | % yr athrawon ym mhob sector sy'n derbyn CAD |
|---|---|---|---|
| Meithrin a Chynradd | 2,195 | 12,145 | 18.1% |
| Canol | 685 | 1,575 | 43.5% |
| Uwchradd | 4,870 | 11,010 | 44.2% |
| Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau) | 225 | 1,105 | 20.4% |
| Arall | 650 | 1,185 | 54.9% |
| **Pob ysgol** | **8,580** | **27,845** | **30.8%** |

Ffynhonnell: CBGY, Llywodraeth Cymru

4.47 O ran rhywedd, o gyfanswm y dyfarniadau CAD a wneir, dyfernir 76.7% i athrawon benywaidd a 23.3% i athrawon gwrywaidd. Dyfernir 66.5% o daliadau CAD1, 73.6% o daliadau CAD2, a 72.9% o daliadau CAD3 i staff benywaidd. Adroddodd Canlyniadau Cyfrifiad y Gweithlu Ysgolion mai cyfansoddiad cyffredinol y gweithlu addysgu yng Nghymru ym mis Tachwedd 2023 oedd 74.2% benywaidd a 25.8% gwrywaidd.

**Tabl 15**
**Canran yr athrawon yn ôl rhywedd a math o CAD, 2023**

| Grwpiau CAD | Benywaidd | Gwrywaidd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| CAD1 | 66.5% | 33.5% | 100% |
| CAD2 | 73.6% | 26.4% | 100% |
| CAD3 | 72.9% | 27.1% | 100% |
| **Cyfanswm** | **76.7%** | **23.3%** | **100%** |

Ffynhonnell: CBGY, Llywodraeth Cymru

4.48 Y taliad CAD cymedrig yn 2023 oedd £5,089. Cymedr CAD1 oedd £9,826; cymedr CAD2 oedd £4,402; cymedr CAD3 oedd £1,994. Mae Tablau 16 a 17 yn dangos dosbarthiad a gwerth lwfansau CAD1 a CAD2 yn ôl band CAD a rhywedd. Ar gyfer ystod gwerth CAD2, sef £5,626 i £7,986, dyfarnwyd 65% i fenywod a 35% i ddynion.

**Tabl 16**
**Staff sy'n derbyn CAD 1 yn ôl band CAD a rhywedd (wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf), 2021**

| CAD 1 | Gwrywaidd | % | Benywaidd | % | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| <£9,436 | 185 | 31.4 | 405 | 68.6 | 590 |
| >=£9,436 a <£11,612 | 145 | 33.7 | 280 | 65.1 | 430 |
| >=£11,612 a <£13,789 | 65 | 36.1 | 120 | 66.7 | 180 |
| >=£13,789 a <£15,965 | 20 | 36.4 | 35 | 63.6 | 55 |
| **Cyfanswm** | **415** | **33.1** | **835** | **66.5** | **1,255** |

Sylwer: nid yw'r ffigurau'n gwneud cyfanswm bob tro, o ganlyniad i dalgrynnu
Ffynhonnell: CBGY, Llywodraeth Cymru

**Tabl 17**
**Staff sy'n derbyn CAD 2 yn ôl band CAD a rhywedd (wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf), 2021**

| CAD 2 | Gwrywaidd | % | Benywaidd | % | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| <£3,271 | 580 | 20.4 | 2,270 | 79.8 | 2,845 |
| >=£3,271 a <£5,626 | 695 | 28.7 | 1,730 | 71.5 | 2,420 |
| >=£5,626 a <£7,986 | 445 | 35.6 | 810 | 64.8 | 1,250 |
| >=£7,986 | 10 | 10.0 | 15 | 60.0 | 25 |
| Cyfanswm | **1,725** | **26.4** | **4,820** | **73.6** | **6,545** |

Sylwer: nid yw'r ffigurau'n gwneud cyfanswm bob tro, o ganlyniad i dalgrynnu
Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r pump agosaf. Pan fydd y cyfrif pennau'n llai na phump ond yn fwy na sero, cynrychiolir y ffigurau gan "*".

Ffynhonnell: CBGY, Llywodraeth Cymru

## Cydnabyddiaeth ariannol a thelerau ac amodau ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynwyr ADY)

4.49 Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Deddf ADYTA (Cymru)) yn darparu ar gyfer fframwaith statudol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY.

4.50 O fis Medi 2021, caiff pob dysgwr y nodir o'r newydd bod ganddynt ADY gefnogaeth trwy'r system newydd o gynlluniau datblygu unigol. Bydd disgyblion sydd eisoes yn y system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn trosglwyddo i'r system ADY newydd yn ystod cyfnod o dair blynedd, gan ddechrau gyda'r rheiny sydd ag anghenion isel i gymedrol.

4.51 Mae Deddf ADYTA (Cymru yn creu'r rôl statudol ym mhob ysgol ar gyfer Cydlynydd ADY, y rhagnodir ei rôl mewn rheoliadau. Cyflwynwyd rôl y Cydlynydd ADY ym mis Ionawr 2021 er mwyn i ysgolion baratoi ar gyfer

gweithredu Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (y Cod ADY). Mae paragraff 8.5 y Cod ADY yn datgan " ei bod yn hanfodol bod gan y Cydlynydd ADY amser ac adnoddau digonol i gyflawni ei gyfrifoldebau yn effeithiol, gan gynnwys amser wedi'i neilltuo y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Dylai pennaeth y lleoliad addysg sicrhau bod y Cydlynydd ADY yn cael cefnogaeth, yn hyn o beth." Mae'r Cod ADY yn disgrifio'r rôl ymhellach fel un strategol, ac y dylai naill ai ffurfio rhan o'r uwch dîm arwain neu gael llinell gyfathrebu glir i'r uwch dîm arwain.

4.52 Caiffr Cydlynwyr ADY eu talu ar ystodau cyflog gwahanol, fel y dangosir yn Nhabl 18 isod.

**Tabl 18**
**Cyflogau Cydlynwyr ADY yn ôl ystod cyflog 2023-2024 (wedi'u talgrynnu i'r pump agosaf)**

| Ystod cyflog | Niferoedd |
|---|---|
| Prif Ystod Cyflog | 75 |
| Ystod Cyflog Uwch | 840 |
| Ystod Cyflog Ymarferwyr Arweiniol | 10 |
| Ystod Cyflog Arweinyddiaeth | 535 |
| Arall | * |
| **Cyfanswm** | 1,565* |

* Nid yw'r ffigurau'n gwneud cyfanswm o ganlyniad i dalgrynnu ac oherwydd ffigurau wedi eu hatal o fewn ystod cyflog ymarferwyr arweinwyr ac athrawon heb gymhwyso.

Ffynhonnell: CBGY, Llywodraeth Cymru

4.53 Mae Tabl 19 yn dangos cyflogau cymedrig a chanolrifol Cydlynwyr ADY yn ôl ystod cyflog. Mae'r tabl hwn yn cynnwys Cydlynwyr ADY sydd ar delerau ac amodau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) nad ydynt yn rhan o gylch gwaith CACAC. Mae'r tabl yn dangos yr ystod o gyflogau sy'n gysylltiedig â'r rôl, ond ni all fod yn fanwl gywir oherwydd ni wyddys, er enghraifft, a oes gan y rhai hynny sydd wedi'u categoreiddio o dan arweinyddiaeth ddyletswyddau ychwanegol yn ogystal â bod yn Gydlynwyr ADY.

**Tabl 19**
**Cyflogau cymedrig a chanolrifol Cydlynwyr ADY (£) yn ôl ystod cyflog, 2023-2024**

| Ystod cyflog | Cymedr | Canolrif |
|---|---|---|
| Ystod Cyflog Arweinyddiaeth | £63,051 | £61,547 |
| Ymarferwyr Arweiniol | £62,057 | £61,547 |
| Ystod Cyflog Uwch | £47,059 | £47,340 |
| Prif Ystod Cyflog | £39,957 | £42,466 |
| Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) | £31,223 | £27,012 |
| Arall | * | * |
| Athrawon Heb Gymhwyso | * | * |
| Pob un | £52,311 | £47,340 |

"." = Nid yw’r eitem yn berthnasol.

Mae’r ffigurau wedi’u talgrynnu i’r pump agosaf. Pan fydd y cyfrif pennau’n llai na phump ond yn fwy na sero, cynrychiolir y ffigurau gan "*".

Ffynhonnell: CBGY, Llywodraeth Cymru

4.54 Mae Tabl 20 yn dangos nifer y Cydlynwyr ADY ym mhob ystod cyflog sydd wedi derbyn lwfans yn ystod y flwyddyn. Os yw Cydlynydd ADY ar Ystod Cyflog y Grŵp Arweinyddiaeth (YCGA), fe allai fod wedi derbyn y lwfans CAD/ADY tra roedd mewn rôl flaenorol os oedd wedi symud ystod cyflog yn ystod y flwyddyn. Unwaith eto, nid yw’n glir p’un a ddyfernir lwfansau CAD i Gydlynwyr ADY ar gyfer rôl y Cydlynydd ADY yn unig, neu a yw’r Cydlynwyr ADY yn cyflawni cyfrifoldebau eraill a wobrwyir gan CAD. Mae’r lwfans ADY yn daladwy i athrawon mewn rhai amgylchiadau am addysgu disgyblion ag ADY (o dan amodau a bennir yn DCAAY(C)) ac ni ddylid ei ddefnyddio i roi cydnabyddiaeth ariannol i Gydlynwyr ADY am ddyletswyddau rôl y Cydlynydd ADY.

**Tabl 20**
**Nifer y Cydlynwyr ADY ar bob ystod cyflog sy’n derbyn lwfans, 2022**

| Ystod cyflog | ADY/AAA | CAD 1 | CAD 2 | CAD 3 |
|---|---|---|---|---|
| Ystod Cyflog Arweinyddiaeth | 10 | * | 35 | 5 |
| Ymarferwyr Arweiniol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ystod Cyflog Uwch | 260 | 75 | 525 | 55 |
| Prif Ystod Cyflog | 25 | * | 30 | 5 |
| Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) | * | * | * | 0 |
| Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Athrawon Heb Gymhwyso | * | 0 | 0 | 0 |
| Pob un | 300 | 80 | 595 | 70 |

Mae’r ffigurau wedi’u talgrynnu i’r pump agosaf. Pan fydd y cyfrif pennau’n llai na phump ond yn fwy na sero, cynrychiolir y ffigurau gan "*".

Ffynhonnell: CBGY, Llywodraeth Cymru

# Pennod 5 – Ymatebion Ymgynghori

Mae Pennod 5 yn crynhoi cyflwyniadau ysgrifenedig a thystiolaeth lafar a roddwyd i CACAC gan ymgyngoreion, sy’n mynd i’r afael â’r mater cyntaf ar gyfer argymhelliad yn llythyr cylch gwaith Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

Adroddir ar yr ail fater ar gyfer argymhelliad, sy’n ymwneud ag Amodau Gwasanaeth Arweinwyr, yn yr hydref 2025, ar ôl i’r adroddiad hwn gael ei gyflwyno.

## Ystodau cyflog a lwfansau ar gyfer athrawon ac arweinwyr

**Mater ar gyfer argymhelliad:** “Pa addasiadau y dylid eu gwneud i’r ystodau cyflog a lwfans ar gyfer athrawon dosbarth, athrawon heb gymhwyso, ac arweinwyr ysgolion, i sicrhau bod y proffesiwn addysgu yng Nghymru yn cael ei hyrwyddo a’i wobrwyo er mwyn annog recriwtio a chadw ymarferwyr o ansawdd uchel?”

## Safbwyntiau Llywodraeth Cymru

5.1 Yn ei thystiolaeth, amlygodd Llywodraeth Cymru bedair blaenoriaeth:

- Cymru Iachach
- Swyddi a thwf gwyrdd
- Cyfle i bob teulu
- Cysylltu cymunedau

Nododd fod “gweithwyr y sector cyhoeddus yn allweddol” i gyflawni’r rhain a nododd fod setliad cyflog 2024-2025 yn uwch na chwyddiant trwy gynyddu cyflogau athrawon 5.5%.

5.2 Cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at setliad cyflogau yr awdurdodau lleol ar gyfer 2025-2026, gan esbonio y byddant yn cael £6.1 biliwn o gyllid refeniw craidd ac ardrethi annomestig i’w gwario ar ddarparu gwasanaethau allweddol. Mae’r setliad hwn “yn cyfateb i gynnydd 4.5% neu £262 miliwn ar sail gyfatebol o gymharu â’r flwyddyn bresennol. Rydym wedi buddsoddi arian ychwanegol i sicrhau y bydd pob awdurdod yn cael o leiaf 3.8% yn fwy o gyllid yn ystod 2024-25, ar sail gyfatebol.”

5.3 Dywedodd Llywodraeth Cymru: “Wrth symud ymlaen, mae talu am gost cyflogau athrawon yn rhan o’r cyllid craidd a ddarperir gan awdurdodau lleol fel y’i cefnogir gan y setliad llywodraeth leol. Felly, mae’n rhaid i gynllunio cyllidebol Awdurdodau ystyried y costau hyn. Mae’r cynnydd 4.5% yn y setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2025-26 yn dilyn cynnydd 3.3% yn 2024-25, 7.9% yn 2023-24, a 9.4% yn 2022-23, a ddilynodd y llinell sylfaen. Ystyriwyd bod yr ychwanegiadau blaenorol hyn yn setliadau da; ond nid oeddent yn lliniaru’r pwysau a adroddwyd gan CLILC o ganlyniad i chwyddiant a chynnydd yn y galw.”

5.4 Yn ei chyflwyniad ysgrifenedig, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at yr egwyddor ‘dim niwed’ yn yr ystyr “na ddylai lefelau cyflog athrawon fod yn llai yng Nghymru nag ydynt yn Lloegr.” Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd nad yw’r term hwn wedi cael ei ddiffinio’n ffurfiol, ac awgrymodd y dylid ei ddeall fel “mesur diogelu” yng nghyd-destun gwelliannau ehangach ac amgylchiadau i athrawon yng Nghymru.

5.5 O ran yr egwyddor ‘dim niwed’, amlinellodd Llywodraeth Cymru y cyflogau uwch a’r lwfansau a gynigir yng Nghymru ar hyn o bryd (ac eithrio pwysoliad Llundain), gan gynnwys:

- Bod cyflogau athrawon yng Nghymru o leiaf 1.75% yn uwch na chyflogau athrawon tebyg yn Lloegr.
- Er nad yw’n syml cymharu’n uniongyrchol wrth ystyried pwyntiau graddfa gyflog is, mae’r cyflog cychwynnol yng Nghymru, sef £32,433, 2.47% yn uwch o gymharu â £31,650 ar gyfer athrawon newydd yn Lloegr.
- Mae’r brif ystod cyflog yn cynnwys pum pwynt graddfa yng Nghymru, yn hytrach na chwech yn Lloegr, felly, yn nodweddiadol, mae athrawon newydd yn cyrraedd uchafswm y raddfa ymhen pedair blynedd yn hytrach na phum mlynedd yn Lloegr.

5.6 Darparodd Llywodraeth Cymru brisiadau manwl ar gyfer cynnydd posibl (1%, 2%, a 3%) i gyflogau presennol athrawon ac arweinwyr.

5.7 Nododd Llywodraeth Cymru fod angen cydbwyso fforddiadwyedd, gan ystyried “bod pob cynnydd 1% mewn cyflogau ar gyfer grwpiau’r gweithlu sector cyhoeddus datgnoledig yn costio dros £100m y flwyddyn i Lywodraeth Cymru”, a risgiau canlyniadau anfwriadol: “Pe byddai Llywodraeth Cymru yn ymrwymo cyfran anghymesur o’i hadnoddau refeniw i ariannu codiadau cyflog sector cyhoeddus, byddai hyn yn cael effaith negyddol ar ystod o feysydd eraill o wariant y Llywodraeth, gan gynnwys gwasanaethau a ariennir gan grant y mae’r cyhoedd yn dibynnu arnynt.”

5.8 Cyfeiriodd llythyr eglurhaol Ysgrifennydd y Cabinet, a gyflwynwyd gyda thystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, at yr angen am “ddyfarniad cyflog sy’n ystyriol o’r sefyllfa ariannol anodd sy’n wynebu Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion, ar yr un pryd â chaniatáu ar gyfer gwobrwyo ymarferwyr presennol yn addas a sicrhau bod addysgu yng Nghymru yn parhau i ddenu digon o newydd-ddyfodiaid o ansawdd uchel i fodloni anghenion y dyfodol.”

5.9 Yn ei thystiolaeth, amlinellodd Llywodraeth Cymru y sefyllfa economaidd bresennol yng Nghymru, y Deyrnas Unedig, ac yn fyd-eang, gan amlygu bod “economi’r Deyrnas Unedig wedi aros yn ddigyfnewid, i bob pwrpas, am dair blynedd o safbwynt Cynnyrch Domestig Gros (GDP) cyfanredol, ac wedi dirywio o safbwynt GDP fesul unigolyn.” Ailadroddodd ei hymrwymiad i wneud

Cymru yn genedl gwaith teg, er gwaethaf yr angen i “reoli arian cyhoeddus yn ofalus.”

5.10 Yn ei thystiolaeth lafar, cydnabu Llywodraeth Cymru fod recriwtio i AGA, yn enwedig mewn meysydd pwnc blaenoriaeth, yn “fater difrifol i ni geisio mynd i’r afael ag ef gyda’n partneriaethau a’n hysgolion.” Yn ogystal, mynegodd bryderon ynglŷn â chyfraddau cadw, yn enwedig ANG o fewn y pum mlynedd cyntaf.

5.11 Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn ymwybodol bod hyblygrwydd yn ystyriaeth bwysig i gadw athrawon ac awgrymodd y gellid mynd i’r afael â hyn trwy fwy o gydweithio o fewn y sector addysg. Nododd ei bwriad i fwrw ymlaen â’r Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg mewn partneriaeth â CLILC ac undebau.

5.12 Amlinellodd Llywodraeth Cymru mai un o’r ffactorau sy’n cyfrannu at atal athrawon rhag dod yn benaethiaid yw’r llwyth gwaith, ochr yn ochr â chyflog a ffactorau eraill, gan nodi “rydym eisiau cael y sgyrsiau hyn [ynglŷn â chamu ymlaen i swyddi pennaeth] gydag awdurdodau lleol i ddeall cynllunio ar gyfer olyniaeth.”

5.13 Amlygodd tystiolaeth fod yr heriau sy’n ymwneud â recriwtio athrawon yn gymhleth ac nad ydynt yn unigryw i Gymru, gan nodi bod hyn yn “faes blaenoriaeth a rennir” gyda phartneriaid rhyngwladol. Nodwyd pwysigrwydd cynyddu’r gwerth a’r parch a ddangosir i’r proffesiwn addysgu yn y cyfryngau a chymdeithas ehangach. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu mynd i’r afael â rhai o’r materion hyn trwy’r Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg, sydd i ddod.

5.14 Dywedodd Llywodraeth Cymru y dylid gwneud mwy o waith i adrodd ar gyflog cyfartal o ran rhywedd, gan nodi “dylai adroddiadau ar y bwlch cyflog rhywedd gael eu cynhyrchu’n flynyddol yn unol â dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus Cymru. Dylai trefniadau adrodd amlygu’r gwahaniaeth mewn enillion rhwng dynion a menywod a’r camau sy’n cael eu cymryd i fynd i’r afael â’r rhwystrau sy’n atal menywod rhag camu ymlaen i rolau uwch.”

## Safbwyntiau ymgyngoreion

### Cynnydd mewn cyflogau a lwfansau

5.15 Cyfeiriodd CLILC at yr heriau ariannol sy’n wynebu awdurdodau lleol ledled Cymru a mynegodd bryderon ynglŷn ag effaith unrhyw addasiadau i gyflogau a lwfansau yn uwch na’r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer. Dywedodd “Mae’n rhaid i unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i unrhyw newidiadau i gyflogau a DCAAY(C) fel offeryn statudol, boed hynny’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, gael eu hariannu’n llawn yn barhaus gan Lywodraeth Cymru.” Amlygodd hefyd fod perygl “canlyniadau anfwriadol” pe na fyddai addasiadau i ddyfarniadau cyflog yn cael eu hystyried yn llawn. Yn ei sesiwn tystiolaeth lafar, eglurodd CLILC y gallai canlyniadau anfwriadol gynnwys

dileu swyddi, gwahaniaethau rhwng dyfarniadau cyflog ar draws staff eraill awdurdodau lleol, ac effeithiau ar gyllidebau a gwasanaethau ehangach awdurdodau lleol.

5.16 Er hynny, roedd yr holl ymgyngoreion o'r farn bod cynnydd mewn cyflogau yn briodol i fodloni gofynion recriwtio a chadw ac i gydnabod rolau hanfodol athrawon. Dadleuodd NEU Cymru "nid yw'r cyfraddau cyflog presennol yn adlewyrchu sgiliau a gofynion addysgu yn deg'" Dadleuodd y rhan fwyaf dros godiad cyflog uwch na chwyddiant, wedi'i ariannu'n llawn a roddir yn gyfartal i'r holl athrawon ac arweinwyr ysgolion. Cyfeiriodd sawl ymgynghorai at y gostyngiad termau real mewn cyflogau athrawon ers 2010. Dywedodd NEU Cymru "y bydd athro a ddechreuodd weithio yn 2010 ac a ddatblygodd i fyny'r raddfa gyflog yn y modd arferol wedi colli dros £90,000 mewn termau real [gan ddefnyddio'r RPI] erbyn diwedd y flwyddyn academaidd bresennol." Cyfeiriodd llawer o ymgyngoreion at gyd-destun economaidd ehangach chwyddiant uchel a phrisiau tai sy'n codi.

5.17 Awgrymodd ASCL y dylai'r dyfarniad cyflog gael ei ffurfio o dair elfen; "Ychwanegiad sy'n cyd-fynd â'r RPI o leiaf; Cyfran tuag at adfer toriadau termau real ers 2010; Cyfran i wneud iawn am y diffyg cyfleoedd i weithio'n hyblyg sydd ar gael yn y proffesiwn." Cynigiodd NAHT dri 'phrawf' hefyd i sicrhau bod pob ychwanegiad yn y dyfodol "yn uwch na setliadau cyflog cyfartalog ar draws yr economi ehangach; yn uwch na chyfradd chwyddiant flynyddol y CPI; a hefyd, yn ychwanegu 3.5% arall at yr holl gyflogau a lwfansau a delir bob blwyddyn."

5.18 Amlinellodd NASUWT bum cynnig: "dyfarniad cyflog uwch na chwyddiant (RPI), aml-flwyddyn; cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i alluogi pob ysgol i weithredu'r dyfarniad cyflog yn llawn; dileu cymhwyso trothwy ac ailenwi U1-U3 yn M7-M9; dileu darpariaethau oriau gwaith digyfyngiad yn DCAAY(C); ac adrodd ar y bwlch cyflog yn flynyddol, gyda chynlluniau gweithredu cysylltiedig i'w cyhoeddi gan gyflogwyr ynglŷn â rhywedd a hil."

5.19 Community Cymru oedd yr unig ymgynghorai i wneud argymhelliad penodol ar gyfer ychwanegiad cyflog, gan alw am ychwanegiad 7%.

5.20 Argymhellodd UCAC, NASUWT, NEU Cymru, a Community Cymru y dylai cyfrifiadau yn ymwneud â chwyddiant gael eu seilio ar y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI), yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), oherwydd eu bod yn credu bod yr RPI yn adlewyrchiad tecach a mwy cywir o gostau byw. Dadleuodd NASUWT fod "yr RPI yn fynegai gwirioneddol o gostau byw, gan ei fod yn mesur y newid i'r gwariant lleiaf gan aelwydydd sy'n angenrheidiol i gynnal safon benodol o fyw." Nododd yr ymgyngoreion fod yr RPI yn dangos lefel uwch o chwyddiant yn gyffredinol; er enghraifft, ym mis Hydref 2024, mesurodd yr RPI chwyddiant ar 3.4%, ond fe'i mesurwyd ar 2.3% gan y CPI.

5.21 Mewn ymgynghoriadau llafar, gofynnodd CACAC i sawl ymgynghorai am eu safbwyntiau ynglŷn â'r posibilrwydd o ddyfarniad cyflog aml-flwyddyn. Awgrymodd rhai ymgyngoreion, gan gynnwys NASUWT, fod angen

codiadau cyflog uwch na chwyddiant dros “gyfnod parhaus” i adfer y gostyngiad termau real mewn cyflogau ers 2010.

5.22 Roedd llawer o’r ymgyngoreion yn cefnogi dyfarniad cyflog aml-flwyddyn, mewn egwyddor. Fodd bynnag, mynegodd Community Cymru bryder y gallai hyn fod yn agored i ansefydlogrwydd economaidd pellach. Awgrymodd Community y dylai unrhyw ddyfarniad cyflog aml-flwyddyn fod yn hyblyg a chael ei ailagor i ymateb i ddatblygiadau economaidd arwyddocaol, fel chwyddiant sy’n cynyddu’n uwch na’r gyfradd a ragfynegwyd.

5.23 Dadleuodd NAHT “fod angen pellter clir rhwng yr ystodau cyflog ar gyfer arweinyddiaeth ysgol ac addysgu. Mae hyn yn fesur pwysig i helpu i warchod cyflogau arweinwyr, i ganiatáu ar gyfer eu gwahaniaethu oddi wrth gyflogau athrawon a’u cynyddu, ac, yn bwysig, i roi lle i ddangos datblygiad.”

5.24 Galwodd yr ymgyngoreion am fwy o eglurder a chysondeb ynglŷn â lwfansau ar gyfer Ystodau Cyflog Uwch (YCUau), Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu (CADau), ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Dywedodd Community Cymru “mewn llawer o ysgolion, mae tasgau ychwanegol a llwyth gwaith uwch yn ddisgwyliad ar gyfer ‘athrawon YCU’. Nid dyna’r bwriad gwreiddiol.” Nododd Community Cymru hefyd nad oes gan rai ysgolion llai o faint ddigon o arian i ddarparu lwfansau CAD ac ADY, sy’n golygu bod athrawon yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol heb dâl priodol.

5.25 Dywedodd Community Cymru y byddai’n “gweld rhywfaint o werth mewn ailystyried y ddwy raddfa gyflog a’r posibilrwydd o gyfuno’r Brif Raddfa Gyflog a’r Raddfa Gyflog Uwch.” Dadleuodd “byddai hyn yn dileu rhwystr trothwy, sydd braidd yn artiffisial, ac yn agor pen uchaf y raddfa gyflog i’r holl athrawon dosbarth, gan helpu i gadw profiad. Fe allai hefyd gyflwyno strwythur gyrfa mwy deniadol i ddarpar athrawon ac athrawon presennol.”

5.26 Yn yr un modd, galwodd NEU Cymru am “un raddfa gyflog chwe phwynt orfodol ar gyfer athrawon dosbarth i ddisodli’r Brif Raddfa Gyflog a’r Raddfa Gyflog Uwch ar wahân. Gallai datblygiad ar y raddfa gyflog fyrrach hon fod yn awtomatig i adlewyrchu caffael profiad ac arbenigedd.” Awgrymodd fod “athrawon ar y Raddfa Gyflog Uwch yn aml yn cael eu rhoi dan bwysau digyfiawnhad i ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol heb dâl dim ond oherwydd eu bod ar y Raddfa Gyflog Uwch. Mae hyn yn gwbl amhriodol ac yn tramgwyddo egwyddor allweddol o werthfawrogi’n briodol addysgu yn yr ystafell ddosbarth ynddo’i hun, gyda thaliadau ar wahân i gydnabod cyfrifoldebau ychwanegol yr ymgymerir â nhw.”

5.27 Er nad oedd tâl Cydlynwyr ADY yn fater ar gyfer argymhellion, cyfeiriodd sawl ymgynghorai at bwysau cynyddol ar Gydlynwyr ADY yn gysylltiedig â’r llwyth gwaith a lefel yr anghenion ymhlith dysgwyr. Cynigiwyd y dylai’r cyfrifoldebau ychwanegol sy’n gysylltiedig â hyn dderbyn sylw trwy gydnabyddiaeth ariannol briodol neu strwythur rôl. Mae’n anodd cadarnhau tueddiadau mewn mynychder ADY oherwydd bod trothwyon a meini prawf wedi newid ers cyflwyno Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021. Mae data cyfrifiad ysgolion yn dangos gostyngiad yng nghyfran y dysgwyr ag

AAA neu ADY mewn ysgolion a gynhelir o 13.4% ym mis Ionawr 2023 i 11.2% ym mis Ionawr 2024. Fodd bynnag, mae cyfran y dysgwyr ag ADY sydd â Chynllun Datblygu Unigol (CDU) wedi cynyddu o 16.6% i 40.9% yn ystod yr un cyfnod (Llywodraeth Cymru, 2024).

## Effaith cyflog ar recriwtio a chadw

5.28 Cyflwynodd sawl ymgynghorai dystiolaeth ynglŷn â heriau recriwtio a chadw athrawon yng Nghymru, yn enwedig ar lefel uwchradd ac mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac mewn pynciau penodol fel mathemateg, gwyddoniaeth, a TGCh. Nodwyd y bu 'cynnydd mawr' mewn recriwtio athrawon ar ôl COVID, ond bod hyn wedi darfod, ac nad yw llawer o gyrsiau AGA yn cyflawni eu dyraniadau bellach. Cyfeiriodd ymgyngoreion at y gostyngiad mawr yn nifer y myfyrwyr sy'n dechrau cyrsiau AGA ar lefel uwchradd, sydd wedi gostwng 34% ers 2021/22 a bron hanner ers 2014.

5.29 Roedd y rhan fwyaf o'r ymgyngoreion o'r farn bod cyflogau'n gwaethygu'r heriau hyn. Amlygodd NASUWT fod "yr argyfwng costau byw parhaus a newidiadau cymdeithasol ers y pandemig wedi effeithio ar fywydau gwaith athrawon ac arweinwyr ysgolion. Yn Arolwg Blynyddol NASUWT, roedd 82% o'r ymatebwyr yn pryderu am eu sefyllfa ariannol."

5.30 Dadleuodd NAHT fod angen ymagwedd gyfannol i fynd i'r afael â'r mater hwn, gan ddatgan, "mae cysylltiad annatod rhwng recriwtio a chadw: mae'n rhaid i unrhyw fuddsoddiad sy'n cynnig cymhellion i ddenu recriwtiaid i faes addysgu gael ei gyfateb gan fuddsoddiad parhaus tebyg i gadw athrawon ac arweinwyr yn y system ar bob cam o'u gyrfa."

5.31 Cyflwynodd sawl ymgynghorai dystiolaeth fod cyflogau athrawon yn gynyddol anghystadleuol o gymharu â phroffesiynau eraill i raddedigion, yn enwedig yn y sector preifat. Yn fwy cyffredinol, nodwyd bod cyflogau'n tyfu'n arafach yn y sector cyhoeddus na'r sector preifat. Dyfynnwyd ffigurau'r ONS, sy'n dangos bod enillion cyfartalog cyflogeion yn y sector preifat wedi cynyddu 37% ers 2010, tra bod enillion wythnosol cyfartalog cyflogeion yn y sector cyhoeddus wedi cynyddu 31% yn unig. Cyflwynodd NASUWT dystiolaeth fod cyflogau athrawon wedi tyfu'n arafach na gweithwyr sector cyhoeddus eraill. Amlygodd fod cyflogau athrawon (yn seiliedig ar bwynt uchaf y brif ystod cyflog) wedi cynyddu 40.1% rhwng 2010 a 2024, o gymharu â chyfanswm enillion cyfartalog cyflogeion yn y sector cyhoeddus, a oedd wedi cynyddu 43.7%. Nododd NEU Cymru hefyd fod cyflogau athrawon yng Nghymru yn is nag yn yr Alban.

5.32 Nodwyd mewn tystiolaeth lafar nad oes llawer o dystiolaeth o gyfraddau cyflog graddedigion yng Nghymru yn benodol. Fodd bynnag, awgrymodd NASUWT y dylid deall cyflogau yng Nghymru yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig ehangach, gan fod cymudo neu symud i Loegr ar gyfer gwaith yn gyffredin ymhlith graddedigion o Gymru.

5.33 Dadleuodd ASCL fod "cyfraddau gadael uchel yn y proffesiwn, yn enwedig ymhlith athrawon newydd, o ganlyniad i ddatblygiad cyflog gwan, llwyth gwaith gormodol a lles gwael."

5.34 Roedd cyfraddau gadael uchel ymhlith athrawon newydd gymhwyso yn achos pryder arbennig. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod 28.5% o athrawon yn gadael y proffesiwn o fewn y pum mlynedd cyntaf, a bod 50% o'r boblogaeth addysgu dros 50 oed. Dywedodd ASCL fod hyn yn "'drychineb sydd ar fin digwydd' o safbwynt strwythur cyflogaeth." Cyflwynwyd tystiolaeth sy'n dangos pan fydd athrawon yn aros yn y proffesiwn am bum mlynedd, mae'r risg y byddant yn gadael yn lleihau, sy'n awgrymu y dylid cymryd camau i gymell ANG i gyrraedd y trothwy hwn.

5.35 Amlygodd NASUWT effaith gronnol gostyngiadau i gyflogau mewn termau real ers 2012. Dywedodd NASUWT fod "athrawon sydd wedi aros yn y proffesiwn ers 2010/11 ar eu colled o rhwng £43,424 a £339,163 yn 2024/25 o ganlyniad i effaith gyfunol cynnydd i gyfraniadau pensiwn athrawon a thoriadau cyflog sylweddol mewn termau real." Mynegodd NEU Cymru bryder ynglŷn â faint o athrawon iau sy'n optio allan o bensiwn, a waethygir gan gyfraddau treth ymylol uchel.

5.36 Amlygodd yr holl ymgyngoreion fod y mater yn amlweddog ac na allai dyfarniadau cyflog yn unig fynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw athrawon. Heblaw am gyflog, y ffactor a nodwyd fwyaf sy'n effeithio ar recriwtio a chadw oedd llwyth gwaith. Cyfeiriwyd hefyd at heriau canfyddedig yn gysylltiedig ag ymddygiad dysgwyr a rôl gynyddol ysgolion wrth gynorthwyo dysgwyr a theuluoedd fel rhwystrau cynyddol arwyddocaol rhag recriwtio a chadw. Dadleuodd yr ymgyngoreion fod angen mwy o ymdrech i wneud y proffesiwn yn fwy atyniadol mewn cyd-destun lle mae gyrfaoedd eraill yn cynnig mwy o hyblygrwydd a chydbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith.

5.37 Disgrifiodd NAHT y sefyllfa hon fel "cyfuniad cymhleth o gyflog a datblygiad cyflog annigonol, llwyth gwaith sydd heb dderbyn sylw, diffyg gwasanaethau cymorth allanol a ariennir yn briodol, ac atebolrwydd lle mae llawer yn y fantol sydd wedi cyfuno i wneud addysgu'n gymharol anneniadol i newydd-ddyfodiaid a'r rhai sydd eisoes yn gweithio yn y proffesiwn." Dywedodd CLILC hefyd yn ei chyflwyniad ysgrifenedig, "credir yn gryf bod recriwtio a dethol yn amlweddog a bod ystodau cyflog a lwfansau yn un rhan yn unig o hynny."

5.38 Cyfeiriodd NEU Cymru at sawl ffactor sydd wedi arwain at yr hyn y mae'n ei ddisgrifio fel llwyth gwaith "ar lefel ddigynsail" ar gyfer athrawon yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno Cwricwlwm newydd i Gymru ers 2022 a newidiadau i strwythurau arweinyddiaeth. Mynegodd bryder nad yw Llywodraeth Cymru wedi gweithredu argymhellion 18, 19, ac 20 o adolygiad strategol CACAC, sy'n ymwneud â llwyth gwaith. Croesawodd NAHT ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun strategol ar gyfer y gweithlu addysg a chynigiodd fod y gwaith hwn yn cael ei flaenoriaethu.

## Egwyddorion ar gyfer dyfarniadau cyflog

5.39 Roedd sawl ymgynghorai (UCAC, ASCL, NAHT, NASUWT, NEU Cymru) yn anfodlon bod Llywodraeth Cymru wedi cynnwys fforddiadwyedd yn ei

chyflwyniad i'r Adolygiad, oherwydd eu bod yn credu bod hyn yn fater gwleidyddol sydd y tu hwnt i gylch gwaith argymhellion yr Adolygiad. Dywedodd NASUWT "os nad yw argymhellion CACAC o fewn cyllideb ddyranedig Llywodraeth Cymru, mater i'r Llywodraeth yw blaenoriaethu, yn hytrach na gosod terfyn blaenorol ar uniondeb yr ymarfer."

5.40 Cyfeiriodd rhai ymgyngoreion at ddiffyg cysondeb canfyddedig yn y dehongliad o'r egwyddor 'dim niwed'. Mynegodd ASCL bryder bod tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at 'gyflogau athrawon' yn unig, ac nid elfennau eraill o gyflog ac amodau. Awgrymodd ASCL fod diffiniad Llywodraeth Cymru (a amlinellir ym mharagraff 5.4) wedi cael ei fynegi'n wahanol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac nad yw'n ymddangos yn ddigon eang i gyfleu dealltwriaeth lawn ASCL o'r ymrwymiad dim niwed. Dyfynnodd ASCL ohebiaeth gan Weinidogion blaenorol o blaid diffiniadau gwahanol.

5.41 Dadleuodd NASUWT ymhellach na ddylai'r egwyddor hon olygu bod Llywodraeth Cymru yn cael ei harwain yn syml gan San Steffan o ran cyflog ac amodau, gan ddadlau "gwir y mater hwn i athrawon yng Nghymru fu ymestyn cyni Llywodraeth San Steffan i gyflogau athrawon yng Nghymru."

5.42 Nododd NEU Cymru fod athrawon ar yr Ystod Cyflog Uwch yn cael eu hystyried ar gyfer datblygiad bob dwy flynedd yn unig yng Nghymru, yn wahanol i bob blwyddyn yn Lloegr, a dadleuodd fod hyn yn groes i'r egwyddor 'dim niwed'.

5.43 Cytunodd ymgyngoreion â'r egwyddor y dylai pob cynnydd i ddyfarniadau cyflog athrawon gael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru, er mwyn osgoi baich ariannol ychwanegol ar ysgolion neu awdurdodau lleol.

## Anghydraddoldeb cyflog yn y proffesiwn addysgu

5.44 Darparodd NASUWT dystiolaeth fod y cyflog cyfartalog ar gyfer athrawon gwrywaidd yn 2023/24 4.8% yn uwch (sef £49,467) nag ar gyfer athrawon benywaidd (£47,085). Ysgogwyd hyn gan wahaniaethau ar y lefel arweinyddiaeth, yn enwedig ar gyfer penaethiaid, lle mae'r bwlch cyflog yn 7.7%.

5.45 Cyfeiriodd NEU Cymru a Community Cymru hefyd at wahaniaethau mewn Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu (CADau). Nodwyd "anghydbwysedd rhywedd o ran tâl CAD, yn enwedig ar gyfer taliadau CAD1. Mae llai nag un o bob pum athro mewn ysgolion meithrin a chynradd yn cael CAD, o gymharu â rhyw 45% o athrawon mewn ysgolion uwchradd."

5.46 Nodwyd bod diffyg eglurder ynglŷn â chludadwyedd cyflog a lwfansau CAD yn cael effaith anghymesur ar fenywod, sy'n fwy tebygol o weithio'n rhan-amser. Dywedodd NEU Cymru yn ei gyflwyniad ysgrifenedig fod "menywod yn debygol o ddioddef gwahaniaethu annheg o ran cludadwyedd cyflog. Nid yw'r ddogfen yn ymdrin yn glir â'r rhai hynny sy'n derbyn gwaith mwy hyblyg, er enghraifft, cyflenwi, tra'u bod yn cyflawni cyfrifoldebau gofalu." Aeth

ymlaen i ddweud bod y system lwfansau CAD ac ADY bresennol yn “aneglur ac annheg” a galwodd am arweiniad cryfach a mwy eglur. Er bod DCAAY(C) yn caniatáu i athrawon rhan-amser gael lwfans CAD llawn, dangosodd cyflwyniadau nad oedd cyrff llywodraethu’n llwyr ddeall hyn, a’u bod yn parhau i gredu bod CAD yn cael ei ddyrannu ar sail pro rata ar gyfer athrawon rhan-amser. Gofynnodd yr ymgyngoreion i CACAC egluro hyn ymhellach er mwyn osgoi perygl diffyg cydymffurfio.

5.47 Cyflwynodd NASUWT dystiolaeth ychwanegol o astudiaeth a gomisiynodd gan Brifysgol Warwig fod “athrawon du yn cael llai o dâl na’u cydweithwyr gwyn, a’u bod yn fwy tebygol o gael eu cyflogi mewn swyddi dros dro, yn llai tebygol o gael dyrchafiad, ac yn fwy tebygol o gael eu disgyblu neu eu diswyddo.” Amlygodd NASUWT hefyd fod athrawon du yn wynebu “gwahaniaethu hiliol cudd ac agored ar hyd eu gyrfa.” Nododd fod rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud i recriwtio mwy o fyfyrwyr Du, Asiaidd, ac Ethnig Leiafrifol i raglenni AGA, ond pwysleisiodd fod angen gwneud mwy o waith ar bob cam o’r proffesiwn.

5.48 Amlygodd NEU Cymru “anghydraddoldebau cyflog sylweddol sy’n deillio o ddiffyg tegwch wrth drin athrawon a gymhwysodd yn y Deyrnas Unedig ac athrawon a gymhwysodd dramor”, gan fod y rhai hynny a gymhwysodd dramor yn cael eu talu “£10,000 yn llai na’u cydweithwyr ar gyfartaledd am wneud yr un gwaith (h.y., oherwydd eu bod yn cael eu talu ar y Raddfa Gyflog Athrawon Heb Gymhwyso er eu bod yn gymwysedig ac yn gwneud gwaith athro cymwysedig).” Nodwyd diffyg tryloywder, oherwydd “ni roddir manylion iddynt am ba mor anodd/araf yw’r llwybr tuag at Statws Athro Cymwysedig (SAC), a rhoddir addewid iddynt yn aml y bydd eu hysgolion yn noddi eu llwybr tuag at SAC dim ond i wynebu esgusodion am yr oedi.”

5.49 Amlygodd Community Cymru wahaniaeth arall mewn cyflogau oherwydd bu’n rhaid i athrawon iau gymryd benthyciadau myfyrwyr mawr i dalu am ffioedd uwch ers 2012. Roedd ad-dalu benthyciadau myfyrwyr yn golygu y byddai eu cyflog clir yn is na chydweithwyr a ddechreuodd flwyddyn yn unig yn flaenorol. Nododd NEU Cymru “mae’r gyfradd dreth ymylol sy’n wynebu athrawon ifanc yn y 40au y cant canol: treth incwm cyfradd sylfaenol o 20%, Yswiriant Gwladol o 8%, ad-daliadau benthyciad myfyrwyr o 9%, a chyfraniadau pensiwn cyflogai o naill ai 7.4% neu 8.9% (o fis Ebrill 2025) ar leiafswm y Brif Raddfa Gyflog”. Nodwyd bod hyn yn achosi i nifer fawr optio allan o bensiwn, a fydd yn effeithio ar anghydraddoldeb yn ddiweddarach. Awgrymwyd ad-dalu benthyciadau myfyrwyr ar gyfer athrawon sy’n aros yn y proffesiwn am bum mlynedd fel mesur lliniaru posibl i fynd i’r afael â chyfradd gadael ANG.

5.50 Galwodd sawl ymgynghorai am welliannau o ran casglu data a thryloywder o ran cydraddoldeb ar lefel genedlaethol, awdurdod lleol, ac ysgol. Nododd NEU Cymru: “Byddai’n arfer da i ysgolion sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i gynrychiolwyr undebau ac athrawon, fel bod penderfyniadau ar gyflogau’n dryloyw ac y gellir eu herio.”

## Gweithredu Adolygiad Strategol CACAC

5.51 Dywedodd sawl ymgynghorai ei bod yn anffodus nad oedd Llywodraeth Cymru wedi bwrw ymlaen â gweithredu'r argymhellion a wnaed yn adolygiad strategol CACAC o strwythur cyflog ac amodau athrawon ac arweinwyr yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2024.

## Y broses ymgynghori ar gyfer Cylch Gwaith CACAC 2025

5.52 Roedd sawl ymgynghorai yn anfodlon neu'n siomedig ynglŷn â'r oedi cyn cyhoeddi'r llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru. Mynegwyd rhwystredigaeth bellach ynglŷn â'r cyfnod byr a roddwyd i ymgyngoreion ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ar ôl i'r llythyr cylch gwaith gael ei gyhoeddi. Yn ogystal, mynegodd NAHT a NEU Cymru bryder bod y llythyr cylch gwaith hwn yn fyrrach a bod nifer sylweddol lai o faterion ar gyfer argymhelliad.

# Pennod 6 – Casgliadau ac Argymhellion

## Cefndir

6.1 Wrth ymateb i’r Llythyr Cylch Gwaith gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, mae’r adroddiad hwn yn mynd i’r afael â’r mater cyntaf ar gyfer argymhelliad: “Pa addasiadau y dylid eu gwneud i’r ystodau cyflog a lwfans ar gyfer athrawon dosbarth, athrawon heb gymhwyso ac arweinwyr ysgolion, i sicrhau bod y proffesiwn addysgu yng Nghymru yn cael ei hyrwyddo a’i wobrwyo er mwyn annog recriwtio a chadw ymarferwyr o ansawdd uchel.” Nid yw’n cyfeirio at amodau gwasanaeth arweinwyr, sy’n derbyn sylw ar wahân.

6.2 Mae’n rhaid i gyflog gael ei ystyried yn un rhan o becyn ehangach sy’n annog recriwtio a chadw ymarferwyr o ansawdd uchel yn y proffesiwn addysgu.

6.3 Gwnaeth adolygiad strategol CACAC o gyflog ac amodau athrawon, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2024, 26 o argymhellion ar gyfer camau gweithredu tymor byr a thymor hir. Bwriadwyd i’r argymhellion hyn gael eu gweithredu fel “pecyn” i gyd-fynd â diwygiadau addysgol ehangach, yn ogystal â’r cyd-destun economaidd a chymdeithasol. Roedd yr adolygiad strategol yn cynnwys llinell amser ar gyfer gweithredu (sydd wedi’i hatodi yn Atodiad C). Yn ei datganiad ysgrifenedig a ymatebodd i’r adolygiad strategol, derbyniodd Ysgrifennydd y Cabinet yr holl argymhellion, mewn egwyddor. Fodd bynnag, nododd fod ystyriaethau ariannol yn golygu mai dim ond argymhellion a oedd yn niwtral o ran costau neu’n gallu cael eu cyflawni trwy gyllidebau presennol fyddai’n cael eu gweithredu yn y tymor byr i’r tymor canolig.

6.4 Rydym yn pryderu ynglŷn â faint o gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi’i wneud hyd yma wrth weithredu’r argymhellion hyn. O’r 26 o argymhellion, gwnaed y cynnydd canlynol ar yr adeg ysgrifennu:

- Gweithredu’n llawn: argymhellion 12, 13, 14, 15, a 21, ar newidiadau i DCAAY(C) yn gysylltiedig â CAD.
- Gweithredu’n rhannol: argymhelliad 24, ar ail-lunio DCAAY(C).
- Yn destun trafodaeth: argymhelliad 26, ar adolygu trefniadau monitro ac adrodd ar ddeddfwriaeth cydraddoldebau ar lefel ysgol ac awdurdod lleol.

Mae hyn yn gadael 19 o argymhellion na wnaed unrhyw gynnydd arnynt.

6.5 Mae CACAC yn annog Llywodraeth Cymru i gytuno ar linell amser a chynllun gweithredu ar gyfer argymhellion yr adolygiad strategol sy’n weddill, fel y nodwyd yn llythyr cylch gwaith Ysgrifennydd y Cabinet eleni. Mae CACAC o’r farn bod rhaid i unrhyw addasiad i gyflogau a lwfansau a wneir ar gyfer 2025-26 gael ei weithredu ochr yn ochr ag argymhellion yr adolygiad

strategol sy'n weddill, a mynd i'r afael â materion eraill a godwyd gan ymgyngoreion. Heb ymagwedd o'r fath, byddem yn pryderu na ellir gwneud cynnydd ystyrlon i ddenu, recriwtio a chadw athrawon ac arweinwyr o ansawdd uchel yng Nghymru.

## Addasiadau i'r ystodau cyflog a lwfansau ar gyfer athrawon ac arweinwyr yng Nghymru

**ARGYMHELLIAD 1**

Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru fod yr holl gyflogau a lwfansau'n cael eu cynyddu 4.8% o fis Medi 2025.

6.6 Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y byddai'r cynnydd hwn yn costio £90,545,995. Mae addasiadau cyflog arfaethedig wedi'u cynnwys yn Atodiad Ch.

6.7 Llywiwyd yr argymhelliad hwn gan ystod eang o dystiolaeth a data, sy'n ymestyn y tu hwnt i gyflogau, a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn drwyddo draw, ac a grynhoir isod. Mae CACAC wedi pwyso a mesur y ffactorau hyn wrth ddatblygu argymhelliad sydd wedi'i seilio ar ystyried atynioldeb cyffredinol gyrfa ym maes addysgu, a phwysigrwydd sicrhau ei fod yn broffesiwn â statws uchel.

6.8 Ystyriwyd ffactorau ehangach yn ymwneud â'r economi a'r farchnad lafur, yn arbennig chwyddiant a thwf cyflogau. Yn seiliedig ar ragolwg yr OBR, "Rhagwelir y bydd chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn codi o 2.5 y cant yn 2024 i 3.2 y cant yn 2025, ond yna gostwng yn gyflym i darged o oddeutu 2.0 y cant o ganol 2026 ymlaen. Disgwylir i chwyddiant CPI misol gyrraedd brig o oddeutu 3.8 y cant ym mis Gorffennaf 2025."

6.9 Yn seiliedig ar y data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer enillion cyfartalog, ar gyfer y cyfnod o fis Tachwedd 2024 i fis Ionawr 2025, tyfodd enillion rheolaidd cyfartalog blynyddol 5.9% ar draws yr economi, yn berthynol i'r un cyfnod o dri mis flwyddyn yn gynt. Y ffigur oedd 6.1% ar gyfer y sector preifat, ond 5.3% ar gyfer y sector cyhoeddus.

6.10 Mae cyflogau gwirioneddol athrawon ac arweinwyr wedi dirywio ers 2010; codwyd hyn gan lawer o ymgyngoreion. Yn seiliedig ar ddadansoddiad gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, ym mis Medi 2023, roedd enillion cyfartalog athrawon ac arweinwyr 9% yn is na lefelau mis Ebrill 2010 ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant CPI. Ers yr adeg honno, gwnaed dyfarniad cyflog 5.5%, a bu chwyddiant CPI pellach o 3.4% (ym mis Mawrth 2025). Mae hyn yn golygu bod y bwlch yn lleihau, ond mae cyflogau athrawon ac arweinwyr yn parhau i fod yn is na lefelau mis Ebrill 2010 mewn termau real.

6.11 Ochr yn ochr â chyflog, amlygodd ymgyngoreion bryderon cynyddol ynglŷn â statws y proffesiwn addysgu, ac amodau gwasanaeth yng Nghymru.

Cyfeiriwyd yn aml at y llwyth gwaith uchel, a waethygir gan lefel y newidiadau yn sgil yr agenda ddiwygio ar draws polisi addysg yng Nghymru.

6.12 Roedd materion ychwanegol yn cynnwys heriau yn gysylltiedig ag ymddygiad ac anghenion dysgwyr, rôl gynyddol amlweddog athrawon ac arweinwyr, a'r cyfleoedd cyfyngedig i weithio'n hyblyg o gymharu â phroffesiynau eraill. Ystyriwyd bod yr holl ffactorau hyn yn effeithio fwyfwy ar les athrawon ac arweinwyr, a statws cyffredinol y proffesiwn mewn cymdeithas.

6.13 Mae pryderon ynglŷn â recriwtio a chadw athrawon yn cyd-fynd yn agos â'r materion uchod. Cyfeiriwyd at y rhain yn helaeth gan ymgyngoreion, ac mae data yn cefnogi'r angen i fynd i'r afael â nhw ar frys.

6.14 O ran recriwtio i'r sector, er bod mwy o geisiadau na lleoedd sydd ar gael o hyd ar gyfer AGA ar y lefel gynradd, ceir diffyg parhaus sy'n gwaethygu ar y lefel uwchradd. Recriwtiwyd i draean o ddyraniadau AGA uwchradd yn unig yn 2024-2025. Mae problemau'n arbennig o amlwg mewn rhai meysydd blaenoriaeth ac yn y sector cyfrwng Cymraeg. Mae heriau recriwtio'n parhau yn y gweithlu addysgu, yn enwedig ar y lefel uwchradd. Roedd yr heriau'n fwy mewn rhai pynciau, unwaith eto, fel swyddi uwchradd Cymraeg iaith gyntaf. Roedd ardaloedd mwy gwledig ac anghysbell yn wynebu mwy o broblemau recriwtio, hefyd. Yn ogystal, mae cyfran nodedig o athrawon uwchradd sy'n addysgu y tu allan i'r maes pwnc y cawsant eu hyfforddi ynddo, yn enwedig mewn pynciau gwyddonol.

6.15 Yn gyfochrog â hyn, ceir tuedd ostyngol o ran cadw athrawon. Mae'r gyfradd gadael ddiweddaraf ar ei lefel uchaf ers 10 mlynedd, ac mae nifer yr athrawon sy'n gadael y proffesiwn i weithio y tu allan i faes addysgu ar ei huchaf ers pum mlynedd. Mae'r gyfradd gadael uchaf o fewn y pum mlynedd cyntaf ar ôl cymhwyso; ar ben arall y sbectrwm, mae nifer yr athrawon sy'n gadael y proffesiwn i ymddeol yn gynnar ar ei huchaf ers pum mlynedd hefyd.

6.16 Cyflog cychwynnol athrawon yng Nghymru oedd £32,433 yn 2024, sy'n uwch na chyflog cychwynnol canolrifol graddedigion ar draws y Deyrnas Unedig, sef £32,000, a adroddwyd gan yr ISE, ond yn is na chanolrif High Fliers, sef £34,000. Mae'r bwlch rhwng cyflogau cychwynnol athrawon o gymharu â'r ISE a High Fliers wedi lleihau cryn dipyn ers 2016, wrth i gyflogau cychwynnol athrawon gynyddu 44.4% o gymharu â 16.4% a 13.3% ar gyfer yr ISE a High Fliers, yn y drefn honno. Mae'r duedd hon yn gadarnhaol, a chredwn y dylai barhau.

6.17 Er bod cyfanswm cyflogau canolrifol athrawon (gan gynnwys CAD) ar draws pob lefel profiad yn debyg i broffesiynau eraill yng Nghymru, mae data'n dangos llai o ddatblygiad cyflog ar gyfer athrawon mwy profiadol, o gymharu â phroffesiynau ac athrawon eraill mewn rhai awdurdodaethau eraill. Mae hyn yn deillio o'r ffaith bod gan athrawon yng Nghymru raddfa gyflog gymharol gywasgedig, sy'n achosi i gyflogau gyrraedd 'lefel wastad'. Ar y

cam hwn, yr unig lwybr sydd ar gael i gynyddu cyflog a pharhau i addysgu yw ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol trwy CADau.

6.18 Yn yr un modd, er bod cyflogau cyfartalog ar gyfer arweinwyr ar lefel uwchradd yn cymharu'n dda yn rhyngwladol, mae angen i hyn hefyd gael ei ystyried yng nghyd-destun yr heriau ehangach sy'n wynebu ysgolion. Nid yw cyflogau'n cymharu cystal ar gyfer penaethiaid cynradd: mae Cymru a Lloegr wedi'u graddio'n 11eg o 30 gwlad yr OECD.

6.19 I grynhoi, credwn fod dadl gref dros setliad cyflog uwch na chwyddiant i gynnal cystadleurwydd ariannol gyrfa ym maes addysgu ac arweinyddiaeth, ac i gydnabod y pwysau a'r gofynion amlweddog sy'n cael eu creu gan y cefndir economaidd ehangach a'r heriau eraill a amlinellwyd gennym.

6.20 Fel y nodwyd yn adran gefndir y bennod hon, dylid ystyried yr argymhelliad hwn ar gyfer dyfarniad cyflog yng nghyd-destun argymhellion cyfannol CACAC yn ein hadolygiad strategol. Er bod cyflog yn ffactor allweddol, rydym yn pryderu fwyfwy na fydd dyfarniadau cyflog blynyddol, heb ystyried ffactorau allweddol eraill, yn cael yr effaith a ddymunir o fynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw sy'n cynyddu.

6.21 Bwriadwn i'r sylwadau hyn gael eu hystyried fel cyfraniad cadarnhaol, yng nghyd-destun nodau ac uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru, a Chenhadaeth ein cenedl. Mae'r agenda diwygio addysg yn gyffrous ac yn sylweddol, ac mae angen iddi bellach gael ei hategu gan weithgarwch cyfochrog i drawsnewid amodau ar gyfer y proffesiwn addysgu yng Nghymru.

# Atodiad A – Llythyr Cylch Gwaith Ysgrifennydd y Cabinet 2025

**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg / Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/LN/0212/25
Mrs Sharron Lusher
Cadeirydd
Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru
D/o:
Ysgrifenyddiaeth
Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru
Secretariat@iwprb.wales
27 Ionawr 2025

**CYFLOG AC AMODAU ATHRAWON YSGOL**

**CYLCH GWAITH BLWYDDYN 6: MATERION I'W HADRODD**

Annwyl Sharron,

Hoffwn achub ar y cyfle hwn, yn gyntaf, i ddiolch i chi unwaith eto am eich gwaith chi a gwaith Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (CACAC) wrth ddarparu eich adroddiad adolygiad strategol a'ch pumed adroddiad i ni ar Gyflog ac Amodau Athrawon yng Nghymru.

Gyda'i gilydd, mae'r adroddiadau hyn wedi rhoi gwybodaeth fanwl am y materion ar y pryd a, thrwy eich argymhellion, wedi darparu datrysiadau posibl defnyddiol iawn. Fel y gwyddoch, rydym wedi gallu cynyddu cyflogau athrawon 5.5% eleni a darparu £5m ychwanegol ar gyfer Cydlynwyr ADY, ochr yn ochr â'n hymrwymiad i fwrw ymlaen â gwaith ar argymhellion 4-7 yng nghyd-destun yr adolygiad o'r Cod ADY yn ystod y misoedd i ddod. Disgwyliwn amlinellu'r camau nesaf yn hyn o beth erbyn yr haf 2025.

Mae'r proffesiwn addysgu yng Nghymru wedi wynebu nifer o heriau sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ers i bwerau dros gyflog ac amodau athrawon gael eu datganoli yma yng Nghymru, rwy'n falch ein bod wedi gallu mynd i'r afael â nifer o bryderon y proffesiwn. Cyflawnwyd hyn trwy gydweithio rhwng yr holl randdeiliaid allweddol ochr yn ochr â'r adroddiadau a'r argymhellion defnyddiol iawn a dderbyniwyd gan CACAC.

Rwyf yn ymwybodol o gasgliadau ac argymhellion eich adolygiad strategol o strwythur cyflog ac amodau athrawon ac arweinwyr yng Nghymru (Ebrill 2024) a'ch adolygiad o rolau a chyfrifoldebau athrawon cyflenwi yng Nghymru a gyflogir trwy awdurdodau lleol neu'n uniongyrchol gan ysgolion (Ebrill 2024). Rwyf hefyd yn ymwybodol o adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, sef Galw a Chyflenwi: Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon (Rhagfyr 2024).

Ochr yn ochr â hyn, rwyf innau, fel chi, yn ymwybodol o'r rhaglen ddiwygio a'r effaith y mae'n ei chael ar yr angen am ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel, a'r angen ehangach i gefnogi lles athrawon a mynd i'r afael â'r llwyth gwaith, cynorthwyo arweinwyr a holl staff ysgolion. Yn ddiweddar, rwyf wedi cadarnhau fy ymrwymiad i weithio gyda'r holl bartneriaid i ddatblygu cynllun strategol ar gyfer y gweithlu addysg, sy'n ceisio cydnabod proffesiynoldeb ac ansawdd ein hathrawon a'n staff ysgol i gefnogi ein dysgwyr, hyrwyddo lles, recriwtio a chadw, a gwella ansawdd addysgu a dysgu.

Yn y cyd-destun hwn, credaf ei bod yn bwysig i ni gytuno ar linell amser a chynllun gweithredu ar gyfer y materion allweddol a godwyd gan CACAC ac adroddiadau cysylltiedig ynglŷn â chyflog ac amodau, a sicrhau ein bod yn glir ac yn dryloyw ynglŷn â'r llinell amser a'r gwaith sy'n angenrheidiol i ddatblygu hyn. Rwyf hefyd yn ymwybodol o'r cyd-destun ariannol heriol a'r llwyth gwaith o fewn awdurdodau lleol ac ysgolion.

Yn 2025, bydd swyddogion y Llywodraeth yn gweithio'n agos gyda'r Fforwm Partneriaeth Cyflog neu ei his-grwpiau i gefnogi'r broses o ddatblygu cynllun wedi'i flaenoriaethu ynglŷn â'r ystod o argymhellion presennol ar gyfer cyflog ac amodau'r aelodau staff y mae CACAC yn gyfrifol amdanynt. Disgwyliaf i hyn ddechrau gyda'r argymhellion yn yr adolygiad strategol, sef y rhai mwyaf dybryd o ran llinell amser a blaenoriaeth – yn benodol amser gweithio, llwyth gwaith a graddfa gyflog athrawon – a disgwyliaf i'r cynigion ar y rhain adrodd erbyn mis Medi 2025.

Rwyf yn ddiolchgar iawn am waith CACAC a'ch ymdrechion parhaus chi, fel Cadeirydd, a'ch Bwrdd, a hynny'n arbennig tra bod y trefniadau ysgrifenyddiaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cael eu cadarnhau. Mae'n flaenoriaeth uchel i ni sicrhau bod gennych gymorth priodol a bod datrysiad cryf a chynaliadwy wrth symud ymlaen.

Ar gyfer 2025/26, rwyf yn disgwyl y dylai Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru roi ystyriaeth arbennig i'r canlynol:

- yr angen i sicrhau trefniadau cyflog cyson a rhesymol sy'n annog proffesiynoldeb athrawon, yn ogystal â helpu i recriwtio a chadw nifer ddigonol o athrawon ac arweinwyr o ansawdd digonol;
- data recriwtio a chadw;
- amodau'r farchnad lafur ac amodau economaidd ehangach, gan gynnwys cyd-destun ariannol y sector cyhoeddus;
- amlygu cost unrhyw newidiadau arfaethedig i gyflog ac amodau;
- yr angen am gydlyniad ar draws y system cyflogau athrawon yng Nghymru, gan ddarparu trefniadau syml a safonedig y gellir eu cymhwyso i bob athro ac arweinydd ysgol yng Nghymru.

Mae'n rhaid i CACAC hefyd ystyried rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol cyrff perthnasol, yn enwedig deddfwriaeth cydraddoldeb yn ymwneud ag: oed, anabledd,

rhyw, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, neu feichiogrwydd a mamolaeth.

**Materion ar gyfer Argymhelliad**

Cyfeiriaf y materion canlynol at CACAC ar gyfer argymhelliad yng ngoleuni'r ystyriaethau uchod:


> Pa addasiadau y dylid eu gwneud i'r ystodau cyflog a lwfans ar gyfer athrawon dosbarth, athrawon heb gymhwyso, ac arweinwyr ysgolion, i sicrhau bod y proffesiwn addysgu yng Nghymru yn cael ei hyrwyddo a'i wobrwyo er mwyn annog recriwtio a chadw ymarferwyr o ansawdd uchel?

Er mwyn caniatáu'r cyfnod hiraf posibl i ystyried eich argymhellion, ac ymgynghori arnynt, mae'n ofynnol i chi ddarparu adroddiad i mi erbyn 21 Mai 2025 fan bellaf.

> Ar ôl i adroddiad mis Mai gael ei gyflwyno: Pa addasiadau y dylid eu gwneud i Amodau Gwasanaeth Arweinwyr, yn enwedig ystyried a ddylai oriau gwaith gwarantedig (neu gyfyngiadau arnynt) yn ogystal â hawl warchodedig i wyliau a phenwythnosau ar gyfer arweinwyr gael eu cynnwys yn DCAAY(C)?

Wrth i waith fynd rhagddo ar yr ymagwedd at argymhellion blaenorol, mae'n bosibl y byddwn yn ychwanegu elfennau at y cylch gwaith hwn yn rhan o'n hymrwymiad i symud tuag at gynllun gwaith treigl aml-flwyddyn.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich argymhellion ar y materion hyn.



**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

# Atodiad B – Cyflwyniad i CACAC

**Diwrnod Dysgu Proffesiynol**

**CGA:**

David Browne – Cyfarwyddwr Rheoleiddio

**Cymwysterau Cymru:**

Jo Richards – Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoliadau

# Atodiad C – Llinell amser ar gyfer gweithredu (o Adolygiad Strategol 2024 CACAC 2024)

| **Amseriad** | **Rhif Cofnod CACAC** | **Llinell amser diwygiadau addysgol ac argymhellion CACAC** | **Cynnydd wrth Weithredu** |
|---|---|---|---|
| Medi 2024 | - | Diwygiadau addysgol: parhau i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru; Cymwys ar gyfer y Dyfodol: gweithio tuag at gymwysterau newydd; parhau i weithredu'r Ddeddf ADYTA; gweithio tuag at Cymraeg 2050; gweithio tuag at leihau'r llwyth gwaith. | - |
| Medi 2024 | 1 | Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru, o fis Medi 2024 ymlaen, fod y broses ymgeisio i symud o'r Brif Ystod Cyflog (PYC) i'r Ystod Cyflog Uwch (YCU) yn cael ei dileu o Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (DCAAY(C)), gan ganiatáu i athro symud rhwng graddfeydd yn awtomatig (yn amodol ar beidio â chychwyn gweithdrefnau gallu). | Heb ei weithredu |
| Medi 2024 | 2 | Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru, o fis Medi 2024 ymlaen, fod ysgol yn gallu dyfarnu pwynt ychwanegol i unrhyw athro YCU yr oedd ei berfformiad yn rhagorol yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol, gan roi ystyriaeth arbennig i addysgu yn yr ystafell ddosbarth. | Heb ei weithredu |
| Medi 2024 | 7 | Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru fod lleiafswm cyflog penaethiaid yn cael ei gynyddu o fis Medi 2024 ymlaen, trwy osod gwaelod grwpiau penaethiaid un, dau a thri ar leiafswm cyflog grŵp tri (£61,547 o fis Medi 2023 ymlaen). Dylid cadw terfynau uchaf presennol grŵp un, dau a thri. | Heb ei weithredu |
| Medi 2024 | 8 | Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru, yn 2024-2025, ei bod yn modelu disodli datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) â Chynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) o fewn cyfrifiad grwpiau penaethiaid, ac unrhyw effaith ddilynol ar gyfansymiau unedau ysgolion. | Heb ei weithredu |

| Amseriad | Rhif Cofnod CACAC | Llinell amser diwygiadau addysgol ac argymhellion CACAC | Cynnydd wrth Weithredu |
|---|---|---|---|
| Medi 2024 | 12 | Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru fod y gofyniad ar gyfer cyfrifoldeb rheolwr llinell dros nifer sylweddol o bobl (paragraff 20.5 DCAAY(C) 2024-2025) yn cael ei ehangu trwy ychwanegu:<br>neu lefelau ychwanegol sylweddol cyfwerth o gyfrifoldeb ac atebolrwydd mewn meysydd allweddol o'r ysgol | Wedi'i weithredu'n llawn |
| Medi 2024 | 13 | Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru y dylai paragraff 20.3 ac Adran 3, paragraff 54, DCAAY(C) 2024-2025 gael eu diwygio i nodi na ddylai lwfansau CDA3 gael eu dyfarnu am fwy na dwy flynedd. | Wedi'i weithredu'n llawn |
| Medi 2024 | 14 | Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru fod Adran 3, paragraff 51 DCAAY(C) 2024-2025 yn cael ei ddisodli gan:<br>Dylai CAD1 a CAD2 gael eu dyfarnu i athrawon yn y swyddi penodedig yn y strwythur staffio ac yn unol â'r gwerth ariannol a nodir yn y polisi cyflog yn unig. Pan ddyfernir CADau o'r fath i athrawon rhan-amser, byddant yn cael eu talu ar sail pro rata ar yr un gyfran â chontract rhan-amser yr athro neu, gyda chytundeb yr athro rhan-amser a'r cyflogwr, *byddant* yn cael eu talu'n llawn os bydd yr athro'n ymgymryd â'r dyletswyddau llawn sy'n gysylltiedig â'r lwfans. | Wedi'i weithredu'n llawn |
| Medi 2024 | 15 | Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru y dylai paragraff 20.4 DCAAY(C) 2024-2025 gael ei ymestyn i gynnwys cyfrifoldebau bugeiliol neu les a diogelu plant. | Wedi'i weithredu'n llawn |
| Medi 2024 | 17 | Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru fod darpariaeth ychwanegol yn cael ei gwneud i baragraff 26 DCAAY(C) 2024-2025 sy'n caniatáu i ysgolion ddarparu, trwy gytundeb ag athrawon unigol, buddion cyfwerth, fel amser i ffwrdd yn gyfnewid (TOIL) yn lle taliadau ariannol. | Heb ei weithredu |

## Atodiad C – Llinell Amser ar gyfer Gweithredu (o Adolygiad Strategol 2024 CACAC)

| Amseriad | Rhif Cofnod CACAC | Llinell amser diwygiadau addysgol ac argymhellion CACAC | Cynnydd wrth Weithredu |
|---|---|---|---|
| Medi 2024 | 18 | Mae CACAC yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun lleihau llwyth gwaith, sy'n lleihau amser gweithio athrawon, er mwyn sicrhau, erbyn mis Medi 2027, y cydymffurfir yn llawn ac yn gyson â'r terfynau a osodir yn Rheoliadau Amser Gwaith 1998 (paragraff 51.4 DCAAY(C)) ac nad oes anfantais o gymharu ag oriau gwaith yn Lloegr. | Heb ei weithredu |
| Medi 2024 | 21 | Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru fod DCAAY(C) (paragraff 51.10) yn cael ei diwygio i gysylltu anghenion datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) athrawon ac arweinwyr â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth a'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. | Wedi'i weithredu'n llawn |
| Medi 2024 | 22 | Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru, o fis Medi 2024 ymlaen:<br>• fod DCAAY(C) yn cael ei diwygio i gynnwys cyfeiriad at Ddeddf Cysylltiadau Cyflogaeth (Gweithio Hyblyg) 2023 a hawl staff i geisio gweithio'n hyblyg<br>• dylai DCAAY(C) gynnwys diffiniad o weithio'n hyblyg sy'n debyg i ddiffiniad y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) "unrhyw fath o drefniant gweithio sy'n rhoi rhywfaint o hyblygrwydd ynglŷn â pha mor hir, ble a phryd y mae cyflogeion yn gweithio"<br>• dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar weithio'n hyblyg mewn ysgolion, gan amlinellu'r buddion a sut gallai gweithio'n hyblyg gael ei gyflwyno. Dylai'r canllawiau hyn ganiatáu i athrawon dreulio amser nad yw'n ymwneud ag addysgu yn fwy hyblyg, yn amodol ar ofynion gweithredol<br>• dylai'r polisi cyflog ysgol enghreifftiol nodi ymagwedd yr ysgol at weithio'n hyblyg, gan ystyried yr angen i sicrhau bod yr ysgol yn cael ei chynnal yn ddidrafferth ac i sicrhau diogelwch a lles disgyblion a'u bod yn cael eu hamddiffyn | Heb ei weithredu |

| Amseriad | Rhif Cofnod CACAC | Llinell amser diwygiadau addysgol ac argymhellion CACAC | Cynnydd wrth Weithredu |
|---|---|---|---|
| Medi 2024 | 24 | Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru fod DCAAY(C) yn cael ei hail-lunio, i gynnwys hyperddolenni i ganllawiau allweddol ynglŷn â'r wybodaeth a gynhwysir yn adran statudol y ddogfen. | Wedi'i weithredu'n rhannol |
| Medi 2024 | 25 | Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru ei bod yn annog y sefydliadau cyflogwyr i hyrwyddo'r polisi cyflog enghreifftiol, a chynnwys datganiadau ynddo ar lwyth gwaith a gweithio'n hyblyg. | Heb ei weithredu |
| Medi 2024 | 26 | Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru ei bod yn adolygu ar fyrder y ffordd y caiff deddfwriaeth cydraddoldeb ei monitro a'i hadrodd ar lefel ysgol ac awdurdod lleol, ac ystyried a oes angen newidiadau i DCAAY(C) a pholisïau cyflog ysgolion, er mwyn sicrhau bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn gysylltiedig â chydraddoldeb. | Wrthi'n cael ei adolygu |
| Cylch Gwaith 2024-2025 | - | Cyfeirir yn benodol at ystyried amodau gwasanaeth ar gyfer arweinwyr ysgol yn rhan o gylch gwaith adolygu cyflogau CACAC ar gyfer 2024-2025. | - |
| Cylch Gwaith 2025-2026 | - | Diwygiadau addysgol: bydd y broses o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru bron â'i chwblhau; bydd cymwysterau newydd yn dechrau cael eu haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2025; bydd y grŵp strategol ar leihau'r llwyth gwaith wedi cwblhau ei waith; bydd yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi cael ei dderbyn ynglŷn â chaniatáu i athrawon newydd gymhwyso (AGA) gamu i fyny'r raddfa gyflog dim ond pan fyddant wedi cwblhau'r cyfnod sefydlu. | - |

# Atodiad C – Llinell Amser ar gyfer Gweithredu (o Adolygiad Strategol 2024 CACAC)

| Amseriad | Rhif Cofnod CACAC | Llinell amser diwygiadau addysgol ac argymhellion CACAC | Cynnydd wrth Weithredu |
|---|---|---|---|
| Cylch Gwaith 2025-2026 | 3 | Mae CACAC yn cefnogi un raddfa gyflog mewn egwyddor, ac yn argymell i Lywodraeth Cymru fod CACAC yn cael ei gyfarwyddo yn 2025-2026 i ymgynghori ar ddatblygiad a strwythur graddfa gyflog gyfunol unigol.<br><br>Hyd nes y bydd yr adolygiad yn digwydd, mae CACAC yn argymell bod y derminoleg bresennol ar gyfer graddfeydd cyflog (PYC ac YCU) yn cael ei chadw, ynghyd â'r trefniadau presennol ar gyfer pwyntiau cyflog, hynny yw, yn flynyddol ar y PYC a bob dwy flynedd ar yr YCU. | - |
| Cylch Gwaith 2025-2026 | 4 | Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru y dylai rôl yr ymarferydd arweiniol a'i strwythur cyflog cysylltiedig gael eu hadolygu gan CACAC yn 2025-2026, ochr yn ochr â'r raddfa gyflog gyfunol unigol ar gyfer athrawon y cyfeirir ati yn Argymhelliad 3. | - |
| Cylch Gwaith 2025-2026 | 5 | Mae CACAC yn credu mewn egwyddor y dylai athrawon newydd gymhwyso (ANG) gamu ymlaen ar y raddfa addysgu dim ond pan fydd eu cyfnod sefydlu wedi'i gwblhau'n foddhaol, ac mae'n argymell i Lywodraeth Cymru ei fod yn cael ei gyfarwyddo yn 2025-2026 i ymgynghori ar y mater hwn, ar ôl i Lywodraeth Cymru ystyried asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. | - |
| Cylch Gwaith 2025-2026 | 19 | Mae CACAC yn cefnogi pennu uchafswm nifer o oriau addysgu yr wythnos o fewn DCAAY(C). Argymhellwn i Lywodraeth Cymru ei bod yn cynnal asesiad llawn o effaith y cynnig hwn, a bod CACAC yn cael ei gyfarwyddo yn 2025-2026 i ymgynghori ar weithredu. | - |

| Amseriad | Rhif Cofnod CACAC | Llinell amser diwygiadau addysgol ac argymhellion CACAC | Cynnydd wrth Weithredu |
|---|---|---|---|
| Cylch Gwaith 2025-2026 | 23 | Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru ei fod yn cael ei gyfarwyddo yn 2025-2026 i ymgynghori ar gynigion, i'w gweithredu yn DCAAY(C), i gynnig:<br>• cyfnodau sabothol di-dâl ar gyfer athrawon ac arweinwyr<br>• seibiannau gyrfa ar gyfer athrawon ac arweinwyr<br>• nifer benodedig o gyfnodau sabothol neu secondiadau a ariennir yn genedlaethol ar gyfer athrawon ac arweinwyr | - |
| Cylch Gwaith 2026-2027 | - | Diwygiadau addysgol: bydd y Cwricwlwm i Gymru yn ei flwyddyn weithredu olaf; bydd Deddf ADYTA (Cymru) wedi cael ei gweithredu; bydd yr ymarfer modelu o effeithiau'r Ddeddf ADYTA ar grwpiau penaethiaid wedi cael ei dderbyn; bydd y gwaith ymchwil ar strwythurau ffederal wedi cael ei gwblhau. | - |
| Cylch Gwaith 2026-2027 | 9 | Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru fod CACAC yn cael ei gyfarwyddo yn 2026-2027 i adolygu'r ystod cyflog ar gyfer penaethiaid a'r fethodoleg ar gyfer y cyfrifiad grwpiau penaethiaid, gan ystyried y newidiadau i Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) y cynigir eu modelu yn Argymhelliad 8. | - |
| Cylch Gwaith 2026-2027 | 10 | Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru ei bod yn adolygu ac yn dadansoddi strwythurau gweithredol ac arweinyddiaeth a threfniadau cyflog ysgolion ffederal ledled Cymru, ac y gofynnir i CACAC ystyried y canfyddiadau yn ei gylch gwaith ar gyfer 2026-2027. | - |
| Cylch Gwaith 2026-2027 | 11 | Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru fod CACAC yn cael ei gyfarwyddo yn 2026-2027 i ymgynghori ar adolygiad o'r ystod cyflog arweinyddiaeth a chanllawiau cysylltiedig, ochr yn ochr â'r adolygiad o grwpiau penaethiaid y cyfeirir ato yn Argymhelliad 9. | - |

## Atodiad C – Llinell Amser ar gyfer Gweithredu (o Adolygiad Strategol 2024 CACAC)

| Amseriad | Rhif Cofnod CACAC | Llinell amser diwygiadau addysgol ac argymhellion CACAC | Cynnydd wrth Weithredu |
|---|---|---|---|
| Cylch Gwaith 2026-2027 | 20 | Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru y dylai'r amser a ddyrennir ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) gael ei ailarchwilio pan wyddys canlyniad Argymhelliad 19, ac y dylid cyfarwyddo CACAC i archwilio hyn ymhellach yn 2026-2027. | - |
| Cylch Gwaith 2028-2029 | 6 | Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru y dylai CACAC gael ei gyfarwyddo i gynnal adolygiad o'r telerau a'r amodau ar gyfer diogelu cyflogau yng nghyfnod adolygu 2027-2028. | - |
| Cylch Gwaith 2028-2029 | 16 | Mae CACAC yn argymell i Lywodraeth Cymru, ar ôl adolygu'r dadansoddiad o ddata, fod CACAC yn cael ei gyfarwyddo i adolygu lwfansau ar gyfer athrawon cyfrwng Cymraeg yn 2027-2028. | - |

# Atodiad Ch – Pwyntiau graddfa gyflog argymelledig ar gyfer 2025-2026

### Prif Ystod Cyflog

| - | 2024<br>£ | 2025<br>£ |
|---|---|---|
| P2 (lleiafswm) | 32,433 | 33,990 |
| P3 | 35,039 | 36,721 |
| P4 | 37,739 | 39,550 |
| P5 | 40,710 | 42,664 |
| P6 (uchafswm) | 44,802 | 46,952 |

### Ystod Cyflog Uwch

| - | 2024<br>£ | 2025<br>£ |
|---|---|---|
| Lleiafswm | 46,446 | 48,675 |
| U2 | 48,168 | 50,480 |
| Uchafswm | 49,944 | 52,341 |

### Ystod Cyflog Ymarferydd Arweiniol

| - | 2024<br>£ | 2025<br>£ |
|---|---|---|
| Lleiafswm | 50,902 | 53,345 |
| Uchafswm | 77,382 | 81,096 |

### Ystod Cyflog Athrawon Heb Gymhwyso

| - | 2024<br>£ | 2025<br>£ |
|---|---|---|
| 1 | 21,812 | 22,859 |
| 2 | 24,348 | 25,517 |
| 3 | 26,884 | 28,174 |
| 4 | 29,419 | 30,831 |
| 5 | 31,959 | 33,493 |
| 6 | 34,495 | 36,151 |

## Atodiad Ch – Pwyntiau graddfa gyflog argymelledig ar gyfer 2025-2026

### Ystodau Lwfans

| - | 2024 £ | 2025 £ |
|---|---|---|
| **CAD 1** | **CAD 1** | **CAD 1** |
| Lleiafswm | 9,955 | 10,433 |
| Uchafswm | 16,844 | 17,653 |
| **CAD 2** | **CAD 2** | **CAD 2** |
| Lleiafswm | 3,451 | 3,617 |
| Uchafswm | 8,426 | 8,830 |
| **CAD 3** | **CAD 3** | **CAD 3** |
| Lleiafswm | 686 | 719 |
| Uchafswm | 3,403 | 3,566 |
| **ADY** | **ADY** | **ADY** |
| Lleiafswm | 2,728 | 2,859 |
| Uchafswm | 5,379 | 5,637 |

### Ystod Cyflog y Grŵp Arweinyddiaeth

| - | 2024 £ | 2025 £ | - | 2024 £ | 2025 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 50,653 | 53,084 | 24* | 88,303 | 92,542 |
| 2 | 51,920 | 54,412 | 24 | 89,186 | 93,467 |
| 3 | 53,216 | 55,770 | 25 | 91,401 | 95,788 |
| 4 | 54,541 | 57,159 | 26 | 93,663 | 98,159 |
| 5 | 55,900 | 58,583 | 27* | 95,034 | 99,596 |
| 6 | 57,304 | 60,055 | 27 | 95,984 | 100,591 |
| 7 | 58,844 | 61,669 | 28 | 98,364 | 103,085 |
| 8 | 60,203 | 63,093 | 29 | 100,800 | 105,638 |
| 9 | 61,705 | 64,667 | 30 | 103,309 | 108,268 |
| 10 | 63,290 | 66,328 | 31* | 104,812 | 109,843 |
| 11 | 64,933 | 68,050 | 31 | 105,862 | 110,943 |
| 12 | 66,430 | 69,619 | 32 | 108,492 | 113,700 |
| 13 | 68,090 | 71,358 | 33 | 111,187 | 116,524 |
| 14 | 69,787 | 73,137 | 34 | 113,936 | 119,405 |
| 15 | 71,523 | 74,956 | 35* | 115,613 | 121,162 |
| 16 | 73,426 | 76,950 | 35 | 116,769 | 122,374 |
| 17 | 75,111 | 78,716 | 36 | 119,659 | 125,403 |
| 18* | 76,238 | 79,897 | 37 | 122,634 | 128,520 |
| 18 | 77,000 | 80,696 | 38 | 125,669 | 131,701 |
| 19 | 78,910 | 82,698 | 39* | 127,456 | 133,574 |
| 20 | 80,865 | 84,747 | 39 | 128,732 | 134,911 |

| - | 2024 £ | 2025 £ | - | 2024 £ | 2025 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| 21* | 82,047 | 85,985 | 40 | 131,943 | 138,276 |
| 21 | 82,868 | 86,846 | 41 | 135,240 | 141,732 |
| 22 | 84,925 | 89,001 | 42 | 138,627 | 145,281 |
| 23 | 87,027 | 91,204 | 43 | 140,685 | 147,438 |

* Y pwyntiau hyn a phwynt 43 yw’r uchafswm cyflogau ar gyfer wyth ystod y grŵp penaethiaid